# Adnewyddu Trwydded Channel 4

Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer trwydded newydd Channel 4

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd ar 6 Rhagfyr 2023

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 14 Chwefror 2024

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ... 3
2. Fframwaith ar gyfer adnewyddu trwydded ... 5
3. Y cyd-destun yr ydym yn adnewyddu’r drwydded ynddo ... 11
4. Perfformiad ariannol diweddar ... 26
5. Cynigion ar gyfer ymgynghori ... 32

A1. Effaith Gwerth Ychwanegol Gros gwariant Channel 4 ar gynnwys MoE ... 84
A2. Ymateb i’r ymgynghoriad hwn ... 90
A3. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori ... 93
A4. Dalen gyflwyno’r ymgynghoriad ... 94
A5. Cwestiynau’r ymgynghoriad ... 95

# 1. Trosolwg

Bydd trwydded bresennol Channel 4 yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024. Mae Ofcom yn gyfrifol am bennu hyd ac amodau trwydded newydd ar gyfer Channel 4 Television Corporation (C4C) i ddarparu'r sianel gwasanaeth cyhoeddus, Channel 4.

**Mae Channel 4 yn dal yn rhan allweddol o ecoleg ddarlledu'r DU**, gyda chynulleidfaoedd yn parhau i'w sgorio, a'r amrywiaeth ehangach o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan C4C, yn uchel.[1] Mae C4C yn parhau i ddarparu cynnwys sy'n hyrwyddo lleisiau a safbwyntiau newydd ac amrywiol ac i chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi'r economi greadigol y tu allan i Lundain.

**Fodd bynnag, mae'r sector darlledu wedi newid yn sylweddol ers i drwydded Channel 4 gael ei hadnewyddu ddiwethaf.** Mae arferion gwylio cynulleidfaoedd wedi newid yn gyflym dros y degawd diwethaf, gyda gwasanaethau ffrydio fideos ar-lein yn chwarae rhan ganolog ym mywydau bob dydd y rhan fwyaf o bobl, ac mae gwylio teledu darlledu traddodiadol wedi gweld gostyngiad sylweddol a hirdymor. Mae hyn yn arbennig o wir am y bobl iau sydd wedi ffurfio cynulleidfa graidd Channel 4 yn draddodiadol. Ar yr un pryd, mae chwaraewyr rhyngwladol mawr yn denu gwylwyr fwyfwy oddi wrth ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU.

**Mae ein hadolygiadau blynyddol diweddar[2] o berfformiad C4C wedi canfod ei fod wedi bod yn cyflawni'n dda flwyddyn ar ôl blwyddyn yn erbyn ei gylch gwaith a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau, gan reoli'r newid o fod yn ddarlledwr llinol[3] yn bennaf i fod yn ddarlledwr digidol.** Ond wrth i dechnoleg ac arferion cynulleidfaoedd esblygu, mae'n wynebu heriau ariannol, gostyngiad yng nghyfran y gynulleidfa a chydnabyddiaeth o frand sy'n gwanhau ymysg cynulleidfaoedd iau. Erbyn hyn, mae C4C yn sicrhau bod llawer iawn o bobl yn ei wylio drwy ei lwyfan ffrydio.[4] Ei strategaeth yw blaenoriaethu twf digidol dros raddfeydd llinol, gan optimeiddio arferion gwylio gwasanaethau ffrydio ym mhob penderfyniad comisiynu ac amserlennu.[5] Drwy gydol cyfnod nesaf y drwydded, bydd gan C4C fwy o ffocws ar hyn.

**Fel rhan o'r broses o adnewyddu trwydded Channel 4, mae C4C wedi gofyn am newidiadau i rai o'i rwymedigaethau trwydded presennol i gefnogi a galluogi'r newid hwn.** Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori arnynt yn ceisio taro cydbwysedd rhwng rhoi mwy o hyblygrwydd i C4C yn y dyfodol i ddatblygu ei strategaeth cynnwys a dosbarthu i gefnogi ei drawsnewidiad digidol, gan barhau i ddiogelu ei fuddsoddiad mewn cynnwys unigryw yn y DU a diogelu'r gwaith o gyflawni elfennau craidd ei allbwn llinol ar Channel 4.

Rydym yn cynnig newidiadau nawr, cyn deddfwriaeth darlledu newydd, i roi sicrwydd i C4C a'i bartneriaid masnachol ac i sicrhau y gall elwa o'r hyblygrwydd ychwanegol hwn cyn gynted â phosibl. Pan fydd y ddeddfwriaeth newydd yn cael ei phasio, bydd yn rhaid i ni ddiwygio'r holl drwyddedau ar gyfer sianeli gwasanaeth cyhoeddus er mwyn rhoi'r fframwaith newydd ar waith.

---

[1] Ofcom  Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2022 yn dangos bod Channel 4 wedi cael lefelau uchel o foddhad ymysg ei gwylwyr yn ystod y chwe mis diwethaf (79%) ac wedi cymharu'n ffafriol â PBS eraill. Yn yr un modd, roedd All 4 / All 4+ (fel y'i gelwid adeg y gwaith maes) yn cael lefelau uchel o foddhad ymysg ei gwylwyr (75%).

[2] Ofcom, Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ar ei Bolisi Cynnwys Cyfryngau 2022.

[3] Mae 'llinol' yn cyfeirio at gynnwys sy'n cael ei wylio'n fyw ar set deledu.

[4] Mae Channel 4 Streaming yn cynnig cynnwys ar-alw ochr yn ochr â ffrydiau ar-lein o gynnwys sy'n cael ei ddarlledu'n fyw.

[5] Tudalen we: Future4 strategy

## Beth rydym yn ei gynnig ar gyfer gwasanaeth llinol Channel 4 – yn gryno

**Newyddion**

**Cadw amod y drwydded sy'n mynnu dim llai na 208 awr** o newyddion yn ystod oriau gwylio brig, bob blwyddyn galendr dros gyfnod y drwydded.

**Cael gwared ar amod y drwydded sy'n mynnu bod un rhaglen newyddion yn cael ei darlledu amser cinio** bob diwrnod o'r wythnos.

**Cadw amod y drwydded sy'n mynnu un rhaglen** y dydd yn gynnar gyda'r nos, **bob dydd Sadwrn a dydd Sul**.

**Materion Cyfoes**

**Lleihau nifer yr oriau o faterion cyfoes** sy'n rhaid eu darlledu ym mhob blwyddyn galendr o ddim llai na **208, i ddim llai na 178 awr**.

**Cadw amod y drwydded sy'n mynnu dim llai na 80 awr** o raglenni materion cyfoes yn ystod oriau gwylio brig.

**Cynyrchiadau gwreiddiol**

**Lleihau'r gofyniad presennol bod o leiaf 56%** o'r oriau o raglenni a gynhwysir yn y gwasanaeth ym mhob blwyddyn galendr yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer y gwasanaeth **i o leiaf 45% o'r oriau bob blwyddyn galendr.**

**Cadw'r gofyniad bod o leiaf 70% o'r oriau** o raglenni sy'n cael eu gwylio yn ystod oriau brig yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer y gwasanaeth.

**Cynyrchiadau rhanbarthol**

**Cadw'r gofyniad bod yn rhaid i o leiaf 35% o'r oriau o raglenni ym mhob blwyddyn galendr** sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar y gwasanaeth gael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25, a bod yn rhaid i **o leiaf 35% o'r gwariant** ar raglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar y gwasanaeth gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25.

**Cadw'r gofyniad bod yn rhaid i o leiaf 9% o'r oriau o raglenni ym mhob blwyddyn galendr** sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar y gwasanaeth yn cael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr, ac mewn unrhyw flwyddyn galendr, bod **o leiaf 9% o'r gwariant ar raglenni** sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar y gwasanaeth yn cael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni y tu allan i Loegr.

**Rhaglenni ysgol**

**Cadw'r gofyniad i ddarlledu o leiaf hanner awr o raglenni ysgol**, ac eithrio deunydd cyflwyno, ym mhob blwyddyn galendr.

**Cynyrchiadau annibynnol**

**Cadw'r gofyniad bod o leiaf 25%** o gyfanswm yr amser a ddyrennir i ddarlledu rhaglenni cymwys ar y gwasanaeth yn cael ei neilltuo i ddarlledu ystod ac amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol.

**Hyd y drwydded**

**Adnewyddu'r drwydded am gyfnod o ddeng mlynedd** gan ddechrau o 1 Ionawr 2025.

# 2. Fframwaith ar gyfer adnewyddu trwydded

## Cylch gwaith a rhwymedigaethau Channel 4

2.1 Mae C4C yn gorff nid-er-elw sy'n eiddo cyhoeddus, ac yn cael ei ariannu gan refeniw masnachol. Lansiwyd ei brif sianel, Channel 4, yn 1982 gyda'r nod o ymestyn y dewis sydd ar gael i wylwyr, gan apelio at chwaethau a diddordebau nad yw darlledwyr eraill yn darparu ar eu cyfer yn gyffredinol ac felly'n annog arloesi a datblygu'r sector cynhyrchu annibynnol. Ers hynny, mae C4C wedi lansio amrywiaeth o sianeli portffolio[6] a gwasanaeth ffrydio, y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn fel Channel 4 Streaming (All4) yn flaenorol.[7]

2.2 Mae gan Channel 4 gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigryw a phenodol ac mae'n cyfrannu at ddibenion cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[8] Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) yn rhagweld cyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau'r amcanion a nodir yn adran 264(6) y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gwasanaethau teledu gwasanaeth cyhoeddus sydd, gyda'i gilydd, yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu; yn adlewyrchu gweithgarwch diwylliannol yn y Deyrnas Unedig a'i hamrywiaeth; ac yn hwyluso, i raddau priodol, ddealltwriaeth ddinesig a thrafodaeth deg a gwybodus ar newyddion a materion cyfoes.

2.3 Cylch gwaith statudol C4C yw darparu amrywiaeth eang o raglenni amrywiol ac o ansawdd uchel sydd, yn benodol: yn dangos arloesedd, dulliau arbrofi a chreadigrwydd o ran ffurf a chynnwys rhaglenni; yn apelio at chwaeth a diddordebau cymdeithas ddiwylliannol amrywiol; yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr angen i sianeli gwasanaeth cyhoeddus gynnwys rhaglenni addysgol; ac yn arddangos cymeriad unigryw.[9]

2.4 Mae gan C4C hefyd amrywiaeth o ddyletswyddau cynnwys cyfryngau statudol y gall eu cyflawni ar draws unrhyw wasanaethau darlledu neu ar-lein,[10] gan gynnwys Channel 4 Streaming.[11] Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau i:

a) wneud amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel sy'n apelio at chwaethau a buddiannau cymdeithas sy'n ddiwylliannol amrywiol;
b) darparu newyddion a materion cyfoes;
c) darparu cynnwys sy'n apelio at blant hŷn ac oedolion ifanc;

---

[6] Mae'r rhain yn cynnwys E4, E4 Extra, More4, Film4, a 4seven. Maent hefyd yn cynnwys The Box, Box Upfront, 4Music, Kerrang, Kiss TV, a Magic TV, a gafodd ei gaffael yn llawn gan C4C yn 2019.
[7] Tudalen we: Channel 4 brings iconic blocks back together for single brand streaming future.
[8] Nodir y dibenion hyn yn adran 264(4) Deddf Cyfathrebiadau 2003.
[9] Adran 265(3) o'r Ddeddf. Rhaid i drwydded Channel 4 gynnwys amod sy'n mynnu bod C4C yn cyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus Channel 4.
[10] Mae'r gwasanaethau ar-lein perthnasol yn wasanaethau rhaglenni ar-alw a gwasanaethau eraill sy'n cael eu darparu drwy'r rhyngrwyd pan fydd rhywun sydd â rheolaeth olygyddol dros y deunyddiau sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth.
[11] Mae'r dyletswyddau cynnwys cyfryngau wedi'u nodi yn adran 198A o'r Ddeddf.

d) gwneud, darlledu a dosbarthu ffilmiau o ansawdd uchel, y bwriedir eu dangos i gynulleidfaoedd yn y DU, a darlledu a dosbarthu ffilmiau (gan gynnwys ffilmiau trydydd parti) sy'n adlewyrchu gweithgarwch diwylliannol yn y DU i gynulleidfaoedd;
e) cefnogi datblygu pobl sydd â thalent greadigol;
f) hybu barn wahanol a safbwyntiau newydd;
g) hybu mesurau sydd wedi'u bwriadu i sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth a chymhelliant i gymryd rhan mewn cymdeithas; a
h) chefnogi ac ysgogi dadl ar sail gwybodaeth ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys drwy ddarparu gwybodaeth a safbwyntiau o bob rhan o'r byd a herio safbwyntiau sydd wedi ennill eu plwyf.

2.5 Mae gan C4C ragor o rwymedigaethau penodol sydd wedi'u nodi yn y drwydded darlledu ar gyfer Channel 4.

## Amodau'r drwydded bresennol

2.6 Mae trwydded bresennol Channel 4 yn cynnwys rhwymedigaethau i ddarparu, ym mhob blwyddyn o gyfnod y drwydded:

- 208 awr o raglenni newyddion yn ystod oriau brig, gan gynnwys:
  - un rhaglen amser cinio bob diwrnod o'r wythnos ac un yn gynnar gyda'r nos bob diwrnod o'r wythnos; a
  - rhaglen yn gynnar gyda'r nos ar benwythnosau ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.
- 208 awr o raglenni materion cyfoes, gydag 80 awr i'w neilltuo ar gyfer oriau brig.
- 25% o raglenni cymwys i'w comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol.
- 56% o holl raglenni Channel 4 i fod yn gynyrchiadau gwreiddiol, gyda 70% o'r rhaglenni yn ystod oriau brig yn gynyrchiadau gwreiddiol.
- 35% o'r oriau a'r gwariant i'w neilltuo i raglenni sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU a'r tu allan i'r M25.
- 9% o'r oriau a'r gwariant i'w neilltuo i raglenni a gynhyrchir yn y DU a'r tu allan i Loegr.
- 30 munud o raglenni ysgol.

2.7 Mae'r drwydded yn cynnwys amrywiaeth o amodau eraill, fel gofynion sy'n ymwneud ag isdeitlo, iaith arwyddion a disgrifiadau sain, nad oes yn rhaid i ni eu hystyried fel rhan o adnewyddu trwydded Channel 4 ac nad ydynt felly'n cael sylw yn yr ymgynghoriad hwn. Ni fydd yr amodau hyn yn newid yn y drwydded newydd.

## Ofcom yn adnewyddu'r drwydded

2.8 Cafodd y drwydded bresennol ei phennu yn 2014 am gyfnod o ddeng mlynedd ac mae gan Ofcom y pŵer i adnewyddu'r drwydded am gyfnod pellach. Wrth wneud hynny, rhaid i Ofcom wneud y canlynol:

- gosod amodau trwydded mae Ofcom yn eu "*hystyried yn briodol*" i sicrhau rhai materion penodol a bennir o dan y Ddeddf; a
- phennu cyfnod y drwydded newydd, a allai redeg "*am y cyfryw gyfnod ag y gwêl Ofcom yn briodol*." [12]

[12] Adran 231 o'r Ddeddf.

2.9 Mae'r amodau y mae'n rhaid i Ofcom eu gosod yn nhrwydded Channel 4 yn cynnwys gofynion i sicrhau:

- swm priodol o newyddion a materion cyfoes (gydag amodau sy'n briodol yn ein barn ni, ac ar gyfer rhannu'r amser rhwng oriau brig ac adegau eraill);[13]
- cyfran addas o raglenni a gomisiynir gan gynhyrchwyr annibynnol (dim llai na 25% o raglenni cymwys);[14]
- cyfran briodol o raglenni i fod yn gynyrchiadau gwreiddiol ar gyfer y sianel (gydag amodau fel y gwelwn sy'n briodol ar gyfer oriau brig ac adegau eraill);[15]
- cyfran briodol o raglenni a wneir y tu allan i Lundain; a[16]
- nifer briodol o raglenni i ysgolion yn y DU.[17]

2.10 Mae gan Ofcom ddyletswyddau cyffredinol, o ran cyflawni ei swyddogaethau, i hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.[18] Wrth wneud hynny, rhaid i Ofcom ystyried nifer o faterion gan gynnwys pa mor ddymunol yw hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.[19] Wrth bennu'r amodau a phennu hyd y drwydded newydd, felly, bydd Ofcom yn ystyried cyfraniad Channel 4 at gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn rhagweld y bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni'r dibenion hyn gyda'i gilydd, felly efallai y byddai'n briodol gosod gofynion gwahanol ar gyfer gwahanol ddarlledwyr.

## Effaith ein cynigion

2.11 Mae Adran 7 o'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.

2.12 Yn fwy cyffredinol, mae asesiadau o'r effaith yn rhan o arfer llunio polisïau da ac felly, rydym yn disgwyl eu cynnal yng nghyswllt y rhan fwyaf o'n cynigion. Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosib ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maent hefyd yn ein helpu i egluro'r penderfyniadau polisi rydym wedi penderfynu eu gwneud a pham rydym yn ystyried bod y penderfyniadau hynny'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd leiaf ymwthiol. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol o ran sut rydym yn asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.

2.13 Mae'r dyletswyddau perthnasol mewn perthynas â'r cynigion rydym yn ymgynghori arnynt wedi'u nodi uchod ac yn adran 5 mewn perthynas â phob un o'n cynigion unigol.

2.14 Fel rydym yn egluro'n fanylach drwy gydol yr ymgynghoriad hwn, rydym yn disgwyl y byddai hyd ac amodau arfaethedig trwydded Channel 4 yn cael effaith gadarnhaol ar C4C a chynulleidfaoedd. Byddai ein cynigion yn helpu i sicrhau bod dibenion darlledu gwasanaeth

[13] Adran 279 o'r Ddeddf.
[14] Adran 277 o'r Ddeddf.
[15] Adran 278 o'r Ddeddf.
[16] Adran 288 o'r Ddeddf.
[17] Adran 296 o'r Ddeddf.
[18] Adran 3 o'r Ddeddf.
[19] Adran 3(4)(a) o'r Ddeddf

cyhoeddus a chylch gwaith Channel 4 yn cael eu cyflawni drwy sicrhau niferoedd priodol o raglenni newyddion, materion cyfoes, cynyrchiadau gwreiddiol, wedi'u gwneud yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU, rhaglenni ysgol a chynyrchiadau annibynnol. Rydym yn disgwyl i'r cynigion fod er budd cynulleidfaoedd, yn enwedig cynulleidfaoedd iau y mae gan C4C ddyletswydd benodol i'w gwasanaethu.[20] Rydym yn disgwyl i'r cynigion gyda'i gilydd hyrwyddo cynaliadwyedd C4C a rhoi digon o hyblygrwydd iddo ddatblygu a gwireddu ei strategaeth 'Future4', er mwyn iddo allu parhau i gyflawni cylch gwaith Channel 4 a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau dros gyfnod y drwydded.

2.15 Mae ein hasesiad manwl o effaith pob cynnig wedi'i nodi yn adran 5.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

2.16 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

2.17 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

2.18 I'n helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac yn benodol, a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

2.19 Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydym hefyd yn meddwl yn fwy eang am yr effeithiau posibl ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 yn ein canllawiau ar asesu effaith). Yn benodol, mae adran 3(4) o'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn rhoi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol yn yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae'r rhain yn cynnwys:

a) natur fregus plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau yn ein barn ni yn golygu bod angen diogelwch arbennig arnynt;
b) anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel;
c) gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

2.20 Rydym yn cynnig lleihau rhai o rwymedigaethau C4C i ddarparu cynnwys ar Channel 4 (drwy ddileu'r gofyniad newyddion amser cinio, lleihau'r cwota materion cyfoes, a lleihau'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol), er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i S4C fuddsoddi mwy yn ei gynnwys a'i wasanaethau ar-lein. Rydym yn rhagweld y bydd y cynigion hyn o fudd arbennig i

[20] Mae gan C4C ddyletswydd cynnwys cyfryngau i gymryd rhan yn y broses o greu cynnwys sy'n apelio at blant hŷn ac oedolion ifanc.

gynulleidfaoedd iau (y mae gan C4C ddyletswydd benodol i'w gwasanaethu), gan fod y grŵp oedran hwn yn troi fwyfwy oddi wrth deledu darlledu traddodiadol i wylio cynnwys ar-lein. Rydyn ni'n disgwyl y dylai cynulleidfaoedd iau felly elwa o amrywiaeth ehangach o gynnwys, a chynnwys o ansawdd uwch, ar y llwyfannau maent yn fwyaf tebygol o ymgysylltu â nhw. Rydym hefyd o'r farn y gallai ein cynnig i gynnal gofynion newyddion craidd Channel 4 (drwy gadw'r cwota newyddion brig a'r gofyniad am newyddion ar benwythnos) fod o fudd i gynulleidfaoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, gan fod ymchwil yn dangos bod darpariaeth newyddion C4C yn boblogaidd ymysg y cynulleidfaoedd hyn.

2.21 Gall ein cynigion gael effaith niweidiol ar gynulleidfaoedd y mae'n well ganddynt ddefnyddio gwasanaethau darlledu traddodiadol, neu sy'n fwy dibynnol arnynt; gallai gynnwys pobl hŷn a phobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is nad ydynt o bosibl yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd. Rydym wedi ystyried ffyrdd o liniaru'r effeithiau posibl hyn ac rydym o'r farn y bydd ein cynigion yn diogelu elfennau craidd cyflawni cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus C4C, drwy sicrhau bod C4C yn parhau i ddarparu lefelau priodol o newyddion, materion cyfoes a chynyrchiadau gwreiddiol ar Channel 4.

2.22 Mae'n bosibl na fydd ein cynigion i gadw cwotâu cynhyrchu rhanbarthol Channel 4 ar eu lefel bresennol (yn hytrach na'u cynyddu, er enghraifft i'r lefelau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd), yn arwain at gynnydd posibl yn yr effaith gadarnhaol ar gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau, neu'r economi greadigol yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, er bod gan y cwotâu ran hollbwysig i'w chwarae o ran sicrhau buddsoddiad yn y gwledydd a'r rhanbarthau, mae effaith C4C yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn mynd ymhell y tu hwnt i hyn. Rydym o'r farn bod lefelau presennol y cwotâu yn sicrhau lefel fuddsoddi sylfaenol briodol a byddwn yn parhau i ddal C4C i gyfrif mewn perthynas â'i ddyletswyddau i gefnogi sector creadigol ffyniannus ledled y DU, ac i adlewyrchu bywydau cynulleidfaoedd yng ngwledydd a rhanbarthau gwahanol y DU, drwy ein hadroddiad blynyddol mewn ymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau C4C (y cyfeirir ato yn y ddogfen hon fel ein Hadroddiad 'SMCP'). [21]

2.23 Rydym wedi asesu effaith ein cynigion yn fwy manwl yn adran 5 y ddogfen hon. Byddem yn croesawu ymatebion i'n hymgynghoriad ar yr effaith bosibl ar y grwpiau a nodwyd, a ffyrdd y gallem liniaru neu ddileu'r effaith hon.

2.24 Gall Ofcom ddarparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau ar gais, e.e. PDF hygyrch, print bras, hawdd ei ddarllen, recordiad sain neu braille. Os byddwch yn rhoi gwybod i ni pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac ym mha fformat, byddwn yn ystyried y cais ac yn ymateb o fewn 21 diwrnod.

**Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effaith bosibl ar grwpiau penodol o bobl?

Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

[21] O dan adran 198B o'r Deddf, mae'n rhaid i C4C baratoi datganiad blynyddol o bolisi cynnwys cyfryngau (SMCP) sy'n amlinellu ei chynlluniau ar gyfer cyflawni ei dyletswyddau cynnwys cyfryngau yn ystod y flwyddyn nesaf ac adrodd yn ôl am ei pherfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhaid i C4C ymgynghori ag Ofcom wrth baratoi'r cyhoeddiad a rhoi sylw i ganllawiau Ofcom. Mae ymateb Ofcom i adroddiadau SMCP C4C, a'n Hadroddiad SMCP diweddaraf yn: Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ar ei Bolisi Cynnwys Cyfryngau 2022.

## Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

2.25 Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol a oedd yn gosod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Rydym yn ystyried na fydd y cynigion ar gyfer trwydded Channel 4 wedi’i hadnewyddu yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid yw cylch gwaith C4C yn cynnwys rhaglenni Cymraeg (S4C yw’r gwasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg) ac nid yw trwydded Channel 4 yn cynnwys unrhyw amodau Cymraeg.

**Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi’n cytuno â’n hasesiad o’r effaith ar y Gymraeg?

Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

## Gair am y ddogfen hon

2.26 Mae gweddill y ddogfen hon yn cynnwys y canlynol:

- Mae **Adran 3** yn nodi’r cyd-destun ar gyfer adnewyddu trwydded Channel 4 a sut mae’r cyd-destun hwn wedi newid ers i ni adnewyddu’r drwydded ddiwethaf.
- Mae **Adran 4** yn nodi ein dadansoddiad o berfformiad ariannol diweddar C4C.
- Mae **Adran 5** yn nodi ein hamodau arfaethedig ar gyfer trwydded Channel 4 a’r hyd arfaethedig, gan gynnwys ein dadansoddiad o gynaliadwyedd ariannol C4C dros gyfnod arfaethedig y drwydded.

2.27 Ceir atodiadau ategol ar y meysydd canlynol:

- **Atodiad 1** – Methodoleg a dadansoddiad o’r Gwerth Ychwanegol Gros
- **Atodiad 2** – Ymateb i’r ymgynghoriad hwn
- **Atodiad 3** – Egwyddorion ymgynghori Ofcom
- **Atodiad 4** – Dalen cyflwyno’r ymgynghoriad
- **Atodiad 5** – Cwestiynau’r ymgynghoriad

# 3. Y cyd-destun yr ydym yn adnewyddu'r drwydded ynddo

## Mae'r dirwedd ddarlledu bresennol yn wahanol iawn i'r un yn 2014

### Cyflwyniad

3.1 Ers adnewyddu trwydded Channel 4 ddiwethaf yn 2014, mae newidiadau sylweddol wedi bod yn sector darlledu'r DU. Mae gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu wedi gostwng yn sylweddol, yn enwedig ymysg grwpiau oedran iau, gyda mwy a mwy o gynulleidfaoedd yn gwylio cynnwys ar-alw. Ar yr un pryd, mae'r dewis o raglenni a gwasanaethau sydd ar gael i wylwyr wedi cynyddu'n sylweddol, gyda dyfodiad chwaraewyr byd-eang sy'n cael eu hariannu'n dda fel Netflix ac Amazon Prime Video. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys Channel 4, gystadlu'n galetach nag erioed am gynulleidfaoedd, a rhoi rhagor o bwysau ar gynaliadwyedd system darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU.

3.2 Mewn ymateb i'r newidiadau hyn, y brif her sy'n wynebu pob darlledwr ar hyn o bryd yw sut mae rheoli'r newid o fodel darparu llinol yn bennaf i fodel digidol yn gyntaf, gan barhau i ddiwallu anghenion eu cynulleidfaoedd ar yr un pryd. Yn ein hadolygiad diweddaraf o'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fe wnaethom ddweud bod angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflymu eu cynlluniau digidol i gynnal cysylltiad cryf â'u cynulleidfaoedd presennol ac yn enwedig cynulleidfaoedd iau.[22] Fel rhan o'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau, mae gan C4C ddyletswydd i gymryd rhan yn y broses o greu cynnwys sy'n apelio at blant hŷn ac oedolion ifanc. Mae proffil hwn, ei gynulleidfa graidd, yn golygu mai C4C yw'r cyflymaf ymysg y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i flaenoriaethu dosbarthiad cynnwys ar wasanaethau digidol. Fel y nodwyd gennym yn ein Hadroddiad SMCP diweddaraf, mae hyn yn rhoi mwy fyth o bwys ar allu'r darlledwr i fwrw ymlaen â'i drawsnewid digidol.[23] Ymateb C4C i'r her hon yw ei strategaeth pum mlynedd Future4, a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2020, sy'n blaenoriaethu twf cynulleidfaoedd digidol a refeniw digidol cyn lefelau gwylio llinol.[24] Mae hyn yn sail i bopeth y mae C4C yn ei wneud ar hyn o bryd ac mae wedi datgan y bydd yn parhau i ganolbwyntio ar y trawsnewid digidol hwn drwy gydol cyfnod nesaf y drwydded.[25] Yn ein Hadroddiad SMCP diweddaraf, nodwyd ein bod am weld C4C yn mynegi'n glir sut y bydd yn esblygu strategaeth Future4 y tu hwnt i dargedau presennol 2025.[26]

3.3 Bydd y Bil Cyfryngau newydd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys C4C, yn eu trawsnewidiad digidol. Mae'r Bil yn darparu i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflawni eu cylchoedd gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar draws ystod ehangach o wasanaethau, gan gynnwys llwyfannau ar-lein trydydd parti.

---


[22] Ofcom, Argymhellion i Lywodraeth y DU ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, Gorffennaf 2021, t 3.
[23] Ofcom, Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ar ei Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2022, t. 5.
[24] Tudalen we: Channel 4 sets out path to digital future with new strategy: Future4.
[25] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[26] Ofcom, Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ar ei Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2022, t. 3.

Mae'n cynnig trefn newydd i sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus byw ac ar-alw ar gael ac yn cael amlygrwydd ar lwyfannau teledu clyfar mawr, gan ategu'r rheolau amlygrwydd presennol ar gyfer EPG (amserlen rhaglenni electronig). Mae'r Bil hefyd yn cynnig dileu'r cyfyngiad presennol ar C4C yn creu rhaglenni i'w darlledu ar Channel 4, a elwir yn gyfyngiad darlledwr-gyhoeddwr,[27] sydd â'r potensial i greu newid sylweddol i'w fodel gweithredu.

## Mae lefelau gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu yn gostwng ar gyfer pob cynulleidfa

3.4 Mae gwylio teledu llinol wedi gweld tuedd o ddirywiad tymor hir yn ystod y degawd diwethaf, gyda chynulleidfaoedd yn gwylio 30% yn llai o deledu sy'n cael ei ddarlledu ar gyfartaledd yn 2022, o'i gymharu â 2014. Ymysg cynulleidfaoedd iau, mae lefelau gwylio wedi gostwng yn gyflymach o lawer, gan ostwng 72% dros yr un cyfnod i'r rhai 16-24 oed. Mae'r duedd hon tuag i lawr i'w gweld erbyn hyn hyd yn oed ymysg grwpiau oedran hŷn, a oedd wedi cynnal amseroedd gwylio cymharol gyson ar gyfartaledd cyn y pandemig. Yn 2022, roedd gwylwyr 65-74 oed wedi gwylio tua 10% yn llai o deledu sy'n cael ei ddarlledu o un flwyddyn i'r llall, 6% yn is na'r lefelau gwylio cyn y pandemig yn 2019. Yn yr un modd, roedd lefelau gwylio teledu a ddarlledir gan bobl 75 oed a hŷn wedi gostwng 6% o'i gymharu â 2021, ac wedi gostwng 7% o'i gymharu â 2019. Ymysg cynulleidfaoedd iau, roedd lefelau gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu yn dal i ostwng yn gyflym, gan ostwng 21% o un flwyddyn i'r llall ymysg y rheini rhwng 4 a 34 oed.[28] Mae Enders Analysis yn rhagweld y bydd gwylio teledu llinol yn parhau â'i ddirywiad tymor hir ar draws pob grŵp oedran, gyda disgwyl i bobl 16-24 oed dreulio dim ond 6% o'u hamser yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw yn 2027, o'i gymharu â 12% heddiw.[29]

**Ffigur 1: Swm cyfartalog y munudau o wylio teledu a ddarlledir y dydd, yn ôl grŵp oedran: 2012-2022**





[27] Nodir y cyfyngiad yn adran 295 o'r Ddeddf a rhaid iddo fod yn un o amodau'r drwydded. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i C4C beidio â chymryd rhan, ac eithrio i'r graddau y bydd Ofcom yn caniatáu hynny, wrth wneud rhaglenni i'w darlledu ar Channel 4.
[28] Data 28 diwrnod wedi'i gyfuno Barb, setiau teledu yn unig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Cyfryngau'r Genedl 2023.
[29] Enders Analysis, Video viewing habits: Forecasting new lows for broadcasters, t. 2.

Ffynhonnell: Data 28 diwrnod cyfunol BARB, setiau teledu yn unig.

## Mae'r gostyngiad yn lefelau gwylio sianeli llinol C4C yn adlewyrchu lefelau gwylio sianeli llinol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill

3.5 Yn yr un modd â'r pedair prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus arall,[30] roedd lefelau gwylio prif sianel C4C, Channel 4, wedi gostwng yn gyson drwy gydol cyfnod y drwydded, wrth i gynulleidfaoedd barhau i symud eu lefelau gwylio i lwyfannau anllinol (gweler Ffigur 2 isod). Roedd cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog Channel 4 yn 33.7% yn 2022, i lawr o 46.6% ar ddechrau cyfnod y drwydded bresennol yn 2014. Dros yr un cyfnod, mae cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog teulu sianeli C4C (Channel 4 a'i sianeli portffolio) wedi gostwng o 63.6% i 45%. Yng nghyd-destun y gostyngiad yn y cynulleidfaoedd ar gyfer pob darlledwr, mae C4C wedi llwyddo i gadw cyfran weddol sefydlog o wylwyr teledu sy'n cael ei ddarlledu dros gyfnod y drwydded bresennol. Gostyngodd cyfran y gwylwyr ar holl sianeli C4C o 10.9% yn 2014 i 10.1% yn 2022, gan gadw ei chyfran ar gyfer y brif sianel o tua 5% ar draws yr un cyfnod.[31]

**Ffigur 2: Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (%) y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus a holl sianeli C4C, pob unigolyn: 2014-2022**




Ffynhonnell: Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig, unigolion 4+, yn cyrraedd meini prawf 15 munud a mwy yn olynol.

3.6 Er nad ydym yn disgwyl i arferion gwylio llinol ddiflannu dros gyfnod nesaf y drwydded, mae'n debygol o ddod yn llai pwysig, wrth i fwy o gynulleidfaoedd ddefnyddio llwyfannau

[30] Y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw BBC One, BBC Two, ITV, Channel 4 a Channel 5.


[31] Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig. Cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd, 15 munud a mwy yn olynol, ac eithrio +1 amrywiad.

ffrydio a chyfryngau cymdeithasol i gael gafael ar gynnwys. Mae'r newidiadau cyflym o un flwyddyn i'r llall mewn lefelau gwylio dros gyfnod y drwydded bresennol yn cefnogi barn C4C bod cynulleidfaoedd yn llai tebygol o fod yn defnyddio teledu llinol fel eu prif ddull o gael gafael ar gynnwys C4C i'r 2030au. Er bydd cyfanswm y munudau gwylio ffurf hir yn dal yn gyson yn ystod cyfnod nesaf y drwydded, mae C4C yn disgwyl y bydd lefelau gwylio llinol yn parhau i ostwng, a bydd y gostyngiad hwn yn cael ei liniaru gan lefelau gwylio uwch i fideo ar-alw ('VoD').[32] Yn benodol, mae C4C yn disgwyl i lefelau gwylio byw a PVR[33] barhau i ostwng, gan gyfrif am tua 30% o gyfanswm y gwylio erbyn 2034 (o'i gymharu â dros 50% heddiw),[34] ac mae'n disgwyl i wasanaethau fideo ar-alw gynyddu i gyfrif am tua 65% o'r amser gwylio.[35] Yn yr amgylchedd hwn, dywed y bydd gwylio gwasanaethau C4C yn datblygu yn yr un modd, gan dynnu sylw at yr angen am drawsnewid digidol parhaus yn ei fodel busnes.[36]

3.7 Mae parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd ieuengach yn hanfodol ar gyfer strategaeth hysbysebu C4C a'i gynaliadwyedd. Mae C4C yn wynebu'r un heriau â darlledwyr eraill o ran denu'r grŵp cynulleidfa anodd ei gyrraedd hwn, y mae ei lefelau gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu yn dal i ostwng. Fel y dangosir yn Ffigur 3 isod, mae'r gostyngiad yng nghyrhaeddiad prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaoedd iau yn llawer mwy amlwg nag ar gyfer pob cynulleidfa. Gostyngodd cyrhaeddiad teulu sianeli C4C i bobl 16-24 oed yn sylweddol, o 57.6% i 19.9% (37.7 pwynt canran) rhwng 2014 a 2022, tra bod cyrhaeddiad y brif sianel i'r gynulleidfa hon wedi gostwng 24.6 pwynt canran dros yr un cyfnod. Rhwng 2014 a 2022, gostyngodd cyfanswm cyfran gwylio sianeli C4C ar gyfer y gynulleidfa hon hefyd, o 18.2% i 13.7%. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod gan sianeli portffolio C4C, fel E4, gynulleidfaoedd sy'n tueddu i fod yn llawer iau, ac mae'r grŵp hwn yn troi oddi wrth deledu llinol at lwyfannau ar-lein ar y gyfradd gyflymaf.

[32] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[33] Recordydd fideo personol: dyfais ar gyfer recordio ac ailchwarae rhaglenni teledu byw a ffilmiau ac ati.
[34] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[35] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[36] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.


**Ffigur 3: Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (%) y prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a holl sianeli C4C, 16-24 oed: 2014-2022**




Ffynhonnell: Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig, Oedolion 16-24, meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol.

3.8 Serch hynny, mae Ffigur 4 isod yn dangos bod gan Channel 4 broffil cynulleidfa iau o hyd na'r prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill. Mae gan y sianel hefyd gyfran uwch o gynulleidfaoedd ABC1 na phroffil cyfartalog gwylwyr teledu. Mae gan sianel benodol C4C sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, E4, broffil cynulleidfa iau na'r cyfartaledd ar gyfer pob sianel deledu, er bod gan ITV2 broffil cynulleidfa iau fyth.

**Ffigur 4: Proffil cynulleidfa oed ac economaidd-gymdeithasol yr 20 sianel sy'n cael eu gwylio fwyaf: 2022**




Ffynhonnell: BARB, unigolion 4+.[37]

[37] Yn seiliedig ar yr 20 prif sianel sydd wedi'u rhestru yn ôl cyfran. Mae maint y swigen yn ymwneud â'r gyfran rhwng unigolion 4+. Proffil yn seiliedig ar oedran: % 35+, SEG: % ABC1. Mae echelau yn croesi ar broffil

3.9 Mae nifer y bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n gwylio'r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn gostwng dros gyfnod presennol y drwydded, ond mae wedi gostwng ar gyfradd uwch ar gyfer Channel 4 na'r cyfartaledd ar gyfer sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Gostyngodd cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog Channel 4 ymysg cynulleidfaoedd mewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig o 32.4% yn 2014 i 19.7% yn 2022. Ar yr un pryd, roedd lefelau gwylio'r cynulleidfaoedd hyn o sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng yn gyflymach, felly roedd cyfran gwylio C4C ymysg y cynulleidfaoedd hyn wedi cynyddu (o 3.9% i 4.6%), ac mae Channel 4 yn parhau i fod yn un o'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus mwyaf cynrychioladol, ar gyfer cyfanswm y boblogaeth gwylio teledu, o ran cyfran y gwylwyr sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig. O gyfanswm cynulleidfa Channel 4 yn 2022, roedd 8% yn cael ei gyfrif gan y cynulleidfaoedd hyn, a oedd yn golygu mai dyma'r un uchaf ar y cyd ag ITV1, ymysg y prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill. Gwelir tuedd debyg gyda chynulleidfaoedd anabl, gyda chyrhaeddiad Channel 4 wedi gostwng o 2016 i 2022 (o 52.1% i 43.5%) ond roedd cyfran y gwylwyr wedi aros yn sefydlog ar ychydig o dan 4%.[38]

## Wrth i deledu sy'n cael ei ddarlledu leihau, mae gwylwyr gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr yn cynyddu, ond mae'n wynebu cystadleuaeth ffyrnig

3.10 Mae gwylio gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr (BVoD) wedi cynyddu o 4% o gyfanswm gwylio darlledwyr[39] yn 2017 i 10% yn 2022 (er nad oedd y twf hwn yn ddigon i wrthbwyso'r gostyngiad mewn lefelau gwylio teledu byw, gan arwain at ostyngiad cyffredinol mewn gwylio cynnwys darlledwyr dros y cyfnod).[40] Mae cyfran y lefelau gwylio drwy ffrydio yn amrywio yn ôl darlledwr; yn 2022, roedd y BBC a C4C yn dal cyfran fwy o'u cynulleidfaoedd ar BvoD (14% a 12% yn y drefn honno) o'i gymharu â Channel 5, er enghraifft, sy'n dal yn llinol yn bennaf, gyda 96% o'i holl lefelau gwylio ar sianeli llinol darlledu a 4% i'w wasanaeth BvoD.[41]

3.11 Mae darlledwyr yn cystadlu fwyfwy â gwasanaethau ffrydio ar-lein yn unig am amser a sylw cynulleidfaoedd. Er enghraifft, cyrhaeddodd nifer y cartrefi sy'n tanysgrifio i o leiaf un gwasanaeth fideo ar-alw tanysgrifiadau ('SVoD'), fel Netflix, 68% ddiwedd 2022, er bod data mwy diweddar yn awgrymu bod y ffigur hwn yn lefelu i tua dwy ran o dair o aelwydydd yn 2023, o bosibl oherwydd y cynnydd mewn costau byw, a chynnydd mewn prisiau gwasanaeth SVoD sy'n rhoi straen ar gyllidebau aelwydydd.[42] Mae'r gwasanaethau hyn yn tueddu i fod yn fwyaf poblogaidd ymysg cynulleidfaoedd iau o'i gymharu â grwpiau oedran eraill; roedd pobl 16-34 oed wedi treulio 24% o'u hamser fideo gydag SVoD/fideo ar-alw sy'n cael ei gefnogi gan hysbysebion ('AVoD')[43] yn 2022, y gyfran uchaf o unrhyw grŵp oedran.[44]

---

SEG/oedran cyfartalog cyfanswm teledu. Mae hyn yn cynnwys yr amrywiadau HD pan fo'n berthnasol, ac amrywiadau +1.

[38] Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig. Meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol. Nid yw'n cynnwys sianeli +1 awr. Sylfaen proffil: unigolion 4+. Nid oedd data ar gael ar gyfer unigolion anabl yn 2014 a 2015.

[39] Cynnwys sydd naill ai'n lefealu gwylio teledu llinol neu'n BVoD.

[40] Amcangyfrifon Ofcom gan ddefnyddio Barb ac IPA TouchPoints ar gyfer 2022. Roedd y gymhariaeth ag 2017 gydag
Amcangyfrifon Ofcom wedi'u modelu o BARB, Comscore ac IPA TouchPoints.

[41] Barb, fel y'i gwelwyd.

[42] Arolwg Sefydliad BARB.

[43] Er enghraifft: Freevee Amazon, Pluto TV gan Paramount a Samsung TV Plus.

[44] Amcangyfrifon Ofcom gan Barb, IPA TouchPoints.

Wedi dweud hynny, mae gwylwyr hŷn yn defnyddio'r gwasanaethau hyn fwy a mwy; mae ymchwil Ofcom yn dangos bod cyfran y bobl dros 64 oed ar-lein sy'n defnyddio Disney+ wedi cynyddu o 7% ddechrau 2022 i 12% ddechrau 2023; dywedodd 43% eu bod yn defnyddio Netflix a dywedodd 37% eu bod yn defnyddio Amazon Prime Video (mae'r ddau ffigur yn sefydlog o'i gymharu â 2022).[45]

3.12 I gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cynigion rydym yn ymgynghori arnynt, fe wnaethom gomisiynu ymchwil ansoddol gan Jigsaw i ganfyddiadau cynulleidfaoedd o Channel 4 (y cyfeirir ato yn y ddogfen hon fel 'Ymchwil Jigsaw'). Mae'r gofynion allweddol yn cael eu trafod yn fanylach ym mharagraffau 3.28 i 3.37 isod. Roedd yr ymchwil hwn yn ategu'r canfyddiadau uchod, gyda phob cynulleidfa (gan gynnwys cynulleidfaoedd hŷn, h.y. y rheini rhwng canol eu tridegau a throsodd), yn dweud eu bod yn defnyddio mwy a mwy o gynnwys o wasanaethau SVoD. Roedd y defnydd a'r agweddau tuag at y gwasanaethau hyn yn amrywio yn ôl grŵp oedran. Roedd cynulleidfaoedd hŷn yn tueddu i adrodd gan ddefnyddio cymysgedd o ddarparwyr cynnwys, gyda theledu llinol a gwasanaethau BVoD yn bwynt cyswllt cyntaf i rai. [46] Fodd bynnag, roedd cynulleidfaoedd iau yn aml yn troi at wasanaethau SVoD yn gyntaf, gan eu gweld fel 'siop un stop' ar gyfer y rhan fwyaf o'u hanghenion gwylio. Roedd cynulleidfaoedd iau fel arfer yn ystyried gwasanaethau BVoD yn llai pwysig, ac â chynnwys llai perthnasol wedi'i anelu atynt. Roeddent yn tueddu i weld gwasanaethau BVoD fel rhai ar gyfer defnydd mwy achlysurol, i wylio rhaglen neu ddigwyddiad penodol (yn enwedig y rheini sydd â gwerth cymdeithasol, fel *Love Island* ITV, y gallent hefyd ddewis eu gwylio ar deledu llinol), neu i'w gwylio fel teulu neu fel rhan o aelwyd a rennir.[47]

> ***"Disney+ yw lle rydw i'n gwylio'r rhan fwyaf o fy nghyfres a TikTok. Os oes gen i funud rydd, dyna beth rwy'n treulio amser yn sgrolio drosto."*** [48]
>
> (Benyw, Belfast, 18-21, C2DE, defnyddiwr C4C ysgafn)


## Mae pwysigrwydd gwasanaeth ffrydio C4C wedi tyfu yn ystod cyfnod y drwydded bresennol

3.13 Mae gwylio Channel 4 Streaming wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 2014 yn unol â'r tueddiadau ehangach hyn yn y farchnad. Cyrhaeddodd cyfanswm niferoedd gwylio uchafbwynt o 1.5 biliwn yn 2021, cyn gostwng ychydig yn 2022 i 1.4 biliwn, a allai ddangos bod lefelau gwylio BvoD yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Fodd bynnag, yn ei Adroddiad Corfforaethol a Datganiad Ariannol 2022 ('Adroddiad Blynyddol'), dywedodd C4C, er bod lefelau gwylio wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall yn ystod hanner cyntaf 2022, bod twf ffrydio wedi dychwelyd yn ail hanner y flwyddyn; mae C4C wedi ymrwymo i sicrhau twf yn 2023.[49] Mae strategaeth Future4 C4C (gweler paragraff 3.2) yn blaenoriaethu twf cynulleidfaoedd digidol a refeniw digidol dros wylio llinol, a'i nod yw sicrhau 2 biliwn o wylwyr ffrydio erbyn 2025. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hon, mae C4C yn datblygu ei strategaeth cynnwys i fod yn ddigidol yn gyntaf, drwy flaenoriaethu cynnwys sy'n sbarduno

[45] Arolwg VoD Ofcom. Arolwg pwrpasol o oedolion a phobl ifanc ar-lein sy'n edrych ar ddefnyddio gwasanaethau fideo ar-alw a chanfyddiadau darparwr
fideo ar-alw. Cynhaliwyd y gwaith maes 22-28 Chwefror 2022 ar gyfer 2022 a 22-27 Chwefror 2023 ar gyfer 2023. Mae'r canfyddiadau ar gael yn Ofcom, Adroddiad Cyfryngau'r Genedl 2023, t. 9.
[46] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 13.
[47] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 12.
[48] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 11.
[49] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 12.

arferion gwylio fideo ar-alw a thrwy wella gwasanaeth Channel 4 Streaming gyda nodweddion fel personoleiddio ac awtochwarae.[50]

**Ffigur 5: Niferoedd gwylio Channel 4 Streaming (000oedd): 2014-2022**




Ffynhonnell: Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023, t. 12.

3.14 Cafodd Channel 4 Streaming ei wylio am 14 munud yr unigolyn, yr wythnos ar gyfartaledd yn 2022 (yn cynrychioli 12% o gyfanswm yr amser gwylio a dreuliwyd gyda chynnwys C4C). Fodd bynnag, ar gyfer cynulleidfaoedd iau (16-34 oed), roedd hyn yn cynyddu i 19 munud yr unigolyn yr wythnos, gan gynrychioli 29% o gyfanswm eu hamser gwylio ar gyfer cynnwys C4C.[51] Yn ei Adroddiad Blynyddol, dywedodd C4C mai ei wasanaeth ffrydio oedd y gwasanaeth BvoD â'r proffil ieuengaf yn y DU, gyda phobl ifanc 16-34 oed yn cyfrif am draean o'i sylfaen defnyddwyr, o'i gymharu â chyfartaledd BvoD darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill sef 21%.[52] Ers diwedd 2019 (cyn y pandemig), dywedodd C4C ei fod wedi cynyddu nifer y cofrestriadau ar-lein o chwe miliwn, i 28.2 miliwn o gyfrifon – gan gynnwys miliwn o bobl 16-34 oed newydd. Dywedodd fod gan 85% o bobl 16-34 oed yn y DU gyfrif Channel 4 Streaming.[53]

## Mae darlledwyr hefyd yn wynebu cystadleuaeth am wylwyr gan lwyfannau cyfryngau cymdeithasol

3.15 Mae llwyfannau fel YouTube, TikTok a Snapchat wedi cynyddu eu cyfran o amser gwylio yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.[54] Mae gan y llwyfannau hyn gynnig gwahanol iawn i raglenni ffurf hir traddodiadol darlledwyr, gyda fideos byrrach yn gyffredinol sy'n llai na deg munud o hyd. Roedd dros draean (38%) o oedolion ar-lein ym Mhrydain Fawr rhwng diwedd 2022 a dechrau 2023 yn gwylio fideos byr,[55] gyda lefel y gwylio'n gwyro'n drwm tuag at

[50] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 18.
[51] Data fel y'i gwelwyd Barb ar gyfer sianeli llinol a Channel 4 Streaming yn 2022.
[52] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 12.
[53] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 14.
[54] Enders Analysis, Video viewing habits: Forecasting new lows for broadcasters, t. 1.
[55] Mae defnyddio cymysgedd o ffynonellau data yn yr adran hon yn golygu bod rhai samplau arolwg yn dod o Brydain Fawr yn unig (Cymru, Lloegr a'r Alban) ac mae eraill ar gyfer y DU gyfan (y pedair gwlad, gan gynnwys Gogledd Iwerddon).

gynulleidfaoedd iau: roedd 68% o bobl ifanc 15-24 oed yn gwylio fideos byr bob dydd, o'i gymharu â 14% o unigolion 65 oed a hŷn.[56]

3.16 Roedd ymchwil Jigsaw yn awgrymu bod gan gynulleidfaoedd iau yn benodol ddisgwyliadau gwahanol o ddarparwyr cynnwys a chyfryngau, ar ôl tyfu i fyny â gwasanaethau ffrydio a chyfryngau cymdeithasol lle mae cynnwys yn cael ei deilwra, ei dargedu a'i argymell iddynt gan algorithmau. Dywedodd cynulleidfaoedd iau, dan 34 oed, eu bod yn gwylio llawer iawn o gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol neu YouTube.[57] Roedd y cynnwys a welwyd yn aml yn cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr (e.e. gan unigolion ar YouTube neu 'ddylanwadwyr'), ond weithiau roedd yn cynnwys clipiau o raglenni teledu, neu roedd yn gysylltiedig â rhaglenni teledu. Canfuwyd bod cyfryngau cymdeithasol yn dylanwadu ar ddewisiadau gwylio, gyda chynulleidfaoedd (yn enwedig gwylwyr iau ond nid yn unig y rhain), yn defnyddio argymhellion ar gyfryngau cymdeithasol i ddod o hyd i raglenni newydd i'w gwylio. Er enghraifft, gall cynulleidfaoedd wylio clipiau ar gyfryngau cymdeithasol cyn chwilio am y rhaglen lawn ar y llwyfan perthnasol, neu wylio rhaglen gyfan, neu swm sylweddol o un, gefn wrth gefn mewn clipiau ar wahân (ar TikTok yn aml).[58]

3.17 Canfu ymchwil Jigsaw fod cynulleidfaoedd hŷn hefyd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i weld cynnwys ar ffurf darlledu. Fodd bynnag, yn hytrach na'i ddefnyddio i ddisodli mathau eraill o wylio teledu, roedd y cynulleidfaoedd hyn yn tueddu i ddefnyddio cynnwys fideo cyfryngau cymdeithasol i leddfu diflastod, neu wrth wneud neu wylio rhywbeth arall.[59]

## Mae C4C yn trawsnewid i fod yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus digidol yn gyntaf

3.18 Strategaeth Future4 C4C, a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2020, yw'r prif sbardun y tu ôl i'r gwaith mae'n ei wneud mewn ymateb i'r newidiadau a nodir uchod.[60] Prif golofnau'r strategaeth yw blaenoriaethu twf digidol dros niferoedd llinol, arallgyfeirio ei ffrydiau refeniw i fod yn sail i'w gynaliadwyedd, a chanolbwyntio ar bartneriaethau strategol i gystadlu'n fwy effeithiol. Bwriad y strategaeth yw trawsnewid C4C yn ddarlledwr digidol yn gyntaf, er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd yn well (yn enwedig y rheini mewn grwpiau oedran iau) ar y llwyfannau maent fwyaf tebygol o fod yn eu defnyddio. Yn ein Hadroddiad SMCP diweddaraf, fe wnaethom ddweud bod cyflawni Future4 yn llwyddiannus yn rhan hanfodol o allu C4C i barhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd, yn enwedig gwylwyr iau, yn ogystal â helpu i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y darlledwr.[61]

3.19 Yn sail i'w golofnau strategol, mae gan Future4 brif dargedau ar gyfer 2025:

- cyrraedd ffigurau gwylio o 2 biliwn ar All4 (Channel 4 Streaming erbyn hyn);
- sicrhau 30% o gyfanswm y refeniw o hysbysebu digidol; a
- sicrhau 10% o gyfanswm y refeniw o ffynonellau nad ydynt yn hysbysebu.

[56] IPA TouchPoints 2023 SuperHub. Sylfaen: pob oedolyn ym Mhrydain Fawr 15+ sydd wedi bod ar-lein yn ystod y 12 mis diwethaf.
[57] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 11.
[58] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 12.
[59] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 14.
[60] Tudalen we: Channel 4 sets out path to digital future with new strategy: Future4.
[61] Ofcom, Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ar ei Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2022, t. 3.

3.20 Fel y dywedasom yn ein Hadroddiad SMCP diweddaraf, mae C4C yn gwneud cynnydd rhesymol yn erbyn ei darged craidd o 2 biliwn o bobl yn gwylio Channel 4 Streaming erbyn 2025, gan gofnodi ffigur gwylio o 1.4 biliwn yn 2022.[62] Ar ddiwedd 2022, roedd wedi cyrraedd 22% o gyfanswm y refeniw a oedd yn dod o hysbysebion digidol,[63] ac roedd wedi cyrraedd ei darged o gyflawni 10% o gyfanswm y refeniw o refeniw nad yw'n hysbysebu (gan gynnwys ffilm a phartneriaethau), gan bostio £121m, neu 11% o gyfanswm y refeniw.[64]

3.21 Mae C4C yn datblygu ei strategaeth cynnwys a dosbarthu mewn ymateb i Future4, fel y dangosir drwy uno ei brandiau llinol a digidol ym mis Mai 2023, ac ail-frandio ei wasanaeth BVoD fel 'Channel 4' ('All4' gynt).[65] Yn ei Adroddiad Blynyddol, nododd C4C y byddai'n blaenoriaethu cynnwys y mae'n meddwl fyddai'n hybu lefelau gwylio BVoD orau (fel setiau bocs 'premiwm ffeithiol' a rhaglenni realaeth sy'n denu pobl ifanc), ac mae wedi arbrofi gyda rhaglenni gwreiddiol ar-lein yn unig,[66] gan gynnwys ei ddeunydd materion cyfoes sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, *Untold*.

3.22 Gan gydnabod bod cynulleidfaoedd iau yn fwy tebygol o ymgysylltu â chynnwys ar gyfryngau cymdeithasol nag ar deledu sy'n cael ei ddarlledu, mae C4C hefyd wedi ehangu ei ddarpariaeth cyfryngau digidol i wasanaethu'r grwpiau cynulleidfa anoddach eu cyrraedd hyn yn well. Mae'r darlledwr wedi ffurfio partneriaethau strategol â llwyfannau fel Snapchat, YouTube a TikTok i ddatblygu ei frand ymysg gwylwyr iau nad ydynt efallai wedi ymgysylltu ag ef o'r blaen.[67] Er enghraifft, arweiniodd ei gytundeb â YouTube yn 2022 at gyhoeddi 1,000 awr o gynnwys ffurf hir ar y llwyfan.[68] Hefyd, lansiodd C4C sianel YouTube *Channel 4.0* sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc yn 2022, gyda chynnwys ffurf byr a chanolig wedi'i deilwra i ymddygiad gwylio pobl ifanc ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.[69]

## Bydd deddfwriaeth newydd arfaethedig yn cefnogi trawsnewid digidol C4C ac yn galluogi newidiadau i'w fodel gweithredu

3.23 Cyflwynodd y Llywodraeth y Bil Cyfryngau gerbron y Senedd ar 8 Tachwedd 2023. Mae'r Bil yn cynnig nifer o newidiadau i'r fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus a fydd yn cefnogi C4C yn ei drawsnewid digidol, drwy ganiatáu i gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus Channel 4 gael ei gyflawni ar draws ystod ehangach o wasanaethau, gan gynnwys llwyfannau ar-lein trydydd parti. Bydd hefyd yn caniatáu i rai rhwymedigaethau trwydded[70] gael eu cyflawni ar wasanaethau rhaglenni ar-alw sydd, neu sy'n rhan o, wasanaethau rhaglenni rhyngrwyd dynodedig[71] yn ogystal ag ar Channel 4.

3.24 Bydd y Bil hefyd yn galluogi newid sylweddol i fodel gweithredu C4C drwy ddileu'r 'cyfyngiad ar gyhoeddwyr-darlledwyr' yn adran 295 o'r Ddeddf, gan ganiatáu i C4C wneud rhaglenni i'w darlledu ar Channel 4. Sail resymegol y Llywodraeth dros wneud hynny yw rhoi *"mwy o allu i C4C gynhyrchu a gwerthu ei gynnwys ei hun, gan fanteisio ar ystod ehangach o opsiynau strategol posibl a allai ei roi ar sylfaen ariannol fwy sefydlog drwy gynyddu ei incwm*

[62] Ofcom, Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ar ei Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2022, t. 6.
[63] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corffforaeth Channel Four Television 2022, t. 11.
[64] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corffforaeth Channel Four Television 2022, t. 18.
[65] Yn yr adroddiad hwn rydym yn cyfeirio at wasanaeth BVoD C4C fel 'Channel 4 Streaming' i wahaniaethu oddi wrth y brif sianel, ond enw C4C ar gyfer y gwasanaeth yw 'Channel 4'.
[66] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corffforaeth Channel Four Television 2022, t. 23.
[67] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfffforaeth Channel Four Television 2022, t. 37.
[68] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corffforaeth Channel Four Television 2022, t. 19.
[69] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corffforaeth Channel Four Television 2022, t. 35.
[70] Y cwotâu cynhyrchu annibynnol, gwreiddiol a rhanbarthol.
[71] Diffinnir gwasanaeth rhaglenni ar y rhyngrwyd yng nghymal 28 y Bil (adran arfaethedig 362AA(10)).

*masnachol"*.[72] Ochr yn ochr â hyn, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi cyfres o fesurau y mae'n credu a fydd yn "sicrhau bod rôl bwysig Channel 4 o ran sbarduno buddsoddiad yn y sector 'cynhyrchu annibynnol' yn cael ei diogelu, os byddant yn penderfynu datblygu eu gallu cynhyrchu eu hunain". [73]

3.25 Rydym yn adnewyddu trwydded Channel 4 o dan y fframwaith statudol presennol. Pan fydd y Bil yn cael ei basio, bydd yn rhaid i ni ddiwygio'r holl drwyddedau ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus (gan gynnwys rhai ar wasanaethau Channel 3 a Channel 5) er mwyn rhoi'r fframwaith newydd ar waith.

# Canfyddiadau cynulleidfaoedd o wasanaethau C4C

3.26 Comisiynwyd ymchwil Jigsaw i wella ein dealltwriaeth o ganfyddiadau a defnydd cynulleidfaoedd o wasanaethau C4C. Roedd hefyd yn fwriad iddo archwilio canfyddiad defnyddwyr a'r rheini nad ydynt yn ddefnyddwyr ymysg yr holl grwpiau oedran, gan gynnwys y gynulleidfa graidd rhwng 16 a 34 oed a phlant (rhwng 10 a 15 oed), o bwrpas a rôl C4C mewn cymdeithas, nawr ac yn y dyfodol.[74]

3.27 Lle bo'n berthnasol, rydym wedi llunio cymariaethau yn y crynodeb isod rhwng ymchwil Jigsaw a'r ymchwil ansoddol blaenorol i Channel 4 a gomisiynwyd gan Ofcom yn 2017, a oedd yn ystyried i ba raddau roedd cynulleidfaoedd yn y DU yn teimlo bod C4C yn cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynnwys cyfryngau, yn ogystal â gofynion y sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig. Rydym hefyd wedi edrych ar ganfyddiadau ymchwil Jigsaw mewn cyd-destun ehangach, gan ddefnyddio ymchwil meintiol Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom. [75]

## Crynodeb o ganfyddiadau'r ymchwil

3.28 **Roedd y defnydd a'r canfyddiadau o Channel 4 yn amrywio'n fawr.** Roedd defnyddwyr trymach yn ymwybodol o arlwy cynnwys llawn y sianel ac yn ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion gwylio lluosog (e.e. 'rhoi gwybodaeth i mi', 'fy nifyrru', 'f'addysgu' ac ati), tra bod defnyddwyr ysgafnach yn tueddu i ddefnyddio'r sianel i ddiwallu anghenion penodol.[76] Roedd yn well gan rai gwylwyr gynnwys 'pwyso ymlaen'[77] fel rhaglenni dogfen a chomedïau, tra oedd eraill yn ffafrio cynnwys 'pwyso'n ôl'[78] i ymlacio, fel comedïau o'r Unol Daleithiau a sioeau gemau. Roedd y dewisiadau hyn o ran cynnwys yn dylanwadu ar sut roedd gwylwyr yn gweld y sianel a'i chynnwys. Roedd cynnwys 'pwyso ymlaen' yn cael ei ystyried yn fwy cofiadwy (gyda defnyddwyr trymach yn fwy tebygol o wylio ac ymgysylltu'n weithredol ag

[72] Tudalen we: Channel 4 to remain publicly owned with reforms to boost its sustainability and commercial freedom.
[73] Tudalen we: Broadcasting update – Statement made on 8 November 2023.
[74] Gweler yr adroddiad llawn am ddadansoddiad manwl o'r fethodoleg a'r sampl.
[75] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus. I gael manylion ynglŷn â methodoleg a gwaith maes, gweler yr adroddiad technegol.
[76] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 3.
[77] Yn yr adroddiad hwn, mae Jigsaw yn cyfeirio at gynnwys 'pwyso ymlaen' i ddisgrifio cynnwys sy'n cael ei wylio mewn ffordd fwy pwrpasol a phenodol e.e. gwylio pennod o gyfres newydd. Mae'n gofyn am fwy o ganolbwyntio, ac o'r herwydd, roedd cynnwys 'pwyso ymlaen' yn aml yn fwy cofiadwy i gynulleidfaoedd, felly roedd mwy o bobl yn tueddu i gofio rhaglenni y byddid yn eu gwylio yn y ffordd hon.
[78] Yn yr adroddiad hwn, mae Jigsaw yn cyfeirio at gynnwys 'pwyso'n ôl' fel cynnwys sy'n gofyn am lai o ymdrech, y gellir ei wylio wrth wneud pethau eraill, pan fyddwch yn rhy flinedig i ganolbwyntio'n llwyr, neu yn ystod profiadau gwylio ar y cyd lle mae'r sgwrs am y cynnwys yn rhan o'r mwynhad.

ef), tra bod cynnwys 'pwyso'n ôl' yn cael ei gysylltu â dadflino a chynnig dihangfa, ac wedyn roedd cynulleidfaoedd yn llai abl i gofio'r cysylltiad â chynnwys C4C.[79]

3.29 **Mae'n ymddangos bod safle brand Channel 4 wedi gwanhau ers ymchwil ansoddol ddiwethaf Ofcom yn 2017.** Mae ehangder y cynnwys sy'n cael ei gynnig, a'r ddarpariaeth gyferbyniol o gynnwys 'pwyso ymlaen' a 'phwyso'n ôl', wedi peri i lawer o gyfranogwyr deimlo bod Channel 4 yn cynnig 'rhywbeth i bawb', ac roedd rhai'n teimlo bod hynny'n gryfder. Fodd bynnag, gwelwyd bod perygl hefyd o'i gwneud yn anoddach cysylltu math neu genre penodol o gynnwys â Channel 4. Teimlid bod hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun yr SVoDs a'r cyfryngau cymdeithasol, a oedd yn gallu cynnig cynnwys wedi'i dargedu'n well, a'r doreth o sianeli teledu sy'n canolbwyntio ar fathau neu genres penodol o gynnwys.[80]

3.30 **Mae brand Channel 4 yn apelio llai at gynulleidfaoedd iau.** Ni welwyd bod C4C yn nodwedd reolaidd o repertoire gwylio pobl iau, ac o ganlyniad mae pobl iau yn tueddu i gofio llai o gynnwys penodol C4C yn ddigymell. Yn aml nid oedd ganddynt fawr o reswm i chwilio amdano, a hynny'n atgyfnerthu eu lefelau isel o ymgysylltu â'r brand. Fodd bynnag, o'u cymell â theitlau rhaglenni penodol, roedd y cyfranogwyr iau hyn yn tueddu i fod yn ymwybodol o rai comedïau, rhaglenni adloniant ysgafn a dramâu sy'n rhedeg ers amser maith (fel *Gogglebox, TheInterneters* a *Hollyoaks*), er bod y cynnwys hwn yn aml yn cael ei gam-briodoli i SVoDs.[81] Mae'r gostyngiad mewn gwylio ymysg y cynulleidfaoedd ieuengaf yn cynrychioli newid ers i'r ymchwil gael ei gynnal yn flaenorol yn 2017, pan oedd gwylwyr iau (16-34 oed) yn tueddu i roi sgoriau mwy ffafriol i wasanaethau C4C.[82]

3.31 **I lawer, nid oedd y gynulleidfa darged a fwriedir ar gyfer Channel 4 yn gwbl glir.** At ei gilydd, roedd y cyfranogwyr fel arfer yn credu bod y gynulleidfa darged yn 'iau' ond nid yn 'ifanc'. Roedd cynulleidfaoedd dros 34 oed yn tueddu i'w gweld fel rhywbeth 'i bawb' ond gyda gogwydd ychydig yn iau. Roedd cydnabyddiaeth bod ystod eang o gynnwys ar sianeli a llwyfannau C4C, o sioeau sy'n canolbwyntio mwy ar bobl ifanc i hen ffefrynnau (fel *Location Location Location, Come Dine With Me* a *A Place in the Sun*) y credid eu bod wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd hŷn. [83] Ar y llaw arall, roedd rhai cynulleidfaoedd, yn enwedig rhai iau, yn cael trafferth pennu cynulleidfa darged ac yn amau nad oedd wedi'i hanelu atyn nhw.[84] Nid oedd hyn o reidrwydd oherwydd y cynnwys neu'r brand, ond oherwydd bod gwasanaethau cyfryngau eraill (fel gwasanaethau SVoD) yn teimlo'n fwy perthnasol i'w cenhedlaeth. Roedd y rheini a oedd yn eu 20au cynnar, neu'n iau, yn gweld Channel 4 fel rhywbeth ar gyfer pobl ychydig yn hŷn, wedi'i sbarduno gan ffactorau fel ei chysylltiad â theledu sy'n cael ei ddarlledu, a'r ffaith ei bod yn aml yn cael ei gwylio gan aelodau hŷn o'r teulu.[85] Canfu ein Traciwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fod bron i dri gwyliwr o bob pump (58%) yn ystod y chwe mis diwethaf yn teimlo bod sianeli teledu Channel 4 yn darparu "*amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon*" ac "*yn apelio at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd gwahanol*" yn dda.[86]

---

[79] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 18.
[80] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 23.
[81] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 5.
[82] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 17.
[83] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 22.
[84] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t.22
[85] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 22.
[86] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2022.

> ***"Byddwn i'n dweud bod ganddi fwy o gynulleidfa hŷn. Rwy'n meddwl y byddai mwy o'r cenedlaethau iau yn hoffi Netflix, Disney+ a Prime. Ar y llaw arall, byddai fy modrybedd a'm nain ac ati yn gwylio teledu arferol a phethau fel hynny'n amlach dim ond am ei fod yno ac mae'n hawdd."***[87]
>
> (Benyw, Newry, 17-18, ABC1, defnyddiwr C4C ysgafn)

3.32 **Fodd bynnag, mae gan gynulleidfaoedd hŷn ddealltwriaeth llawer cliriach o'r hyn mae Channel 4 yn ei gynrychioli**, yn enwedig y rheini sydd wedi tyfu i fyny yn gwylio ei gynnwys ac sy'n ei chofio fel sianel 'herio' y gorffennol. I'r cynulleidfaoedd hyn, roedd Channel 4 yn cynnig dewis amgen gwirioneddol ac angenrheidiol i'r brandiau darlledu sefydledig wrth iddynt ddod yn oedolion. Yn gyffredinol, roedd llawer mwy o ymwybyddiaeth, a defnydd o, gynnwys C4C ymysg y cynulleidfaoedd hyn, gyda defnyddwyr trymach yn tueddu i ddefnyddio cymysgedd o lwyfannau a sianeli i wylio'r math hwn o gynnwys.[88]

3.33 **Roedd gwasanaeth ffrydio Channel 4 yn cael ei ystyried yn anodd ei ddefnyddio gyda llawer o fân broblemau.** Roedd y cyfranogwyr yn croesawu'r amrywiaeth eang o gynnwys am ddim sydd ar gael ar y gwasanaeth; roedd hyn yn cael ei werthfawrogi'n arbennig oherwydd yr argyfwng costau byw presennol, wrth i lawer o wylwyr ddod yn fwy sensitif i nifer y gwasanaethau tanysgrifio y maen nhw'n talu amdanynt. Fodd bynnag, nodwyd bod y llwyfan yn anoddach ei ddefnyddio gyda mwy o fân broblemau na rhai llwyfannau eraill. [89] Teimlid weithiau bod hyn yn rhwystr, yn enwedig i gynulleidfaoedd iau, lle roedd perygl o greu delwedd hen ffasiwn.[90] Mae hyn yn wahanol i ymchwil 2017, pan deimlid bod y gwasanaeth yn hawdd ei ddefnyddio, yn fodern ac yn drefnus, ac roedd cynulleidfaoedd iau yn fwy tebygol na chynulleidfaoedd hŷn o ddefnyddio llwyfan ar-alw C4C (a elwid yn All4 ar y pryd).[91] Yn ymchwil Jigsaw, dywedodd rhai cynulleidfaoedd hefyd eu bod yn teimlo bod faint o hysbysebu sydd ar Channel 4, a hysbysebion ailadroddus, yn ddiflas.[92] Mae'n ymddangos bod SVoDs wedi gosod y disgwyliad i wylio ar-alw fod yn rhydd o hysbysebion, ac roedd yn ymddangos mai gwylwyr iau (a oedd fwyaf tebygol o ddefnyddio'r gwasanaethau hyn ac nad oeddent wedi tyfu i fyny â hysbysebion teledu llinol) oedd yn lleiaf goddefgar o hysbysebion sy'n amharu ar eu gwylio ar BVoD. Serch hynny, canfu ein hymchwil feintiol fod 75% o'r gwylwyr yn ystod y chwe mis diwethaf wedi dweud eu bod yn fodlon ag All4 neu All4+ (fel y'i gelwid ar y pryd); gyda bodlonrwydd ar ei uchaf ymysg pobl ifanc 16-34 oed (79%) ac ar ei isaf ymysg y rheini sy'n 55 oed a hŷn (68%).[93]

3.34 **Roedd ymwybyddiaeth a defnydd isel o sianeli a chynnwys YouTube Channel 4 ymysg cyfranogwyr.** Nid oedd hyn yn unigryw i Channel 4; nid yw pobl at ei gilydd yn gyfarwydd ag YouTube fel lle i wylio unrhyw sianel deledu a ddarlledir.[94] Gallai lleiafrif o gynulleidfaoedd oedolion iau fel arfer (h.y. y rheini yn eu 30au canol ac iau) gofio gwylio clipiau o gynnwys C4C ar YouTube (naill ai raglenni hyd llawn neu gynnwys sydd wedi'i gomisiynu'n benodol ar gyfer y llwyfan). Roedd y gwylio hwn yn tueddu i ddigwydd pan oedd y cynnwys yn ymddangos yn eu ffrydiau, neu os oeddent yn dilyn teitlau rhaglenni penodol, yn hytrach

[87] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 18.
[88] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 24.
[89] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 19.
[90] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 4.
[91] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 6.
[92] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 4.
[93] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2022.
[94] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 20-21.

na'u bod o reidrwydd yn ymwybodol o sianel Adloniant Channel 4, ac nid oedd y cynnwys bob amser yn cael ei briodoli i C4C.[95] Roedd cynulleidfaoedd iau yn tueddu i ffafrio gwylio cynnwys mwy organig a chynnwys 'o'r gwaelod i fyny' a oedd yn cael ei greu gan grewyr cynnwys yn hytrach na chynnwys a oedd fel petai'n cael ei sgriptio neu ei gynhyrchu'n broffesiynol. Wedi dweud hynny, roedd YouTube a chlipiau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu gweld fel ffordd dda o wylio neu ail-wylio clipiau o hoff raglenni, yn enwedig y rhai y gwelir eu bod yn darparu deunydd gwylio am ychydig o ymdrech a buddsoddiad, fel *Educating Yorkshire* neu *24 Hours in A&E*.[96]

***"Mae pobl yn mynd i YouTube oherwydd ei fod yn fwy amrwd, a llai o ôl 'cynhyrchu' arno [...] mae'n dod gan berson yn benodol, felly os ydych chi'n gwylio sioe ar YouTube, mae'n rhywbeth cwbl wahanol, rwy'n meddwl."***[97]

(Gwryw, Glasgow, 22-34, C2DE, defnyddiwr C4C ysgafn)

3.35 **Ar ei gorau, cydnabuwyd bod Channel 4 yn wahanol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill.** Er bod gwylwyr weithiau'n ei chael hi'n anodd mynegi pam roedden nhw'n gweld y darlledwr fel un unigryw o fewn tirwedd ehangach y cyfryngau, roedd ymdeimlad cliriach bod Channel 4 yn wahanol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Roedd y rheini a oedd yn fwy cyfarwydd â chynnwys Channel 4 yn gallu mynegi bod Channel 4, ar ei gorau, yn cynnig gwrthbwynt gwirioneddol i dôn 'grandiach' a 'mwy sefydliadol' y BBC, yn ogystal ag i gynnwys mwy prif ffrwd 'i bawb' ITV. Roedd cydnabyddiaeth bod Channel 4 yn draddodiadol wedi cael ei hystyried yn fwy mentrus, blaengar ac arloesol yn ei chynnwys, ac yn fwy parod i wthio ffiniau mewn ffordd na allai ITV a'r BBC o bosibl ei gwneud. Teimlid hefyd bod Channel 4 yn wirioneddol fwy amrywiol yn ei hallbwn na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, a hynny'n cynnwys cynrychioli cynulleidfaoedd o wahanol grwpiau hil, hunaniaeth o ran rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol, yn ogystal â hyrwyddo amrywiaeth drwy gynrychioli anabledd.[98] Mae ein hymchwil feintiol yn dangos bod ychydig dros hanner (54%) o wylwyr sianeli teledu Channel 4 yn ystod y chwe mis diwethaf wedi dweud bod y rhain yn darparu "*rhaglenni sy'n fy helpu i weld pethau o gefndir neu safbwynt gwahanol*" a "*rhaglenni sy'n wahanol yn eu hagwedd i ddarparwyr eraill*" hefyd.[99] Wrth edrych ar y ddau ddatganiad hyn, ymysg gwylwyr sianeli teledu BBC, ITV a Channel 5, mae sianeli teledu Channel 4 yn cymharu'n ffafriol.

***"Wrth roi pethau allan yno fel agweddau negyddol y teulu brenhinol, maen nhw'n ymdrin â rhywedd, gorbryder a phethau felly ac maen nhw'n siarad am bynciau nad ydyn nhw'n hawdd siarad amdanynt ac yn gwneud hynny'n fwy na'r BBC ac ITV. Maen nhw'n siarad am bethau y mae angen siarad amdanyn nhw, ond nad yw eraill yn gwneud hynny."***[100]

(Benyw, Belfast, 18-21, C2DE, defnyddiwr C4C ysgafn)

3.36 **Roedd rhai cynulleidfaoedd yn teimlo bod Channel 4 yn dod yn fwy prif ffrwd ac yn llai miniog.** Roedd beirniadaeth bod gormod o raglenni yn cael eu hailddarlledu a gorddibyniaeth ar raglenni sydd wedi bod yn rhedeg ers tro.[101] Ymysg defnyddwyr ychydig

---

[95] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 20.
[96] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 21.
[97] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 21.
[98] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 26.
[99] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2022.
[100] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 36.
[101] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 27.

yn hŷn a defnyddwyr trymach a oedd yn cofio cynnwys 'miniog' y gorffennol, roedd amheuaeth bod Channel 4 bellach yn cynhyrchu mwy o gynnwys poblogaidd ei naws (fel sioeau realiti) a llai o sioeau newydd sy'n cynnig sylwebaeth gymdeithasol a chynnwys "cyffrous a heriol".[102] Mae hyn yn wahanol i ymchwil 2017, lle roedd gwylwyr craidd Channel 4 yn ei chydnabod am ei syniadau newydd, ac roedd ei delwedd unigryw yn canolbwyntio ar y ffaith ei bod yn cael ei hystyried yn addysgiadol, yn heriol ac yn ddadleuol, ac yn arloeswr a oedd yn cymryd risg ymysg darlledwyr.[103] Wedi dweud hynny, cydnabuwyd yn ymchwil Jigsaw y gellid priodoli'r gostyngiad canfyddedig ym miniogrwydd cynnwys C4C i'r her o sefyll allan yn nhirwedd gynyddol gystadleuol y cyfryngau, lle mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gystadlu am sylw gwylwyr gyda'r amrywiaeth eang o gynnwys newydd a blaengar sydd ar gael ar SVoDs.[104]

3.37 **Er nad oedd cynulleidfaoedd yn ymwybodol yn gyffredinol o gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus Channel 4, roeddent yn cefnogi ei lle yn y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus pan gafodd hyn ei egluro.** Er y teimlwyd bod ei rôl unigryw fel darlledwr arloesol sy'n gwthio ffiniau yn llai perthnasol mewn byd lle gellid dadlau bod SVoDs a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn cyflawni'r rôl hon, roedd cynulleidfaoedd yn credu y gallai C4C ddarparu cynnwys sy'n adlewyrchu'r DU, mewn ffordd na allai llwyfannau byd-eang ei chyflawni.[105] Mae ein hymchwil feintiol yn cefnogi'r canfyddiadau hyn, gyda thri gwyliwr o bob pump (60%) yn ystod y chwe mis diwethaf yn dweud bod sianeli teledu Channel 4 yn darparu "*rhaglenni sy'n cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd*" a "*rhaglenni sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd y DU*" yn dda.[106] O ran blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, roedd cynulleidfaoedd yn awyddus i weld cydbwysedd rhwng adloniant ysgafn (sy'n adlewyrchu bywydau pobl yn y DU) a chynnwys 'arwr'[107] mwy miniog neu arloesol (yn enwedig comedi a drama o'r DU), gyda Channel 4 a gwasanaethau eraill C4C yn cynhyrchu cynnwys 'Prydeinig' sy'n gallu adlewyrchu eu bywydau mewn ffordd na all SVoDs ei gwneud.[108]

> ***"[Pe na bai C4C yn bodoli mwyach] byddem yn colli cynrychiolaeth leol pethau fel Derry Girls, a'r amrywiaeth cynnwys."[109]***
>
> (Benyw, Newry, 17-18, ABC1, defnyddiwr C4C ysgafn)

[102] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 28.
[103] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 10.
[104] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 28.
[105] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t.35
[106] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2022.
[107] Yn yr adroddiad hwn, diffinnir cynnwys 'arwr' yn gyffredinol fel sioeau sy'n llwyddo ar lefel uchel i dorri drwodd, denu gwylwyr a sefydlu perthnasedd diwylliannol (dros dro weithiau). Mae enghreifftiau'n cynnwys *I'm a Celebrity, Get Me Out of Here*, *The Inbetweeners*, *Squid Game*, *Line of Duty*, etc.
[108] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 6.
[109] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 37.

# 4. Perfformiad ariannol diweddar

## Mae perfformiad ariannol C4C wedi aros yn gadarn dros gyfnod y drwydded bresennol

4.1 Mae model gweithredu presennol C4C yn golygu mai hysbysebion sy'n bennaf gyfrifol am ei refeniw. Er gwaethaf yr heriau sydd wedi nodweddu cyfnod presennol y drwydded (gan gynnwys pandemig Covid-19, ansicrwydd ynghylch perchnogaeth Channel 4 a gwanhau'r farchnad hysbysebion teledu yn ddiweddar ar ôl pandemig Covid), mae C4C wedi parhau i berfformio'n llwyddiannus, ac wedi cael adferiad ariannol cryf o Covid-19 yn 2021, gan gynhyrchu refeniw cyffredinol o £1.16bn.


4.2 Mae newidiadau yn arferion gwylio cynulleidfaoedd yn cael eu hadlewyrchu yn y proffil refeniw hysbysebu, gyda refeniw hysbysebu llinol yn gyffredinol wedi bod yn dirywio'n araf dros gyfnod y drwydded. Er ei fod yn dal yn gymharol fach o'i gymharu â hysbysebu ar gyfer teledu llinol, mae refeniw BVoD wedi parhau i dyfu wrth i hysbysebwyr ddefnyddio BVoD fwyfwy fel sianel farchnata ar gyfer eu hymgyrchoedd, i ymestyn eu cyrhaeddiad y tu hwnt i deledu traddodiadol. Mae hysbysebion BVoD yn cael eu defnyddio i dargedu grwpiau penodol o gynulleidfaoedd, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau anodd eu cyrraedd (16-34 oed a oedd i gyfrif am 24% o'r gwylio BVoD yn 2022 a dim ond 9% o'r gwylio teledu llinol) a'r rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch (cynulleidfaoedd ABC1 a oedd i gyfrif am 62% o'r gwylio BVoD o'i gymharu â 51% o deledu llinol).[110]

4.3 **Mae'r farchnad hysbysebu yn heriol i bob darlledwr ar hyn o bryd.** Yn dilyn ei hadferiad yn 2021, gwelodd y farchnad hysbysebion teledu drwyddi draw (gan gynnwys BVoD) ostyngiad yn 2022, gyda gwariant yn gostwng 1.4% i £5.38bn, gan adlewyrchu gwariant is gan hysbysebwyr yn wyneb y dirywiad economaidd a gâi ei ragweld a dychwelyd i'r duedd cyn y pandemig o ostyngiad yn nifer y gwylwyr.[111] O fewn hynny, roedd gostyngiad o 4% mewn refeniw hysbysebion teledu llinol i £4.54bn,[112] tra oedd y refeniw o wasanaethau BVoD wedi cynyddu 15.4% i £845m, gan barhau â thuedd o dwf cryf yn ystod y degawd diwethaf.[113]

4.4 Mae rhagolygon AA/WARC yn awgrymu parhad dirywiad 2022 yn 2023. Roedd disgwyl i wariant hysbysebion teledu ostwng 1.9% yn 2023, ac mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu y gallai'r gostyngiad fod mor uchel â 5.8%.[114] Ni fydd twf BVoD yn gwrthbwyso gostyngiadau mewn gwariant teledu llinol. Rhagwelir gwelliant o 0.4% mewn hysbysebion teledu cyffredinol ar gyfer 2024, er y bydd hyn yn dal yn is na'r lefel a gyflawnwyd yn 2021.

[110] Barb.
[111] AA/WARC Advertising Expenditure Report. Mae'r data wedi'u cyflwyno mewn termau nominal.
[112] AA/WARC Advertising Expenditure Report.
[113] AA/WARC Advertising Expenditure Report. Mae'r data a gyflwynir mewn termau nominal yn cynnwys gwasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr nad ydynt yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.
[114] Tudalen we: UK Ad Market Avoids Contraction in Q2 2023 through Growth in Online Channels

**Ffigur 6: Gwariant hysbysebion teledu a fideo ar-lein yn y DU: 2014-2022**




Ffynhonnell: AA/WARC Expenditure Report; IAB UK PwC Digital Adspend Study 2022.[115]

4.5 Mae newid mewn arferion gwylio hefyd wedi sbarduno twf mewn marchnadoedd hysbysebu eraill. Mae cynulleidfaoedd iau yn fwy tebygol o dreulio eu hamser gwylio ar lwyfannau fideos cymdeithasol nag ar wylio BVoD a theledu llinol, gan arwain at dwf mewn hysbysebion fideo ar-lein nad ydynt yn rhai BVoD. Fel y dangosir yn Ffigur 6 uchod, cynyddodd cyfanswm y gwariant hysbysebion fideo ar-lein (mewnffrwd ac allffrwd), ac eithrio'r hyn a wariwyd ar BVoD, 10.8% yn 2022 i gyrraedd £5.25bn, sy'n debyg i'r swm a wariwyd ar deledu.[116]

## Perfformiad C4C

### Mae C4C wedi cynyddu ei refeniw drwy sianeli hysbysebu digidol

4.6 Mae C4C wedi esblygu ei strategaeth hysbysebu i adlewyrchu newidiadau yn arferion cynulleidfaoedd ac mewn technoleg.[117] Mae hyn wedi trosi i dwf refeniw, sy'n cael ei


[115] Mae'r ffigurau wedi cael eu cyflwyno mewn termau nominal. Mae 'Mewnffrwd' yn cyfeirio at gyfryngau wedi'u ffrydio sy'n gysylltiedig â chynnwys fideo. Gall hyn gynnwys fformatau cyn rowlio, wrth rowlio ac ôl rowlio. Dim ond pan fydd darn o gynnwys fideo ar-lein yn cael ei wylio y bydd hysbysebion fideo ar-lein yn cael eu lansio. Mae'n benodol i'r cynnwys y mae wedi'i atodi iddo ac nid y tudalennau gwe statig y gellir lansio'r cynnwys ohonynt. Mae 'Allffrwd' yn cyfeirio at hysbysebion fideo annibynnol sydd y tu allan i ffrwd o gynnwys fideo, ac yn cynnwys hysbysebion sy'n ymddangos ar ffrydiau cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â hysbysebion fideo annibynnol ar wefannau newyddion. Cafodd diffiniad IAB y DU o fewnffrwd ei ddiwygio yn 2022 oherwydd esblygiad fformatau hysbysebu fideos cymdeithasol. Pan fydd hysbysebion yn cael eu mewnosod rhwng cynnwys ffurf-fer y gellir sgrolio drwyddo, fel riliau, ac yn ddibynnol ar y cynnwys fideo blaenorol neu ddilynol, cânt eu cynnwys yn y categori 'mewnffrwd'.
[116] AA/WARC Advertising Expenditure Report. Mae'r data wedi'u cyflwyno mewn termau nominal.
[117] Mae hyn yn cynnwys ffurfio partneriaethau i'w gwneud yn fan mwy deniadol i hysbysebwyr; yn 2023 cyhoeddodd C4C mai ef fyddai'r darlledwr cyntaf yn y DU i gynnig y dewis i frandiau o ddefnyddio llwyfan prynu hysbysebion awtomataidd Microsoft Advertising, Xandr, i awtomeiddio'n llwyr y gwaith o ddarparu ymgyrchoedd digidol - gweler Tudalen we: Channel 4 to expand its digital ad-buying suite with Xandr. Yn 2022, ffurfiodd C4C gytundeb gyda YouTube i'w alluogi i werthu hysbysebion o amgylch ei sioeau, gan ganiatáu iddo

sbarduno gan refeniw hysbysebu digidol cynyddol o 21% y flwyddyn, ar gyfartaledd, rhwng 2015 a 2022, a oedd yn uwch na'r duedd o ran gwylio, sef tua +15% y flwyddyn dros yr un cyfnod. Er bod refeniw hysbysebu llinol C4C, ar gyfartaledd, wedi gostwng 2% y flwyddyn rhwng 2015 a 2022,[118] mae hyn wedi bod yn arafach na'r gostyngiad yn y gyfradd wylio, sef rhwng 3-4% y flwyddyn.

4.7 Roedd refeniw diweddaraf C4C (2022) wedi tanberfformio yn erbyn y farchnad deledu, gyda refeniw hysbysebu llinol yn gostwng 8% o un flwyddyn i'r llall i £766m; mae hyn yn waeth na'r farchnad deledu gyffredinol, oedd wedi gostwng 4%. Roedd hysbysebion digidol wedi cynhyrchu refeniw o £255m, i fyny 14%, ond roedd yn llusgo y tu ôl i'r farchnad (+15% i'r holl BVoD) am y flwyddyn flaenorol.[119]

4.8 Fel rhan o strategaeth Future4 i amrywio ei ffrydiau refeniw, gosododd C4C darged o 30% o gyfanswm ei refeniw i ddod o hysbysebu digidol erbyn 2025; erbyn 2022 roedd hyn wedi cyrraedd 22%.[120] Roedd C4C hefyd am geisio sicrhau 10% o'i gyfanswm refeniw o ffynonellau ar wahân i hysbysebu (yn cynnwys ffilm a phartneriaethau) erbyn 2025; cyflawnodd hynny yn 2022, ar £121m, neu 11% o gyfanswm y refeniw.[121]

**Ffigur 7: Refeniw C4C, yn ôl ffynhonnell: 2014 i 2022 (£m)**




Ffynhonnell: C4C (darparwyd 26/09/23).

4.9 Yn ei asesiad o effaith dileu cyfyngiad darlledwr-gyhoeddwr Channel 4, mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dweud: *"Ar draws y farchnad, mae'r gostyngiad mewn refeniw hysbysebion teledu llinol wedi cael ei wrthbwyso rywfaint gan hysbysebion teledu digidol, sy'n cynnwys refeniw o hysbysebu ar fideo ar-alw, yn ogystal ag ar lwyfannau rhannu fideos fel YouTube. Mae refeniw C4C wedi dilyn y tueddiadau bras hynny, er nad yw refeniw hysbysebu digidol yn llwyr wneud iawn am y gostyngiad mewn*

---

gynhyrchu refeniw a chynyddu presenoldeb brand y darlledwr ar y llwyfan - gweler Tudalen We: Channel 4 and YouTube strike pioneering content and commercial partnership.

[118] Atodiad 3: Tueddiadau Hanesyddol, Cynllun Tair Blynedd C4C 2023-25, Papur Bwrdd, Medi 2022, a gyflwynwyd i Ofcom ar 9 Mehefin 2023 ac Adroddiad Corfforaeth Deledu Channel Four a Datganiadau Ariannol 2022, t. 234

[119] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 11.

[120] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 11.

[121] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 18.


*teledu llinol.*"[122] Fel y nodwyd gennym yn ein Hadroddiad SMCP diweddaraf, bydd angen i drawsnewidiad digidol C4C gydbwyso refeniw digidol cynyddol yn ofalus gan gydnabod cyfraniad parhaus hysbysebu llinol i'w gynaliadwyedd ariannol.[123]

## Gwariant ar gynnwys yw'r rhan fwyaf o gostau C4C o hyd

4.10 Mae'r cyfyngiad presennol ar C4C fel cyhoeddwr-ddarlledwr[124] yn golygu bod ei gostau rhaglennu yn fwy hyblyg na chostau cynhyrchydd-ddarlledwr sy'n gorfod buddsoddi mewn gallu cynhyrchu sefydlog. Mae statws a swyddogaethau statudol C4C yn ei alluogi i fuddsoddi ei holl incwm dros ben yn ôl ar gomisiynu cynnwys a buddsoddiadau strategol eraill.[125] Felly, gall fod yn gymharol ystwyth o ran gwario arian ar gynnwys.

4.11 Ar sail ei Adroddiadau Blynyddol, mae gwariant cynnwys C4C (gan gynnwys cynnwys gwreiddiol a rhaglenni wedi'u prynu) wedi cynyddu'n gyson ers 2014, er bod C4C wedi dangos y gall addasu'r gwariant hwn pan fo angen. Yn ystod pandemig Covid-19, llwyddodd i leihau ei wariant ar gynnwys yn gyflym i ddiogelu ei gyllid ac yna roedd mewn sefyllfa i fanteisio ar yr adferiad cryf yn 2021 i fuddsoddi £713m (y swm uchaf erioed) mewn cynnwys yn 2022, cynnydd o 6% ar ffigur y flwyddyn flaenorol o £671m.

**Ffigur 8: Cyfanswm gwariant cynnwys C4C: 2014 i 2022 (£m)**




Ffynhonnell: Adroddiadau Blynyddol C4C 2014 i 2022.

4.12 Yn unol â'i strategaeth Future4, mae C4C bellach yn dosbarthu ei holl wariant ar gynnwys yn ehangach. Er bod Channel 4 yn dal i gyfrif am y rhan fwyaf o fuddsoddiad C4C (tua £550m yn 2022, 77% o gyfanswm y buddsoddiad), mae'r gyfran hon wedi bod yn gostwng, i lawr o 79% yn 2021, ac 81% yn 2017.[126] Mae C4C yn buddsoddi mwy yn ei sianeli portffolio (sydd fel

---

[122] DCMS, Assessment of Impacts: The removal of Channel 4 Television Corporation (C4C)'s publisher-broadcaster restriction and accompanying mitigations, t. 10.
[123] Ofcom, Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ar ei Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2022, t. 6.
[124] Gweler troednodyn 27.
[125] Oherwydd y cyfyngiad presennol ar gyhoeddwyr-ddarlledwyr, nid yw C4C yn cynhyrchu rhaglenni i'w darlledu ar Channel 4, sy'n golygu yn benodol nad yw C4C yn elwa o ffrydiau refeniw pellach ar ôl i raglen gael ei darlledu.
[126] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 95.

arfer â phroffil cynulleidfa iau na’r brif sianel), gyda gwariant yn tyfu 9% o un flwyddyn i’r llall yn 2022 i £129m.


4.13 Roedd y cynnydd canrannol mwyaf yn y gwariant cyffredinol ar gynnwys yn 2022 ar wasanaethau cyfryngau digidol. Ar gost o £34m, roedd y gwariant hwn dair gwaith yn fwy na’r ffigurau cyfatebol yn 2018 a 2019.[127] Mae’r strategaeth fuddsoddi hon yn adlewyrchu ymgyrch C4C i gynyddu lefelau gwylio digidol a denu cynulleidfaoedd iau, gan gynnwys drwy fuddsoddi mewn cynnwys a brynir. Yn ei Adroddiad Blynyddol, dywedodd C4C fod rhaglenni allweddol, fel *Rick and Morty* a *The Big Bang Theory*, yn cynnig ffordd at frand Channel 4 i gynulleidfaoedd iau nad ydynt efallai wedi ymgysylltu â hi o’r blaen.[128] Mae C4C o’r farn bod y rhain yn rhaglenni ffrydio yn gyntaf, a allai hefyd gael eu darlledu’n llinol.[129]

## C4C yn parhau i gynnal sefyllfa ariannol gadarnhaol

4.14 Mae C4C wedi cynhyrchu gwarged cyn treth o £142m dros gyfnod y drwydded bresennol (1 Ionawr 2015 i 31 Rhagfyr 2022).[130] Mae ei statws a’i swyddogaethau statudol wedi golygu bod cyfran o hyn wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddiadau strategol; mae’r rhan fwyaf o’r gweddill wedi’i gadw o fewn ei falansau arian.

4.15 Wrth ystyried cryfder ariannol C4C rydym wedi ystyried ei chronfeydd arian parod y gellir eu defnyddio pe bai C4C yn gwneud colledion. Mae C4C wedi cynyddu ei balans arian parod i tua £200m ar 31 Rhagfyr 2022, o £150m ddechrau 2015.[131]

**Ffigur 9: Balans cau blynyddol arian parod C4C ar 31 Rhagfyr: 2014 i 2022 (£m)**




[127] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 95.
[128] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 33.
[129] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 33.
[130] Adroddiadau a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2015, t. 2022. Mae'r data wedi cael eu mynegi mewn termau nominal.
[131] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 220. *Perygl hylifedd yw’r perygl i’r Grŵp fethu â chyflawni ei rwymedigaethau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Wrth reoli perygl hylifedd gweithredol y prif nod yw sicrhau bod gan y Grŵp bob amser glustog hylifedd sydd, yn y tymor byr, yn gallu esmwytho effeithiau net trafodion a wneir a newidiadau disgwyliedig mewn hylifedd o dan amodau arferol ac amodau anodd heb achosi colledion annerbyniol neu greu perygl o ddifrod i enw da’r Grŵp. Ystyrir bod y balansau arian parod sydd gan y Grŵp ac, o fis Mawrth 2018, y cyfleuster credyd cylchdröol o £75 miliwn, yn ddigon i gynnal gofion ariannu’r Grŵp yn y tymor canolig.*

Ffynhonnell: Adroddiadau Blynyddol C4C 2014 i 2022.

4.16 Mae cynhyrchu a chynnal cydbwysedd arian parod, ynghyd â'i ystwythder ar wariant cynnwys, wedi galluogi C4C i ymdopi â siociau yn y farchnad a buddsoddi mewn cynnwys pan fydd amodau'n newid, fel y dangosir yn Ffigur 9. Mae gan C4C fynediad hefyd at gyfleusterau bancio o £75m,[132] gyda therfyn statudol o £200m,[133] mae'n ddi-ddyled,[134] ac nid oes unrhyw rwymedigaeth arno i ddarparu enillion i fuddsoddwyr oherwydd ei statws perchnogaeth gyhoeddus.

[132] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 15.
[133] Mae cyfyngiad benthyca C4C wedi'i osod ar hyn o bryd ar £200m o dan Orchymyn Corfforaeth Deledu Channel 4 (Terfyn Benthyca) 2003. Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a C4C wedi cytuno ar strwythurau llywodraethu wedi'u diweddaru i gefnogi rheolaeth ariannol a phrosesau sicrwydd eraill, gan gynnwys Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddiweddaru.
[134] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 198.

# 5. Cynigion ar gyfer ymgynghori

## Ein dull gweithredu ar gyfer gosod trwydded newydd i Channel 4

5.1 Wrth ystyried yr amodau a'r hyd priodol ar gyfer trwydded wedi'i hadnewyddu, rydym wedi rhoi sylw i'r newidiadau sylweddol yn y dirwedd ddarlledu a ddisgrifir yn adran 3 a'r tebygolrwydd y bydd arferion gwylio cynulleidfaoedd yn parhau i esblygu'n gyflym dros gyfnod nesaf y drwydded. Rydym hefyd wedi ystyried yr angen i C4C ymateb i'r heriau hyn drwy drawsnewid ei hun yn PSB digidol-yn-gyntaf ac y bydd C4C, drwy gydol cyfnod nesaf y drwydded, yn parhau i ganolbwyntio ar hyn. Pan fo'n berthnasol i amodau'r drwydded, rydym hefyd wedi ystyried gwybodaeth am ddata gwylio cynulleidfaoedd ac agweddau at wasanaeth Channel 4, gan gynnwys gwybodaeth `o ymchwil Jigsaw (paragraffau 3.28 i 3.37).

5.2 Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ofyn i C4C nodi ei strategaeth ar gyfer cyfnod nesaf y drwydded, gan gynnwys i ba raddau roedd yn credu bod amodau'r drwydded bresennol yn dal yn briodol, ac unrhyw newidiadau roedd yn credu y dylid eu gwneud i'r drwydded. Yn ei gyflwyniad i ni, dywedodd C4C fod arno angen *fframwaith trwyddedu gan Ofcom sy'n edrych i'r dyfodol, sy'n cefnogi ac yn galluogi trawsnewidiad ein cynulleidfaoedd a thrawsnewidiad ein model gweithredu ni. Bydd gallu C4C i esblygu'r ffordd rydym yn dosbarthu cynnwys […] yn allweddol er sicrhau bod cynulleidfaoedd yn ymwneud â'r cynnwys sy'n adlewyrchu'n fwyaf cryf ein cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus*.[135]

5.3 Roedd ei gyflwyniad yn nodi, o ystyried pa mor gyflym mae technoleg ac arferion gwylio yn newid, ac er mwyn rhoi digon o sicrwydd iddo gynllunio ei strategaeth busnes tymor hir a'i fuddsoddiadau, ei fod yn cynnig bod Ofcom yn *gosod rhwymedigaethau yn y drwydded sy'n ddiogel at y dyfodol dros gyfnod y drwydded nesaf ar ei hyd – ac sy'n gyson â bwriad strategol Channel 4 o ran trawsnewidiad digidol parhaus*.[136]

5.4 Gwnaeth C4C gyfres o geisiadau i Ofcom am newidiadau i amodau ei drwydded bresennol i gefnogi ei strategaeth i ysgogi pobl i wylio teledu digidol. Dywedodd ei fod yn ceisio newidiadau *cymharol fach i rai o'n rhwymedigaethau trwydded presennol* dros gyfnod nesaf y drwydded.[137] Yn sail i'r ceisiadau hyn mae awydd ar ran C4C am fwy o hyblygrwydd o ran sut mae'n comisiynu ac yn dosbarthu cynnwys, a dywedodd y byddai hynny'n caniatáu iddo ymateb i'r newid cyflym yn ymddygiad cynulleidfaoedd a sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ei gylch gwaith. Serch hynny, dywedodd C4C hefyd, o ystyried arwyddocâd parhaus ei sianel linol, y bydd newidiadau i'r ffordd y mae'n darparu cynnwys yn digwydd yn raddol dros gyfnod y drwydded, sy'n cyd-fynd â'i strategaeth ehangach ar gyfer trawsnewid digidol parhaus. Dywedodd C4C: *yn y cyfnod hyd at 2034, byddwn yn parhau â'r strategaeth gyfannol sy'n hyrwyddo egwyddorion ein cylch gwaith ar draws ein holl wasanaethau. Bydd y brif sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig yn parhau'n greiddiol i hyn, hyd yn oed […] wrth i wylio llinol, ffurf-hir, ddod yn elfen llai amlwg yng nghymysgedd cyfryngau defnyddwyr*.[138]

---

[135] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[136] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[137] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[138] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.

5.5 Gan ystyried hyn i gyd, ac arwyddocâd parhaus y gwasanaeth llinol hyd y gellir rhagweld, mae ein dull o osod trwydded newydd ar gyfer gwasanaeth Channel 4 yn ceisio taro cydbwysedd rhwng rhoi mwy o hyblygrwydd i C4C yn y dyfodol i ddatblygu ei strategaeth cynnwys a dosbarthu i gefnogi ei drawsnewidiad digidol, tra'n parhau i ddiogelu ei fuddsoddiad mewn cynnwys unigryw i'r DU a diogelu'r gwaith o gyflawni elfennau craidd ei allbwn llinol.

**Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad**

Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer gosod trwydded newydd Channel 4? Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

# Y cynigion rydym yn ymgynghori arnynt

## Newyddion

**Crynodeb o'r cynigion**

Ein bwriad yw:

- **cadw'r amod sy'n mynnu bod C4C yn darparu dim llai na 208 awr o newyddion yn ystod oriau gwylio brig** bob blwyddyn galendr ar Channel 4. Ystyrir mai'r oriau gwylio brig fydd rhwng 18:00 a 22:30;
- **dileu'r gofyniad** i C4C ddarparu un rhaglen newyddion ar Channel 4 amser cinio bob diwrnod o'r wythnos; a
- **cadw'r gofyniad** i C4C ddarparu rhaglenni newyddion yn achlysurol drwy gydol y cyfnod tra darperir Channel 4, gan gynnwys un rhaglen yn gynnar gyda'r nos bob diwrnod o'r wythnos ac ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.

### Y gofynion statudol

5.6 Mae Adran 279 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau yn nhrwyddedau'r sianeli gwasanaeth cyhoeddus y mae Ofcom yn eu hystyried yn briodol er mwyn sicrhau'r canlynol:

a) bod y rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y sianel yn cynnwys rhaglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes;
b) bod y rhaglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes o ansawdd uchel ac yn delio â materion cenedlaethol a rhyngwladol; a
c) bod rhaglenni newyddion o'r fath yn cael eu darlledu i'w gwylio yn achlysurol drwy gydol y cyfnod tra darperir y sianel.

5.7 Mae Adran 279 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn gosod amodau sy'n briodol yn ein barn ni i sicrhau nad yw'r amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn llai na'r hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel cyfran briodol o'r amser sy'n cael ei neilltuo i ddarlledu'r holl raglenni, a bod yr amser ar gyfer pob un yn cael ei rannu mewn dull sy'n ymddangos i Ofcom yn briodol rhwng oriau gwylio brig ac adegau eraill.

5.8 Wrth osod amodau yn y drwydded sy'n ymwneud â newyddion, rhaid i ni ystyried y dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus a nodir yn adran 264 y Ddeddf, yn benodol:

*bod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus (o'u hystyried gyda'i gilydd) yn darparu, i'r graddau sy'n briodol ar gyfer hwyluso dealltwriaeth ddinesig a dadl deg sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch newyddion a materion cyfoes, sylw cynhwysfawr ac awdurdodol i newyddion a materion cyfoes y Deyrnas Unedig, a'r gwahanol rannau ohoni, ac o bedwar ban byd.*[139]

## Rhwymedigaeth gyfredol

5.9 Mae dau amod allweddol sy'n ymwneud â newyddion yn nhrwydded bresennol Channel 4:

a) *Rhaid darparu Rhaglenni Newyddion yn achlysurol drwy gydol y cyfnod tra darperir Gwasanaeth Channel 4, gydag o leiaf un Rhaglen amser cinio bob diwrnod o'r wythnos ac un yn gynnar gyda'r nos bob diwrnod o'r wythnos a Rhaglen yn gynnar gyda'r nos ar benwythnosau ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.*

b) *Ni fydd llai na 208 awr ym mhob blwyddyn galendr o'r Cyfnod Trwyddedu o Raglenni newyddion yn ystod oriau gwylio brig yn cael eu cynnwys yng Ngwasanaeth Channel 4. Bydd Rhaglenni newyddion o'r fath o ansawdd uchel ac yn delio â materion cenedlaethol a rhyngwladol. Dylai'r sylw fod yn gywir, yn ddiduedd, yn awdurdodol ac yn gynhwysfawr o ran daearyddiaeth a'r pwnc. Bydd darllediadau byw o ddigwyddiadau pwysig sy'n symud yn gyflym yn cael eu darparu, gyda fflachiadau newyddion y tu allan i fwletinau rheolaidd fel y bo'n briodol.*[140]

5.10 Nid yw'r darpariaethau hyn wedi newid ers i Ofcom gyhoeddi ei drwydded gyntaf ar gyfer Channel 4 yn 2004.

## Cyflawni dros gyfnod y drwydded

5.11 Mae C4C yn darparu ei raglenni newyddion yn bennaf drwy ei raglen gyda'r nos yn ystod yr wythnos, *Channel 4 News*. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â'i allbwn llinol, mae C4C wedi bod yn ehangu ei arlwy newyddion ar-lein, gan gynnwys drwy YouTube a TikTok (mae'r manylion ym mharagraffau 5.23 i 5.26).

5.12 Dros gyfnod y drwydded, mae Channel 4 wedi cyflawni mwy na'i gwota newyddion brig yn gyson.

**Ffigur 10: Darpariaeth cwota newyddion Channel 4 dros gyfnod y drwydded**

| Cwota | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **208 awr** | 219 awr | 215 awr | 210 awr | 214 awr | 220.4 awr | 227.8 awr | 230.1 awr | 217.7 awr | 216.7 awr |

Ffynhonnell: Ofcom/Channel 4.

5.13 Mae'r gofyniad i ddarparu newyddion amser cinio yn ofyniad amserlennu ac nid oes yn rhaid i Channel 4 gynnwys rhaglen o hyd penodol. Yn 2010, disodlodd C4C ei raglen hanner awr *News at Noon* gyda bwletinau byr amser cinio er mwyn *"gallu canolbwyntio ei adnoddau ar y brif raglen ddyddiol lle gall gael yr effaith fwyaf"*.[141] Mae'r bwletin newydd yn dri munud o

[139] Adran 264(6)(c) o'r Ddeddf.
[140] Trwydded Channel 4, Atodiad 1, paragraff 2.
[141] Channel 4, Datganiad Polisi Rhaglenni 2010, tudalen 6.

hyd ar gyfartaledd a dim ond y penawdau ar gyfer y diwrnod y mae'n eu cyflwyno yn hytrach na phecyn manwl.

5.14 Ar hyn o bryd, mae C4C yn bodloni ei ofynion amserlennu ar gyfer y penwythnos gyda dwy raglen newyddion hanner awr o hyd dros y penwythnos ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Nid oes gan y rhaglenni hyn slot rheolaidd yn yr amserlen, fel sydd gan y bwletin yn ystod yr wythnos; yn lle hynny, maent yn cael eu symud yn yr amserlen i gyd-fynd ag anghenion rhaglennu ehangach C4C bob penwythnos.

## Cais C4C am y drwydded newydd

Yn ei gyflwyniad i Ofcom, mynegodd C4C ei ymrwymiad i'w ddarpariaeth newyddion gyffredinol, a dywedodd ei fod o'r farn bod cyfanswm nifer yr oriau o newyddion yn ystod oriau brig yn dal yn briodol ar gyfer y drwydded nesaf. Dywedodd fod rhaglenni newyddion *wrth galon cenhadaeth amserlennu Channel 4 a'u bod ymysg y ffyrdd pwysicaf ac mwyaf effeithiol o gyflawni ein cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus.*[142]

Gofynnodd C4C am ddileu'r gofyniad presennol i amserlennu newyddion amser cinio, gan ddadlau bod y bwletin amser cinio yn rhoi llai o werth i gynulleidfaoedd na gweddill allbwn *Channel 4 News*, sy'n fwy manwl. Yng nghyflwyniad C4C, dywedwyd: *nid yw ein cais i ddileu'r gofyniad i ddarparu bwletin amser cinio yn golygu ein bod yn bwriadu dileu'r bwletinau hyn ar unwaith: mae'n debygol y byddem yn eu cadw am beth amser. Fodd bynnag, byddai dileu'r gofyniad yn rhoi'r hyblygrwydd i ni roi'r gorau i fwletinau amser cinio os bydd y gwerth maent yn ei ddarparu i gynulleidfaoedd yn gyffredinol yn parhau i leihau wrth i fwy o bobl symud oddi wrth deledu llinol.*[143]

Nododd C4C hefyd y byddai *dileu'r gofyniad hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni gynllunio ein hamserlenni yn y ffordd fwyaf cystadleuol er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael y budd mwyaf posibl o'r amser"[...] Byddai'r tri munud yn cael eu disodli gan raglenni sy'n addas ar gyfer y dydd, gan sicrhau bod llif o gynulleidfaoedd drwy gydol yr amserlen.*[144]

Ar ben hynny, gofynnodd C4C am dynnu'r gofynion amserlennu ar benwythnosau. Nododd nad yw'n *cynllunio unrhyw newidiadau i'n hallbwn newyddion dros y penwythnos yn y tymor byr o ystyried eu bod ar hyn o bryd yn denu lefelau cynulleidfa tebyg i'n bwletinau yn ystod yr wythnos, ac mae'n annhebygol y byddem byth yn ceisio cael gwared arnynt yn gyfan gwbl*. Ychwanegodd mai eu *prif reswm dros ofyn am fwy o hyblygrwydd yw er mwyn i ni allu gwneud newidiadau achlysurol i'r amserlen i'w gwneud yn fwy cystadleuol a'n galluogi i ddatblygu ein dull gweithredu dros amser wrth i arferion cynulleidfaoedd newid.*[145]

[142] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[143] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.
[144] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.
[145] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.


# Ein rhesymeg

## Cadw dim llai na 208 awr o newyddion yn yr oriau brig

### Mae newyddion byw ar y teledu yn dal yn bwysig i gynulleidfaoedd

5.15 Mae teledu sy’n cael ei ddarlledu yn parhau i fod y llwyfan sy’n cael ei ddefnyddio fwyaf i gael gafael ar newyddion. Yn 2023, cyrhaeddodd newyddion teledu a ddarlledir 70% o oedolion y DU, er bod hyn yn cynrychioli gostyngiad o 79% yn 2018.[146] Mae’r nifer sy’n cael y newyddion yn cynyddu i 75% pan fydd gwasanaethau fideo ar-alw a ddarlledir yn cael eu cynnwys.[147]

**Ffigur 11: Defnyddio’r prif lwyfannau ar gyfer newyddion ‘y dyddiau hyn’**




Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2023.[148]

5.16 Mae’r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn parhau i fod yn gonglfeini o ran darparu newyddion ar y teledu, gan gyrraedd, gyda'i gilydd, 94% o gynulleidfaoedd newyddion teledu yn 2023. Mae gan *Channel 4 News* ran bwysig i’w chwarae yn hyn, gan gyrraedd 24% o’r holl gynulleidfaoedd sy’n defnyddio’r teledu ar gyfer newyddion.[149]

5.17 Mae cwota presennol Channel 4 o 208 awr o newyddion yn ystod oriau brig, ynghyd â’r gofyniad i ddarparu rhaglen yn gynnar gyda’r nos bob diwrnod yn ystod yr wythnos, wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau bod rhaglen deledu newyddion fanwl yn cael ei darparu ar Channel 4 bum noson yr wythnos. Rydym o’r farn y bydd y cwota yn dal yn effeithiol o ran cyflawni hyn yn y cyfnod trwydded newydd.

[146] Ofcom, Cael gafael ar newyddion yn y DU: 2023, t. 3. 2018 yw’r flwyddyn gynharaf y mae gennym ddata y gallwn ei gymharu.
[147] Ofcom, Cael gafael ar newyddion yn y DU: 2023. Eleni, roedd yr arolwg yn cynnwys gwasanaethau fideo ar-alw a ddarlledir fel BBC iPlayer, ITVX/ITX Premium ac All 4/All 4+ fel ffynonellau newyddion. Ailfrandiwyd All4/All4+’ i ‘Channel 4/Channel 4+’ yn 2023 ar ôl i waith maes NCS gael ei gwblhau.
[148] Cwestiwn: C1. Pa rai o'r llwyfannau canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Sylfaen: Pob oedolyn 16+. 2023=4556, 2022 W2*=2792, 2020=4576, 2019=4691, 2018=4618. Data 2022 W1, a 2021 heb ei ddangos oherwydd nad oedd gwaith maes wyneb yn wyneb yn bosibl yn ystod pandemig Covid-19. **Mae’n cynnwys defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol, podlediadau a phob gwefan/ap arall mae modd cael gafael arnynt drwy unrhyw ddyfais. ***Gwasanaethau fideo ar-alw a ddarlledir wedi’i gynnwys am y tro cyntaf yn 2023.
[149] Ofcom, Cael gafael ar newyddion yn y DU: 2023, t. 6.

## Mae *Channel 4 News* yn cynnig rhywbeth gwahanol i ddarparwyr newyddion eraill

5.18 Fel y nodir ym mharagraff 2.2 uchod, mae'r fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn rhagweld y dylai darpariaeth newyddion C4C ategu'r newyddion a ddarperir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, er mwyn sicrhau bod dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu cyflawni ar y cyd. Mae cymeriad unigryw *Channel 4 News*, o ran ei fformat a'i ddull golygyddol, yn cyfrannu at hyn.

5.19 Canfu ymchwil Jigsaw fod *Channel 4 News* wedi cadw hunaniaeth benodol ymysg ei gynulleidfaoedd. Roedd cynulleidfaoedd yn teimlo ei fod yn darparu newyddion diduedd a dibynadwy ac yn barod i herio syniadau sefydliadau. Teimlwyd hefyd fod ganddo arddull a fformat adrodd iau a mwy blaengar o'i gymharu ag ITV neu'r BBC. Roedd cynulleidfaoedd yn credu bod *Channel 4 News* yn barod i wneud yr hyn na fyddai newyddion y BBC ac ITV yn ei wneud, er enghraifft wrth gyfweld gwleidyddion neu siarad am faterion gwleidyddol.[150]

> **"Mae Channel 4 yn dda am gyflwyno newyddion grymus sy'n torri, heb fod ag ofn beth mae'r cyhoedd yn ei feddwl, ond mae'r BBC bob amser yn meddwl am farn y cyhoedd."**[151]
>
> (Gwryw, Caerdydd, 35-54, ABC1, Defnyddiwr Canolig C4C)

5.20 Mae rhaglen nos *Channel 4 News* hefyd yn cyrraedd cynulleidfa ychydig yn wahanol i allbwn newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Yn 2022, roedd 15% o gynulleidfa oriau brig gyda'r nos yn ystod yr wythnos *Channel 4 News* yn cynnwys gwylwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, sy'n uwch na gwylwyr rhaglenni newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill (*ITV News at Ten* oedd yr ail uchaf ar 11%). Mae'r gyfran hon wedi aros yn weddol gyson dros gyfnod y drwydded, gan amrywio ychydig o bwyntiau canran ond byth yn gostwng o dan 15%.[152]

5.21 Yn 2022, ymysg cynulleidfaoedd 16-34 oed, roedd darllediadau oriau brig gyda'r nos yn ystod yr wythnos o raglenni newyddion *Channel 4 News* yn gyfran gwylio o 3.1% ar gyfartaledd, ac roedd pobl 16-34 oed yn cyfrif am 7% o'r gynulleidfa, sy'n golygu mai dyma un o'r rhaglenni newyddion ffurf hir gan ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus sy'n denu'r cynulleidfaoedd ieuengaf ar y cyd (â *News at Ten ITV*). Dros gyfnod y drwydded, mae Channel 4 wedi gweld gostyngiad yn nifer y bobl 16-34 oed sy'n gwylio ei raglen newyddion oriau brig gyda'r nos yn ystod yr wythnos, 10 pwynt canran yn llai, ond mae hyn yn cyd-fynd â'r gostyngiad mwy llym yn lefelau gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu'n gyffredinol ymysg y grŵp oedran hwnnw.[153]

5.22 Er gwaethaf y gostyngiad hwn, newyddion oriau brig Channel 4 yn y dydd yn ystod yr wythnos sydd â'r proffil cynulleidfa ieuengaf o blith unrhyw ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ar y cyd ag ITV1, ac mae ganddo'r gynulleidfa fwyaf amrywiol yn nhirwedd newyddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Gan ystyried y cymysgedd hwn o gynulleidfaoedd, credwn ei bod yn bwysig sicrhau bod *Channel 4 News* yn parhau i gael ei ddarparu ar deledu dros gyfnod y drwydded nesaf i sicrhau bod y cynulleidfaoedd hyn yn parhau i gael newyddion o ansawdd uchel.

---

[150] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 30-31.
[151] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 31.
[152] Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig: ac eithrio +1, newyddion cenedlaethol yn ystod yr wythnos rhwng 1800 a 2300. 2014-2022.
[153] Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig. Ac eithrio +1 newyddion cenedlaethol oriau brig rhwng 1800 a 2300 sy'n fwy na 7 munud o hyd. 2014-2022

## Mae presenoldeb *Channel 4 News* ar y cyfryngau cymdeithasol yn helpu i ddenu gwylwyr iau ac mae hefyd yn ddefnyddiol o ran eu denu i wylio bwletinau llinol

5.23 Mae datblygu cynnyrch newyddion digidol yn hanfodol ar gyfer ennyn diddordeb cynulleidfaoedd iau mewn cynnwys newyddion. Yn 2023, mae mwyafrif (83%) o bobl ifanc 16-24 oed yn gwylio newyddion ar-lein. Mae hyn oherwydd y defnydd o gyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion (71%). I'r gwrthwyneb, mae teledu sy'n cael ei ddarlledu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer newyddion gan lai na hanner (47%) y grŵp oedran hwn, er bod hyn yn cynyddu i 53% pan fydd gwylio ar-alw yn cael ei gynnwys.[154] Maent yn cael gafael ar newyddion ar-lein hefyd mewn ffordd wahanol i oedolion hŷn. Mae llawer llai o bobl 16-24 oed yn mynd yn uniongyrchol at wefannau i gael eu newyddion; maent yn fwy tebygol o fynd drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd C4C yn ei gyflwyniad fod bron i draean (27%) o gynulleidfa ifanc (16-34 oed) *Channel 4 News* wedi dechrau gwylio ffurf hirach o *Channel 4 News* ar y teledu neu wrth ffrydio ar ôl dilyn *Channel 4 News* ar lwyfannau fideo cymdeithasol yn ddiweddar.[155]

5.24 Dros gyfnod y drwydded bresennol, mae C4C wedi ehangu cryn dipyn ar y ffordd y mae'n darparu newyddion. Amcan C4C yw sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu dewis sut, pryd a ble i gael gafael ar gynnwys, boed hynny yn ddarllediad llinol, ar gyfryngau digidol neu gyfryngau cymdeithasol. Mae wedi cyflwyno amrywiaeth o gynnyrch newyddion ers 2014, gan gynnwys podlediadau newyddion a chynnwys sydd wedi'i ddylunio ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, ac mae wedi ymrwymo i ehangu ei allbwn i lwyfannau newydd. Mae dros 40% o gynulleidfa YouTube C4C a 65% o'i gynulleidfa TikTok o dan 35 oed.[156] Cynyddodd nifer dilynwyr *Channel 4 News* ar TikTok ddeg gwaith yn 2022 i dros 300,000, ac mae C4C yn dweud bod hyn wedi cael ei sbarduno'n bennaf gan ei sylw i'r rhyfel yn Wcráin a chynnydd yn amseroldeb, maint ac ansawdd ei gynnwys.[157]

5.25 Er nad yw'r cynnwys hwn yn cyfrannu at gyflawni amodau trwydded Channel 4, mae'n rhan o'r ffordd y mae C4C yn cyflawni ei ddyletswydd o ran cynnwys cyfryngau: i wneud cynnwys perthnasol sydd â newyddion a materion cyfoes yn rhan ohono. Mae hyn yn cyfrannu hefyd at gyflawni ei ddyletswyddau i wneud cynnwys sy'n apelio i blant hŷn ac oedolion ifanc, ac i gefnogi ac ysgogi dadleuon ar sail gwybodaeth ar ystod eang o faterion.

5.26 Rydym yn croesawu'r cyrhaeddiad ychwanegol y mae C4C yn ei gyflawni drwy ei fuddsoddiad mewn newyddion digidol, a'r cyfle y mae'n ei roi i ddod â chynulleidfaoedd newydd i'r bwletinau llinol. Gallai gostyngiad yn oriau newyddion darlledu llinol alluogi C4C i fuddsoddi mwy yn ei arlwy digidol. Fodd bynnag, gan fod y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd – hyd yn oed cynulleidfaoedd iau – yn dal i wylio newyddion ar y teledu, rydym yn credu ei bod hi'n bwysig diogelu'r ddarpariaeth o newyddion llinol ar Channel 4.


## Newyddion teledu yn ystod oriau brig sy'n cael yr effaith fwyaf

5.27 Mae trwydded Channel 4 yn cynnwys cwota sy'n ymwneud â darlledu newyddion yn ystod oriau gwylio brig, gyda gofynion amserlennu ychwanegol ar gyfer adegau eraill. Mae hyn yn cydnabod y ffaith mai'r newyddion a fydd yn cael ei ddarparu yn ystod oriau brig, fydd yn cael yr effaith fwyaf ar gynulleidfaoedd.

[154] Ofcom, Cael gafael ar newyddion yn y DU: 2023, t. 2.
[155] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[156] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 60.
[157] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 60.

5.28 Mae cynulleidfa gyfartalog newyddion yn ystod oriau brig yn llawer uwch nag ar gyfer allbwn newyddion mewn rhannau eraill o'r dydd, ac mae hyn yn dangos pwysigrwydd newyddion oriau brig i gynulleidfaoedd sy'n gwylio.

**Ffigur 12: Cynulleidfa gyfartalog (000oedd) newyddion rhwydwaith Channel 4: 2015-2022**




Ffynhonnell: Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, unigolion 4+, drwy setiau teledu yn unig. Dydd Llun i ddydd Sul, yn cynnwys +1.

5.29 Rhwng 2015 a 2022, cynyddodd C4C ei gyfran gwylio ar gyfer rhaglenni newyddion gyda'r nos yn ystod yr wythnos (o 3.1% yn 2015 i 4% yn 2022).[158] Ar ben hynny, canfu ymchwil Ofcom fod cynulleidfa *Channel 4 News* yn rhoi sgôr uchel iddo am ddarparu newyddion cenedlaethol a rhyngwladol.[159] Yn 2023, roedd 67% o'i gynulleidfaoedd wedi rhoi sgôr uchel iddo am ei '*safon uchel*' ac am '*helpu fi i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd y dyddiau hyn*'.[160]

5.30 Gan ystyried y datblygiadau tebygol o ran defnyddio a chynhyrchu newyddion digidol dros gyfnod nesaf y drwydded, rydym yn credu bod y pwyslais hwn ar newyddion teledu, yn enwedig yn ystod oriau brig, yn briodol, ac yn fwy perthnasol nag erioed.

5.31 Rydym o'r farn bod 208 awr yn dal yn lefel briodol o allbwn ar gyfer C4C, ac fel y dangosir drwy gydol cyfnod y drwydded bresennol, nid yw'n cyfyngu ar hyblygrwydd C4C i arbrofi gyda ffyrdd newydd o gyrraedd cynulleidfaoedd gyda'i allbwn newyddion, er enghraifft drwy TikTok.

### Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad:

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw'r amod sy'n mynnu bod o leiaf 208 awr o raglenni newyddion yn ystod oriau gwylio brig yn cael eu cynnwys yng ngwasanaeth Channel 4 ym mhob blwyddyn galendr o'r cyfnod trwyddedu?

Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

---

[158] Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig. Unigolion 4+, yn cynnwys Channel 4 +1.
[159] Roedd 67% yn dweud bod C4C yn dda ar gyfer newyddion cenedlaethol a 68% ar gyfer newyddion rhyngwladol. Ofcom, [Cael gafael ar newyddion yn y DU: 2023](#).
[160] Ofcom, [Cael gafael ar newyddion yn y DU: 2023](#).

## Cael gwared ar y gofyniad amserlennu newyddion amser cinio

### Nid yw bwletin amser cinio *Channel 4 News* yn cyrraedd cynulleidfaoedd sylweddol

5.32 Yn 2022, roedd cyfran gwylio bwletin newyddion amser cinio Channel 4 yn ystod yr wythnos yn 1.8%, i lawr o 2.9% yn 2015. Dim ond 1% o gyfanswm gwylio newyddion cyffredinol Channel 4 oedd y bwletin.[161] I'r gwrthwyneb, roedd cyfran y gwylio ar gyfer rhaglenni newyddion amser cinio BBC One, ITV1 a Channel 5 wedi cynyddu rhwng 2015 a 2022, er bod ffigurau cyfartalog cynulleidfaoedd wedi gostwng yn gyflymach dros y cyfnod hwn wrth i gyfanswm gwylio teledu ar yr adeg hon o'r dydd ostwng. [162] Mae ITV a BBC One yn darparu rhaglen newyddion genedlaethol bob dydd am hanner awr amser cinio yn ystod yr wythnos, ac mae Channel 5 yn darparu bwletinau pum munud. Nid yw'r gostyngiad yn y gyfran sy'n gwylio'r bwletin amser cinio yn ystod yr wythnos yn adlewyrchu allbwn newyddion cyffredinol Channel 4, fel y nodir ym mharagraff 5.29 uchod.

5.33 Mae nifer o ffactorau a allai gyfrannu at ostyngiad yng nghyfran gwylio C4C ymysg cynulleidfaoedd newyddion amser cinio. Un ffactor posibl yw bod y gynulleidfa gymharol ifanc wedi bod yn gwylio llai o deledu ers 2014. Ymddengys hefyd nad yw'r bwletin hwn yn taro tant gyda chynulleidfaoedd Channel 4, a bod hwn yn fater sy'n benodol i'r slot amser cinio. Am y rheswm hwn, rydym yn credu ei bod yn annhebygol y bydd ei ddileu yn cael effaith sylweddol ar gynulleidfaoedd i *Channel 4 News* nac ar ddarpariaeth newyddion C4C fel rhan o'i gylch gwaith a'i ddyletswyddau.

### Gallai'r bwletin amser cinio amharu ar wylio Channel 4 drwy gydol y dydd

5.34 Roedd cyflwyniad C4C yn dweud ei fod am allu gwella llif amserlen Channel 4 drwy gydol y dydd, ac roedd yn amau y gallai'r gofyniad am fwletin amser cinio fod yn gwrthwneud hyn.[163] Rydym wedi edrych ar y gynulleidfa gyfartalog a'r gyfran sy'n gwylio rhaglenni cyn ac ar ôl y bwletin newyddion amser cinio i weld a yw'n arwain at gynulleidfaoedd yn diffodd neu'n symud o'r sianel.

5.35 Mae'r gynulleidfa gyfartalog a chyfran gwylio'r bwletin newyddion amser cinio yn sylweddol is nag ar gyfer y rhaglenni cyn y bwletin ac ar ei ôl. Nid yw'n glir a yw'r un cynulleidfaoedd yn diffodd yn ystod y bwletin ac yn dod yn ôl wedyn, neu a yw Channel 4 yn colli'r gynulleidfa gynharach honno a bod gwylwyr newydd yn gwylio ar ôl y bwletin. Y naill ffordd neu'r llall, mae hyn yn cefnogi'r syniad nad yw'r bwletin yn ennyn diddordeb cynulleidfaoedd ac y gallai fod yn rhwystr i barhad cynulleidfaoedd drwy gydol amserlen Channel 4 yn ystod y dydd.[164]

### Mae proffil y gynulleidfa ar gyfer y bwletin amser cinio fel arfer yn cael mynediad at ffynonellau newyddion eraill

5.36 Roeddem wedi asesu a allai colli'r bwletin newyddion amser cinio gael effaith anghymesur ar rai cynulleidfaoedd. Fe wnaethom ganolbwyntio'n benodol ar gynulleidfaoedd hŷn, sy'n llai tebygol o gael gafael ar newyddion ar lwyfannau eraill fel cyfryngau cymdeithasol. Gwelsom mai'r bwletin hwn sydd â'r gynulleidfa ieuengaf o'i gymharu â rhaglenni Channel 4 dros y

---

[161] Bwletinau sy'n para llai nag 8 munud yn y dydd yn ystod yr wythnos fel canran o'r holl bobl sy'n gwylio newyddion cenedlaethol ar Channel 4 (gan gynnwys Channel 4+1).

[162] Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig, unigolion 4+, yn cynnwys sianeli +1, mae bwletinau ar amseroedd gwahanol.

[163] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.

[164] Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig, unigolion 4+, yn cynnwys Channel 4+1, mis Ionawr 2022 i fis Gorffennaf 2023.

penwythnos neu gyda'r nos yn ystod yr wythnos. Mae 45% o'i gynulleidfa yn 55 oed neu'n hŷn, o'i gymharu â 59% o'r rhaglenni gyda'r nos yn ystod yr wythnos a 67% o'r rhaglenni ar y penwythnos.[165]

5.37 Roeddem hefyd wedi edrych ar sut, yn ystod chwarter cyntaf 2023, mae gwylwyr cyfartalog y bwletin hwn yn cael gafael ar newyddion arall ar y teledu. Roedd y cynulleidfaoedd hyn yn gwylio 51% yn fwy o funudau o newyddion dyddiol y pen ar gyfartaledd yn yr un chwarter ag eraill yn gyffredinol. Roeddent hefyd yn gwylio bron i ddwy waith a hanner cymaint o funudau dyddiol ar gyfartaledd o *Channel 4 News* yn ystod oriau gwylio brig yn y dydd yn ystod yr wythnos yn yr un chwarter ag eraill yn gyffredinol.[166]

5.38 Mae'r data hwn yn awgrymu bod gwylwyr rheolaidd bwletin newyddion amser cinio Channel 4 yn ystod yr wythnos yn gwylio mwy o newyddion yn gyffredinol, a mwy o newyddion mewn mannau eraill ar Channel 4, na'r gwyliwr cyfartalog.

5.39 Er bod nifer sylweddol o wylwyr y bwletin hwn yn 55 oed a hŷn, ac felly'n fwy tebygol o ddibynnu ar newyddion ar y teledu,[167] mae'r data sy'n awgrymu eu bod yn fwy tebygol o wylio bwletinau eraill *Channel 4 News* , yn ein harwain i'r casgliad bod ei ddileu yn debygol o effeithio ar nifer gynyddol fach o wylwyr. Felly, rydym o'r farn bod dileu'r gofyniad ar gyfer y bwletin hwn, er mwyn rhoi'r hyblygrwydd gweithredol i C4C addasu amserlen Channel 4 yn ystod y dydd i ddiwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd dros gyfnod nesaf y drwydded, yn briodol.

### Mae C4C yn annhebygol o ddileu'r bwletin amser cinio tan ymhell i mewn i gyfnod nesaf y drwydded

5.40 Pe byddem yn dileu'r gofyniad hwn, mae C4C wedi awgrymu na fyddai'n dileu'r bwletin amser cinio ar unwaith, ond ar adeg briodol dros gyfnod y drwydded nesaf. Ond gan nad ydym yn credu y byddai effaith sylweddol ar gynulleidfaoedd, hyd yn oed pe bai'r bwletin yn cael ei ddileu ar unwaith, rydym yn credu y byddai'n briodol dileu'r amod hwn o ddechrau cyfnod y drwydded.

**Cwestiwn 5 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddileu'r gofyniad amserlennu newyddion amser cinio?

Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

## Cadw gofynion amserlennu newyddion dros y penwythnos

### Mae rhaglenni newyddion Channel 4 dros y penwythnos yn cyrraedd cynulleidfaoedd sylweddol

5.41 Yn wahanol i'r bwletin amser cinio, mae tystiolaeth bod rhaglenni newyddion dros y penwythnos yn darparu gwerth sylweddol i gynulleidfaoedd, fel y dangosir gan eu cyrhaeddiad a'u cyfran gwylio.   Mae ganddynt tua'r un gyfran gwylio â'r rhaglenni gyda'r

[165] Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig, yn cynnwys Channel 4+1, unigolion 4+
[166] Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig, gan gynnwys sianeli +1, unigolion 4+. Gwylwyr yn y 50% canol (ystodau rhyngchwartel) o bawb a wyliodd o leiaf 1 munud o fwletin newyddion amser cinio Channel 4 yn ystod yr wythnos, pan oedd yn cael ei restru yn ôl pwysoliad gwylio, 2023 Ch1. Nid yw'r diffiniad hwn yn cynnwys y chwarter o wylwyr a oedd yn gwylio'r nifer lleiaf o funudau o'r holl newyddion amser cinio a ddarlledwyd ar y sianel yn ystod y cyfnod hwnnw, a'r chwarter o wylwyr a oedd yn gwylio'r nifer mwyaf o funudau o'r darllediadau hynny.
[167] Gweler paragraff 5.36

nos yn ystod yr wythnos (tua 4%) ac maent yn cyfrannu 14% at lefelau gwylio newyddion cyffredinol Channel 4.[168] Mae'r nifer sy'n gwylio'r bwletin dydd Sadwrn yn weddol debyg i'r bwletin ar ddydd Sul, o ran cyrhaeddiad y gynulleidfa a'r gynulleidfa gyfartalog.[169] Mae C4C ei hun yn nodi bod rhaglenni'r penwythnos "*yn cyrraedd lefelau cynulleidfa tebyg i'n bwletinau o ddydd Llun i ddydd Gwener.*"[170] Yn ogystal, mae'r bwletinau hyn yn llawer mwy sylweddol a manwl na'r bwletin amser cinio, gan eu bod yn hanner awr o hyd.

5.42 Mae C4C wedi gofyn am yr hyblygrwydd i ollwng un o'r rhaglenni hyn rywbryd yn y dyfodol, a allai arwain at golli unrhyw ddarpariaeth newyddion ar un diwrnod ar y penwythnos. Mae newyddion dyddiol rheolaidd yn bwysig er mwyn cyflawni'r amcan darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer newyddion. Mae'r amcanion sydd i'w cyflawni gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'i gilydd, yn cynnwys, i'r graddau sy'n briodol ar gyfer hwyluso dealltwriaeth ddinesig a dadl deg sy'n seiliedig ar wybodaeth, sylw 'cynhwysfawr ac awdurdodol' i newyddion y DU a newyddion rhyngwladol.[171] Un o'r ffyrdd y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys Channel 4, yn sicrhau'r amcan hwn yw drwy roi sylw dyddiol i'r agenda newyddion sy'n newid yn gyflym. Mae lefelau gwylio a chyrhaeddiad rhaglenni newyddion Channel 4 ar benwythnosau yn dangos bod awydd am newyddion ar bob un o'r diwrnodau hyn, ac o'r herwydd, nid ydym yn credu y byddai bwlch yn y ddarpariaeth newyddion ddyddiol yn briodol i gynulleidfaoedd nac o ran cyflawni'r amcan darlledu gwasanaeth cyhoeddus.


### Mae cynulleidfa *Channel 4 News* dros y penwythnos yn denu cynulleidfa hŷn na'i allbwn arall

5.43 Mae 67% o gynulleidfa rhaglenni dros y penwythnos yn 55 oed neu'n hŷn,[172] o'i gymharu â 59% o'r gynulleidfa ar gyfer rhaglenni gyda'r nos yn ystod yr wythnos a 45% o'r gynulleidfa amser cinio. Yn ystadegol, mae'r gynulleidfa hon yn llawer llai tebygol na phobl o dan 55 oed o gael newyddion drwy gyfryngau cymdeithasol, gwefannau neu apiau eraill, ac maent yn dibynnu mwy ar newyddion ar y teledu.[173] Mae hyn yn golygu y gallai unrhyw newid yn y ddarpariaeth newyddion ar benwythnosau gael effaith anghymesur ar gynulleidfaoedd hŷn sy'n tueddu i fod â ffynonellau mwy cyfyngedig o newyddion.

---

[168] Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig, gan gynnwys Channel 4+1.
[169] Barb.
[170] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.
[171] Adran 264(6)(c) o'r Ddeddf.
[172] Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, setiau teledu yn unig, yn cynnwys Channel 4+1, unigolion 4+.
[173] Ofcom, Cael gafael ar newyddion yn y DU: 2023, tudalen 4.

**Ffigur 13: defnyddio’r prif lwyfannau ar gyfer newyddion, yn ôl oedran: 2023**




Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2023.[174]

5.44 Fe wnaethom asesu a oedd gwylwyr rhaglenni’r penwythnos yn debygol o wylio newyddion arall a ddarlledir, er mwyn deall a oeddent yn debygol o barhau i gael eu denu at newyddion a ddarlledir pe byddai darpariaeth *Channel 4 News* dros y penwythnos yn cael ei lleihau. Gwelsom fod gwylwyr cyfartalog newyddion y penwythnos wedi gwylio ychydig dros ddwywaith yn fwy o funudau o newyddion cenedlaethol/rhyngwladol ar deledu sy’n cael ei ddarlledu (ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac ar sianeli newyddion) yn 2023 Ch1 o’i gymharu â gwylwyr teledu yn gyffredinol.[175] Er ei bod yn gadarnhaol y byddai’r cynulleidfaoedd hyn yn dal i wylio newyddion pe byddai darpariaeth Channel 4 yn cael ei lleihau, rydym o’r farn bod natur unigryw *Channel 4 News* yn gwasanaethu’r cynulleidfaoedd hyn, ac y byddai gwylwyr yn gweld colli hyn o’r dirwedd newyddion gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar benwythnosau.

5.45 Mae proffil y gynulleidfa, ynghyd â chyfran wylio sylweddol y rhaglenni penwythnos hyn, wedi ein harwain i ystyried y byddai newid i leihau neu ddileu newyddion ar y penwythnosau yn cael effaith negyddol ar y gynulleidfa graidd ar gyfer y ddarpariaeth hon. Rydym yn credu ei bod yn briodol sicrhau bod newyddion dros y penwythnos yn parhau i gael ei ddarparu ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn ar Channel 4.

### Cwestiwn 6 yr Ymgynghoriad:

Ydych chi’n cytuno â’n cynnig i gadw’r gofyniad amserlennu newyddion ar benwythnosau?

Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

---

[174] Cwestiwn: C1. Pa rai o'r llwyfannau canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Sylfaen: Pob oedolyn 16+ 2023 Oedran 16-24=739, 25-34=665, 35-44=819, 45-54=724, 55-64=622, 65-74=562, 75+=423 **Mae ffigurau’r rhyngrwyd yn cynnwys defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol, podlediadau a phob gwefan/ap arall mae modd cael gafael arnynt drwy unrhyw ddyfais.

[175] Barb, 28 diwrnod wedi’i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig, yn cynnwys sianeli +1, unigolion 4+. Gwylwyr yn y 50% canol (ystodau rhyngchwartel) o bawb a wyliodd o leiaf 1 munud o newyddion Channel 4 yn gynnar gyda’r nos dros y penwythnos, pan oedd yn cael ei restru yn ôl pwysoliad gwylio, 2023 Ch1. Nid yw’r diffiniad hwn yn cynnwys y chwarter o wylwyr a oedd yn gwylio’r nifer lleiaf o funudau o’r holl newyddion yn gynnar gyda’r nos dros y penwythnos ar y sianel yn ystod y cyfnod hwnnw, a’r chwarter o wylwyr a oedd yn gwylio’r nifer mwyaf o funudau o’r darllediadau hynny.

# Materion Cyfoes

### Crynodeb o'r cynigion

**Rydym yn cynnig lleihau** nifer yr oriau o faterion cyfoes sy'n rhaid i C4C ei ddarparu ar Channel 4 ym mhob blwyddyn galendr i **ddim llai na 208 awr, i ddim llai na 178 awr.**

**Rydym yn cynnig cadw'r** amod sy'n mynnu bod C4C yn darparu dim llai nag **80 awr** o faterion cyfoes yn ystod oriau brig, sef rhwng 18:00 a 22:30.

## Gofyniad statudol

5.46 Mae Adran 279 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau yn nhrwyddedau'r sianeli gwasanaeth cyhoeddus y mae Ofcom yn ystyried sy'n briodol ar gyfer sicrhau'r canlynol:

a) bod y rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y sianel yn cynnwys rhaglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes; a
b) bod rhaglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes a gynhwysir yn y gwasanaeth o ansawdd uchel ac yn delio â materion cenedlaethol a rhyngwladol.

5.47 Mae Adran 279 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn gosod amodau sy'n briodol yn ein barn ni i sicrhau nad yw'r amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn llai na'r hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel cyfran briodol o amser sy'n cael ei neilltuo i ddarlledu pob rhaglen, a bod yr amser ar gyfer pob un yn cael ei rannu yn yr hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel dull priodol rhwng oriau gwylio brig ac adegau eraill.

5.48 Wrth osod amodau yn y drwydded sy'n ymwneud â materion cyfoes, rhaid i ni hefyd ystyried y dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus a nodir yn adran 264 y Ddeddf, yn benodol:

*bod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus (o'u hystyried gyda'i gilydd) yn darparu, i'r graddau sy'n briodol ar gyfer hwyluso dealltwriaeth ddinesig a dadl deg sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch newyddion a materion cyfoes, sylw cynhwysfawr ac awdurdodol i newyddion a materion cyfoes y Deyrnas Unedig, a'r gwahanol rannau ohoni, ac o bedwar ban byd.*[176]

## Rhwymedigaeth gyfredol

5.49 Mae trwydded gyfredol Channel 4 yn cynnwys amod sy'n datgan:

*Rhaid i'r Gorfforaeth sicrhau bod o leiaf 208 awr ym mhob blwyddyn galendr o'r Cyfnod Trwyddedu yn rhaglenni materion cyfoes sydd wedi'u cynnwys yng ngwasanaeth Channel 4 a'u bod o ansawdd uchel ac yn delio â materion cenedlaethol a rhyngwladol, a rhaid i'r 80 awr fod yn ystod Oriau Brig.*

## Cyflawni dros gyfnod y drwydded

5.50 Mae'r cwotâu presennol o isafswm o 208 awr o faterion cyfoes bob blwyddyn ac 80 awr o wylio yn ystod oriau brig wedi bod ar waith ers i Ofcom gyhoeddi trwydded gyntaf Channel 4 yn 2004. Mae C4C wedi rhagori'n gyson ar ei gwota materion cyfoes cyffredinol a'i gwota materion cyfoes brig yn ystod cyfnod y drwydded bresennol.

---

[176] Adran 264(6)(c) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

**Ffigur 14: Darpariaeth Channel 4 o'r cwotâu materion cyfoes dros gyfnod y drwydded**

| Cwota | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **208 awr** | 238 awr | 284 awr | 315 awr | 287 awr | 306 awr | 319 awr | 290.3 awr | 315.9 awr | 272.1 awr |
| **80 awr** | 143 awr | 159 awr | 171 awr | 155 awr | 174.1 awr | 184.7 awr | 183 awr | 161.8 awr | 147.6 awr |

## Cais C4C am y drwydded newydd

Yn ei gyflwyniad i Ofcom, dywedodd C4C, yn unol â'i ddyletswydd o ran cynnwys cyfryngau i wasanaethu plant hŷn ac oedolion ifanc, ei bod yn flaenoriaeth cyrraedd cynulleidfaoedd iau gyda newyddiaduraeth a materion cyfoes o ansawdd uchel.[177] Mae C4C eisoes wedi bod yn cynyddu ei fuddsoddiad mewn cynnwys materion cyfoes digidol yn gyntaf, yn bennaf drwy ei elfen newydd o newyddiaduraeth ymchwiliol, sef *Untold* , a hoffai barhau i fuddsoddi mewn cynnwys materion cyfoes digidol yn gyntaf dros gyfnod y drwydded nesaf. Roedd ei gyflwyniad yn dadlau bod comisiynu cynnwys ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn, sydd wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer dosbarthu ar-lein, yn fwy tebygol o fod yn effeithiol o ran denu cynulleidfaoedd iau ar-lein i gynnwys materion cyfoes na dim ond trosglwyddo neu ailbecynnu rhaglenni materion cyfoes traddodiadol ar-lein.[178]

Roedd cyflwyniad C4C yn nodi y byddai cynyddu faint o gynnwys materion cyfoes digidol yn gyntaf y mae'n ei gynhyrchu y tu hwnt i lefelau cyfredol yn ei gwneud yn ofynnol iddo ailddyrannu ei gyllideb materion cyfoes bresennol, gan wario cyfran o'i gyllideb ar gyfer materion cyfoes llinol (yn bennaf o'r hyn a ddyrennir i raglenni materion cyfoes sydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr) ar gomisiynau digidol.[179] Mae ei gyflwyniad yn cyfeirio at deitlau fel [wedi'i hepgor] a [wedi'i hepgor] fel y mathau o deitlau y mae'n ceisio eu lleihau, y mae C4C yn amcangyfrifo'n gyffredinol yn rhatach o lawer i'w cynhyrchu bob awr na phenodau *Untold* [wedi'i hepgor].

Gofynnodd C4C am ostwng y cwota o 208 awr i 178 awr: gostyngiad o 30 awr y flwyddyn y dywedodd y byddai'n ei alluogi i arbed tua [wedi'i hepgor] y flwyddyn i ailfuddsoddi mewn comisiynu digidol.[180] Roedd cais C4C yn cydnabod y gallai rhywfaint o gomisiynu materion cyfoes digidol hefyd fod yn briodol i'w ddarlledu ar deledu llinol, a bod ganddo rywfaint o hyblygrwydd gan ei fod yn rhagori ar y cwota presennol.

Mae C4C o'r farn y byddai'r lefel hon o ostyngiad yn ei gwota llinol yn ei alluogi i ddarparu lefel gyffredinol sy'n cyfateb yn fras i allbwn materion cyfoes ar draws ei wasanaethau, ond gyda chyfran uwch o gynnwys digidol yn unig.

[177] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[178] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[179] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[180] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.

## Ein rhesymeg

### Lleihau'r cwota 'pob awr' i ddim llai na 178 awr

#### Mae cynnwys materion cyfoes digidol yn gyntaf yn ffordd bwysig o sicrhau bod C4C yn cyflawni ei gylch gwaith ac yn denu cynulleidfaoedd ifanc

5.51 Mae gan C4C ddyletswyddau cynnwys cyfryngau i wneud "cynnwys cyfryngau perthnasol sy'n apelio at chwaeth a diddordebau plant hŷn ac oedolion ifanc" a'i fod "yn cynnwys newyddion a materion cyfoes". Yn ein Hadroddiadau Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blaenorol, rydym wedi dweud bod angen i C4C fuddsoddi mwy mewn cynnwys o ansawdd uchel ar gyfer plant hŷn ac oedolion ifanc, a'i fod yn brin o strategaeth glir ar gyfer sut y byddai'n gwasanaethu'r cynulleidfaoedd hyn.

5.52 Mewn ymateb, ac yn unol â'i strategaeth Future4, yn 2022 lansiodd C4C gyfres materion cyfoes digidol yn gyntaf, sef *Untold*, a ddangoswyd gyntaf ar Channel 4 Streaming (a enwyd wedyn yn All4). Bwriad Untold yw cryfhau ei amrywiaeth o raglenni sy'n adlewyrchu bywydau a diddordebau gwylwyr iau.

5.53 Roedd y gyfres gyntaf o *Untold* yn cynnwys deg rhaglen ddogfen a oedd yn ceisio rhoi sylw i faterion y mae pobl ifanc yn poeni amdanynt, gan gynnwys *Gay Under the Taliban* a *The Secret World of Incels.* Roedd pynciau eraill yn cynnwys *Inside the Shein Machine* a The Jesse Lingard Story, a ddarlledwyd hefyd ar brif wasanaeth Channel 4. Ers hynny, mae wedi lansio ail gyfres ac wedi adrodd bod gan y gyfres hon gyfanswm o 1.6 miliwn o wylwyr yn 2022 ar draws ei llwyfannau, gyda 45% o'r rhain yn bobl ifanc rhwng 16 a 34 oed.

5.54 Mae C4C o'r farn ei bod yn fwyfwy annhebygol y bydd cynulleidfaoedd iau yn gwylio cynnwys materion cyfoes ar sianeli teledu sy'n cael eu darlledu, ond mae llwyddiant *Untold* yn awgrymu y gall eu cyrraedd drwy gynnwys cyfoes digidol yn gyntaf o ansawdd sy'n cael ei ddosbarthu drwy Channel 4 Streaming, YouTube a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill.[181] Rydym yn cytuno â C4C y dylai anelu yn ystod cyfnod nesaf y drwydded at gynyddu faint o gynnwys materion cyfoes digidol yn gyntaf mae'n ei ddarparu, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd iau gyda newyddiaduraeth ymchwiliol o ansawdd uchel, gan barhau i gynyddu'r gwylwyr ffrydio. Rydym hefyd yn cydnabod, o ystyried ei fodel gweithredu, ei bod yn annhebygol y bydd yn gallu buddsoddi cyllideb ychwanegol sylweddol mewn materion cyfoes digidol yn ystod cyfnod nesaf y drwydded, a bod y gyfran a ddyrennir i faterion cyfoes o gyfanswm ei gyllideb yn annhebygol o newid yn sylweddol.

#### Mae C4C wedi ymrwymo i ddarparu cynnwys materion cyfoes llinol sy'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd dros gyfnod nesaf y drwydded

5.55 Dywedodd C4C yn ei gyflwyniad ei fod wedi ymrwymo i ddarparu materion cyfoes o ansawdd uchel. Dywedodd ei fod yn un o'r ychydig ddarlledwyr sy'n arbenigo mewn newyddiaduraeth ymchwiliol gyda phrif raglenni materion cyfoes yn ystod oriau brig.[182]

5.56 Ar hyn o bryd mae C4C yn darparu ei gwotâu materion cyfoes drwy amrywiaeth o raglenni, yn fwyaf arbennig ei dwy gyfres materion cyfoes sydd wedi bod yn rhedeg ers tro byd, sef *Dispatches* ac *Unreported World*. Gostyngodd ffigurau gwylio cyfartalog y ddwy gyfres y llynedd, gyda *Dispatches* yn gostwng o 641,000 yn 2021 i 505,000 yn 2022, ac *Unreported World* yn gostwng o 550,000 i 481,000, ond y ddau'n cynnal ffigurau gwylio sefydlog ymysg

[181] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[182] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.

pobl rhwng 16 a 34 oed.[183] Mae C4C yn arbrofi gyda ffyrdd newydd o gyrraedd cynulleidfaoedd gyda'i brandiau materion cyfoes traddodiadol. Ddiwedd 2022, fe wnaethon nhw lansio cyfrifon TikTok *Dispatches* ac *Unreported World*, sydd wedi cael bron i 15 miliwn o wylwyr. Mae'n cyrraedd cynulleidfaoedd hyd yn oed yn iau gyda'r cyfrifon hyn – mae 93% o gynulleidfa*Unreported World* o dan 35 oed, yn ogystal ag 88% o ddilynwyr ei gyfrif *Dispatches*. Mae 30% o gynulleidfa *Unreported World* ar TikTok o dan 17 oed.[184]

5.57 Roedd cyflwyniad C4C yn datgan petai'n gallu mynd ar drywydd mwy o fuddsoddiad mewn materion cyfoes digidol yn gyntaf, y byddai'n ceisio diogelu allbwn llinol ei brif linynnau materion cyfoes fel *Dispatches*.

## Rydym o'r farn bod lleihau'r cwota yn briodol i gefnogi strategaeth ddigidol C4C ar yr un pryd â diogelu cynnwys materion cyfoes llinol o ansawdd uchel

5.58 Yn ei gyflwyniad, amcangyfrifodd C4C y gallai'r gostyngiad hwn ei alluogi i "treblu ein hallbwn o benodau *Untold* o tua 20 pennod y flwyddyn hyd at tua 60".[185] Er bod rhai penodau o *Untold* wedi cael eu dangos wedyn ar sianel linol Channel 4, mae cyflwyniad C4C yn nodi nad yw hyn yn sicr o ddigwydd ar gyfer ei holl gynnwys materion cyfoes sy'n canolbwyntio ar ddigidol drwy gydol cyfnod nesaf y drwydded.[186] O ystyried hyn, rydym o'r farn ei bod yn briodol i ni leihau'r cwota materion cyfoes cyffredinol er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i C4C gomisiynu a darparu cynnwys materion cyfoes ar lwyfannau y mae cynulleidfaoedd iau yn fwyaf tebygol o fod yn eu gwylio.

5.59 Gwnaethom fodelu effeithiau lleihau'r cwota hwn a chytuno ag amcangyfrifon cyffredinol C4C o'r arbedion y byddai'r gostyngiad hwn yn eu cynhyrchu. O ystyried model gweithredu presennol C4C, rydym yn disgwyl y bydd unrhyw arbedion yn cael eu buddsoddi'n ôl mewn cynnwys i gefnogi ei strategaeth barhaus.[187]

5.60 Bydd ailgydbwyso ei wariant ar faterion cyfoes oddi wrth faterion cyfoes llinol sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr tuag at gomisiynu digidol yn cynyddu'r effaith y mae cynnwys materion cyfoes C4C yn ei chael ar-lein. Nid yw'r hyn y mae C4C yn ei ddisgrifio fel rhaglenni materion cyfoes sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn tueddu i berfformio'n dda gyda chynulleidfaoedd ar-alw. Mae C4C wedi dweud wrthym fod 98% o'r gwylio o ran [wedi'i hepgor] yn 2022 ar deledu llinol (dim ond 2% a gafodd ei ffrydio). Mae'r math hwn o gynnwys materion cyfoes hefyd yn llai tebygol o apelio at gynulleidfaoedd iau; dim ond 8% o'r gynulleidfa o ran [wedi'i hepgor] sydd rhwng 16 a 34 oed, ac mae 10% o'r gynulleidfa ar gyfer [wedi'i hepgor] yn y grŵp oedran hwnnw.[188]

5.61 Nid ydym yn credu y bydd newid i leihau'r cwota yn cael effaith ar unwaith ar gyfansoddiad allbwn materion cyfoes C4C. Fel y dangosir uchod, mae C4C wedi rhagori'n gyson ar ei gwota yn ystod cyfnod y drwydded hon, yn fwyaf diweddar yn 2022, o 64 awr. Yn ei gyflwyniad, roedd C4C yn cydnabod bod hyn eisoes yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd iddo symud y ddarpariaeth o fod yn llinol i fod yn ddigidol.[189] Dywedodd C4C y byddai ailddyrannu gwariant materion cyfoes yn newid graddol, gyda buddsoddiad yn symud yn raddol i gynnwys mwy digidol yn gyntaf wrth i lefelau gwylio llinol ostwng yn raddol dros gyfnod y

[183] Barb, 28 diwrnod cyfunol, drwy setiau teledu yn unig, ac Eithrio +1.
[184] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[185] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.
[186] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.
[187] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[188] Barb, 28 diwrnod cyfunol, drwy setiau teledu yn unig. Yn cynnwys Channel 4 +1. Penodau newydd yn unig.
[189] C4C yn meddwl mwy am y sefyllfa materion cyfoes, Medi 2023.

drwydded.[190] Rydym yn credu y byddai effaith gyfyngedig ar nifer y materion cyfoes ar gyfer ei gynulleidfaoedd llinol ar ddechrau'r drwydded newydd. Mae cyflwyniad C4C yn datgan pe bai'n dilyn y strategaeth hon, y byddai'n fwy tebygol o gael effeithiau amlwg ar ôl 2030. Credwn ei bod yn briodol gwneud y newid hwn nawr, er mwyn sicrhau bod C4C yn gallu ymateb i anghenion newidiol cynulleidfaoedd a datblygu a gweithredu ei strategaeth yn raddol dros y cyfnod.

### Byddwn yn dal C4C i gyfrif am ei ddarpariaeth materion cyfoes ar-lein

5.62 Mae C4C wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth i Ofcom am nifer y teitlau materion cyfoes digidol yn unig y mae'n eu darparu bob blwyddyn. Byddwn yn defnyddio ein Hadroddiad Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol i fonitro ac asesu sut mae C4C yn darparu materion cyfoes ar draws ei holl wasanaethau. Byddwn yn gofyn i C4C ddarparu gwybodaeth am nifer yr oriau o faterion cyfoes digidol y mae'n eu darparu bob blwyddyn, yn ogystal â gwybodaeth am bwy sy'n eu gwylio ac ar ba lwyfannau.

## Cadw'r cwota oriau brig

### Gwylio materion cyfoes yn y cyfnodau brig sydd â'r cyrhaeddiad mwyaf

5.63 Gwylio llinol yn ystod oriau brig sydd â'r cyrhaeddiad mwyaf o'r holl rannau o'r dydd ar Channel 4, ac ar gyfartaledd, mae materion cyfoes yn ystod oriau brig yn cyrraedd 34.5% o'i gymharu â 2.4% ar gyfer materion cyfoes yn ystod y dydd.[191] Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod cyfran sylweddol o ddarllediadau materion cyfoes C4C ar deledu llinol yn aros yn ystod oriau brig, er mwyn sicrhau ei fod yn cael yr effaith fwyaf. O'r herwydd, er ein bod yn cynnig gostyngiad yn y cwota materion cyfoes pob awr, credwn ei bod yn briodol bod y cwota ar gyfer gwylio oriau brig yn aros ar 80 awr.

**Cwestiwn 7 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i fynnu bod o leiaf 178 awr ym mhob blwyddyn galendr o'r cyfnod trwyddedu yn rhaglenni materion cyfoes sydd wedi'u cynnwys yng ngwasanaeth Channel 4 a'u bod o ansawdd uchel ac yn delio â materion cenedlaethol a rhyngwladol?

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw'r gofyniad bod rhaid i 80 awr o'r 178 awr fod yn ystod oriau gwylio brig?

Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

# Cynyrchiadau gwreiddiol

**Crynodeb o'r cynigion**

**Rydym yn cynnig mynnu bod o leiaf 45% o'r oriau** o raglenni sydd wedi'u cynnwys yn Channel 4 ym mhob blwyddyn galendr yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer y gwasanaeth, gan leihau'r gofyniad presennol o 56%.

[190] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.
[191] Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig. Rhaglenni sy'n cael eu categoreiddio fel genre Barb CCIDS: Materion cyfoes a hefyd Unreported World ar Channel 4 (ac eithrio +1.) Unigolion 4 oed a hŷn, 3 munud neu fwy yn olynol cyrhaeddiad 1 + ar draws 2022.

**Rydym yn cynnig cadw'r gofyniad bod o leiaf 70% o'r oriau** o raglenni sy'n cael eu gwylio yn ystod oriau brig yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r cyfnod brig yn cael ei ddiffinio fel rhwng 18:00 a 22:30 bob dydd.

## Gofyniad statudol

5.64 Mae trwydded Channel 4 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer darlledu 'cynhyrchiadau gwreiddiol'. Cynyrchiadau gwreiddiol yw'r rheini sy'n cael eu comisiynu gan neu ar gyfer sianel gwasanaeth cyhoeddus fel Channel 4, gyda'r bwriad o'u dangos am y tro cyntaf ar deledu yn y DU ar y sianel honno.

5.65 Mae Adran 278 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau yn nhrwyddedau'r sianeli gwasanaeth cyhoeddus y mae'n ystyried sy'n briodol ar gyfer sicrhau'r canlynol:

*a) bod yr amser sy'n cael ei neilltuo, bob blwyddyn, ar gyfer darlledu cynyrchiadau gwreiddiol sy'n cael eu cynnwys yn y sianel honno yn ddim llai na'r hyn sy'n ymddangos iddynt fel cyfran briodol o'r holl amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer darlledu'r holl raglenni sy'n cael eu cynnwys yn y sianel; a (b) bod yr amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer darlledu cynyrchiadau gwreiddiol yn cael ei rannu yn yr hyn sy'n ymddangos iddynt fel dull priodol rhwng oriau gwylio brig ac adegau eraill.*

5.66 Amcan y cwota hwn yw sicrhau bod y sianel o ansawdd uchel yn gyson.[192] Gall y sianeli ddefnyddio ailddarllediadau o'u cynnwys i gyflawni'r cwota hwn, sy'n golygu nad yw'r cwota yn gwarantu darlledu cynyrchiadau gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.

## Rhwymedigaeth gyfredol

5.67 Mae trwydded gyfredol Channel 4 yn nodi:

*Bydd o leiaf 56 y cant o oriau'r Rhaglenni sy'n cael eu cynnwys yng Ngwasanaeth Channel 4 ym mhob blwyddyn galendr yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer Gwasanaeth Channel 4, a bydd o leiaf 70 y cant o oriau'r Rhaglenni yn ystod oriau gwylio brig yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer y gwasanaeth.*

## Cyflawni dros gyfnod y drwydded

5.68 Dros gyfnod y drwydded, mae C4C wedi rhagori'n gyson yn erbyn y cwotâu cynhyrchu gwreiddiol yn ystod y cyfnod brig a'r cyfnod cyffredinol.

**Ffigur 15: Darpariaeth Channel 4 o'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol dros gyfnod y drwydded gyfredol**

| Cwota | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **56% yr holl oriau** | 63% | 65% | 65% | 62.3% | 63% | 61.8% | 59.6% | 63.9% | 63.4% |
| **70% oriau brig** | 77% | 81% | 81% | 81% | 81.4% | 83.5% | 78.4% | 80.6% | 82.2% |

[192] Deddf Cyfathrebiadau 2003, Adran 279(2).

Ffynhonnell: Ofcom/Channel 4.

5.69 Mae'r cynyrchiadau gwreiddiol a ddarperir gan C4C wedi aros yn gyson dros gyfnod y drwydded, gyda gostyngiad bach yn ystod 2020 pan gafodd llawer o gynyrchiadau eu gohirio oherwydd pandemig Covid-19.

## Cais C4C am y drwydded newydd

Yn ei gyflwyniad, cyflwynodd C4C newidiadau arfaethedig i'w strategaeth cynnwys a dosbarthu i'w helpu i sicrhau amcanion strategaeth Future4 sef trawsnewid digidol parhaus, gan ganolbwyntio ar dwf ar lwyfannau cymdeithasol a ffrydio. Gan fod C4C yn rhagweld gostyngiad yn y lefelau gwylio teledu darlledu llinol, o tua 49% o gyfanswm gwylio'r farchnad heddiw i 32% yn 2034,[193] hoffai gael mwy o hyblygrwydd yn ei amserlen yn ystod y dydd, er mwyn iddo allu parhau i ganolbwyntio ei fuddsoddiad ar gynyrchiadau gwreiddiol yn ystod oriau gwylio brig. Byddai cwota cynyrchiadau gwreiddiol is yn ei alluogi i ailddyrannu'r gyllideb o gynyrchiadau gwreiddiol yn ystod y dydd i gynnwys oriau brig sy'n cael mwy o effaith ac sydd hefyd yn perfformio'n dda ar Channel 4 Streaming. Dywedodd: *Ein bwriad yw sicrhau mwy o hyblygrwydd yn yr amserlen yn ystod y dydd, er mwyn i ni allu parhau i ganolbwyntio ein buddsoddiad ar gynyrchiadau gwreiddiol yn ystod oriau brig. Gan ein bod yn gweithio o fewn cyfyngiadau cyllideb benodol, mae ailddyrannu gwariant ar raglenni gwreiddiol yn ystod y dydd yn caniatáu i ni ganolbwyntio ar yr amserlen oriau brig, lle mae ein strategaeth gomisiynu yn cael ei gwyro tuag at genres sy'n fwy addas ar gyfer ffrydio – ee drama, comedi, rhaglenni ffeithiol premiwm a realiti. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn genres â thariff uwch, ond mae ganddynt 'gynffon hirach' wrth lywio lefelau gwylio fideo ar-alw ac, oherwydd hyn, maent yn apelio at gynulleidfaoedd ar ôl y cyfnod traddodiadol hwnnw rhwng 0 a 7 diwrnod. Gobeithio y bydd y cynnwys hwn yn sicrhau iechyd a chynaliadwyedd hirdymor ein llwyfan ffrydio.*[194]

Nododd C4C y byddai unrhyw newidiadau sylweddol i'r amserlen yn ystod y dydd yn annhebygol o ddigwydd cyn 2030 ac na fyddai'n digwydd oni bai ei fod yn gwneud synnwyr masnachol, er enghraifft pe bai cynulleidfaoedd i deledu llinol yn ystod y dydd yn dirywio'n sylweddol.

Yn ei gyflwyniad, gofynnodd C4C am ostyngiad yn y cwota cynyrchiadau gwreiddiol o'r 56% presennol i rhwng 40 a 45%. Nododd senario posibl lle gallai newid proffil yr amserlen yn ystod y dydd (6am i 6pm) yn y dyfodol, gan leihau cynyrchiadau gwreiddiol yn gyffredinol o ddwy ran o dair a haneru cynyrchiadau gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf. Yn lle cynyrchiadau gwreiddiol, dywedodd y byddai'n llenwi'r amserlen â rhaglenni wedi'u prynu. Ar sail ffigurau ar gyfer 2022, amcangyfrifodd y gallai hyn ddarparu hyd at [wedi'i hepgor] iddo ailfuddsoddi mewn rhaglenni sy'n cael mwy o effaith a fyddai'n gweithio ar draws oriau brig ac ar-alw. Fe wnaethom ddefnyddio'r senario enghreifftiol hwn i asesu effeithiau posibl lleihau'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol.

[193] Gwylio'n fyw a PVR. Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[194] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.

# Ein rhesymeg

## Lleihau'r cwota 'bob awr' i 45%

### Mae cynyrchiadau gwreiddiol yn greiddiol i ddarpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus Channel 4

5.70 Yn ein hadolygiad pum mlynedd diwethaf o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, nodwyd bod rhaglenni gwreiddiol wedi'u gwneud yn y DU yn dal yn ganolog i gyflawni'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[195] Fel rhan o'i ddyletswyddau o ran cynnwys cyfryngau, mae'n rhaid i C4C wneud ystod eang o gynnwys o safon sy'n apelio at chwaethau a diddordebau cymdeithas sy'n amrywiol yn ddiwylliannol. Mae buddsoddiad C4C mewn cynyrchiadau gwreiddiol yn ganolog i'r gwaith o gyflawni'r ddyletswydd hon a sefydlu ei hunaniaeth brand ymysg cynulleidfaoedd.

5.71 Cafodd hyn ei adlewyrchu yn ymchwil Jigsaw, a ganfu fod y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd yn teimlo ei bod yn bwysig bod Channel 4 yn hyrwyddo amrywiaeth y DU drwy gynnwys Prydeinig dilys. Roedd llawer yn teimlo bod Channel 4 yn gwneud hyn yn dda, drwy ddarparu cynnwys a oedd yn portreadu bywyd ym Mhrydain a chynhyrchu rhaglenni sy'n adlewyrchu teimladau ac agweddau Prydeinig.[196]

> ***O'i gymharu â Netflix, mae Channel 4 yn teimlo'n berthnasol iawn i gynulleidfaoedd Prydeinig ac wedi'i deilwra i sgyrsiau y byddai cynulleidfa Brydeinig yn eu cael, ond nid yw Netflix wir yn gwneud hynny. Mae Channel 4 yn ymdrin â phynciau sy'n berthnasol iawn i'r DU neu enwogion arbenigol sy'n fwy adnabyddus yma.***[197]
>
> (Benyw, Caerdydd, 35-54, ABC1, Defnyddiwr Cyson C4C)


5.72 Er bod gostyngiad yn y cwota cynyrchiadau gwreiddiol yn 2010 o 60% i 56%, dros gyfnod y drwydded bresennol, mae C4C wedi parhau i fuddsoddi mewn cynyrchiadau gwreiddiol ac wedi rhagori ar ei gwota. Mae cyflwyniad C4C yn cydnabod bod Channel 4 yn cyflawni ei gylch gwaith yn bennaf drwy'r cynnwys gwreiddiol y mae'n ei gomisiynu ac yn buddsoddi ynddo.[198]

5.73 Er gwaethaf heriau macro-economaidd, gan gynnwys gostyngiad yn y farchnad hysbysebu llinol a chwyddiant yng nghostau cynhyrchu dros y blynyddoedd diwethaf, cofnododd C4C ei fuddsoddiad mwyaf erioed mewn cynnwys gwreiddiol yn 2022 (£570m).[199] Dywedodd C4C yn ei Adroddiad Blynyddol mai dyma'r tro cyntaf i'w fuddsoddiad fod dros £500m ers 2017. Roedd y rhan fwyaf o'r gwariant ar gynnwys gwreiddiol ar y brif sianel (sy'n cyfrif am 87% o'r cyfanswm) a chynyddodd y gwariant 13% i £494m.[200]

---

[195] Ofcom, Argymhellion i Lywodraeth y DU ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, Gorffennaf 2021, t. 19.
[196] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 28.
[197] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 36.
[198] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[199] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 94
[200] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 94


**Ffigur 16: Gwariant ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ar Channel 4 (£m): 2014-2022**




Ffynhonnell: Ofcom/Channel 4.

5.74 Gyda'r buddsoddiad hwn, mae Channel 4 wedi darparu nifer gymharol gyson o gynyrchiadau gwreiddiol[201] sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ers 2014, ar draws amrywiaeth eang o genres, fel y dangosir yn Ffigur 17 isod, gyda'r genre ffeithiol cyffredinol yn cyfrif am y gyfran fwyaf.

**Ffigur 17: Oriau o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ar Channel 4, yn ôl genre: 2014-2022**




Ffynhonnell: Ofcom/Channel 4.

[201] Mae cynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf yn cyfeirio at raglenni a gomisiynir gan sianel, neu ar ei chyfer, gyda'r bwriad o'u dangos am y tro cyntaf ar deledu yn y DU yn y flwyddyn gyfeirio.

5.75 Mae cyflwyniad C4C yn datgan y bydd yn parhau i fuddsoddi mewn amrywiaeth eang o gynnwys gwreiddiol o'r DU yn ystod cyfnod y drwydded nesaf, sy'n cyflawni ein cylch gwaith drwy gynrychioli'r DU gyfan, gan herio gyda phwrpas a bod yn greadigol arloesol.[202] Mae wedi dweud mai rhan allweddol o'i strategaeth yw cael portffolio amrywiol o gomisiynau, gan gyfuno genres sy'n fasnachol heriol â rhaglenni proffidiol. Mae hyn yn caniatáu iddo *ailfuddsoddi ein gwarged ariannol yn ôl mewn cynnwys gwreiddiol ac arloesi digidol drwy ein strategaeth Future4 ac mae'n sicrhau perthnasedd a chyrhaeddiad parhaus ein cylch gwaith.*[203] Mae C4C wedi dweud wrthym ei fod yn rhagweld y bydd ei fuddsoddiad mewn cynnwys ar draws ei holl wasanaethau yn cynyddu dros gyfnod y drwydded nesaf i dros [wedi'i hepgor], gan ddangos ei ymrwymiad i fuddsoddi mewn rhaglenni newydd, unigryw.[204]

## Mae rhaglenni oriau brig yn cyfrannu mwy at strategaeth ffrydio C4C na rhaglenni yn ystod y dydd

5.76 Ar hyn o bryd, cynyrchiadau tariff is yw cynyrchiadau gwreiddiol yn yr amserlen yn ystod y dydd ar Channel 4, sy'n tueddu i ddenu llai o gynulleidfa, yn enwedig ar BVoD. Yn 2022, roedd cost gyfartalog y cynyrchiadau gwreiddiol a oedd yn cael eu darlledu am y tro cyntaf yn ystod y dydd ar Channel 4 yn [wedi'i hepgor], o gymharu â [wedi'i hepgor] ar gyfer cynnwys newydd yn ystod oriau gwylio brig.[205] Roedd cyflwyniad C4C yn nodi, yn gyffredinol, mai dim ond 3% o'r cynyrchiadau gwreiddiol yn ystod y dydd a wylwyd yn 2023 oedd wedi cael ei ffrydio, tra bod 13% o'r rhaglenni 9pm a wylwyd ar Channel 4 eleni wedi cael ei ffrydio.[206]

**Ffigur 18: Cyfran y darlledu llinol o'i gymharu â gwylio sy'n cael ei ffrydio (ar-alw a ffrydio byw ar Channel 4 Streaming) wedi'i rhannu ar gyfer rhaglenni Channel 4, yn ôl rhan o'r dydd**

| Slot y rhaglen (dyddiau'r wythnos yn unig) | Rhan o'r dydd | Ffrydio | Byw a PVR |
|---|---|---|---|
| **Prynwyd o UDA** | 07:00 – 09:59 | 2% | 98% |
| **Ailddarlledu C4C** | 10:00 – 11:59 | 1% | 99% |
| **Darlledu am y tro cyntaf yn ystod y dydd ac ailddarlledu rhai rhaglenni C4C** | 12:00 – 17:59 | 3% | 97% |
| **The Simpsons a Hollyoaks (oriau brig)** | 18:00 – 18:59 | 4% | 96% |
| **Newyddion (oriau brig)** | 19:00 – 19:59 | 1% | 99% |
| **Rhaglenni ffordd o fyw (oriau brig)** | 20:00 – 20:59 | 4% | 96% |
| **Rhaglenni brig (oriau brig)** | 21:00 – 21:59 | 13% | 87% |
| **Comedi / rhaglenni dogfen (oriau brig tan 22:30)** | 22:00 – 22:59 | 12% | 88% |

[202] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[203] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[204] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[205] Ofcom/Channel 4.
[206] Barb, Ffenestr 7 Diwrnod Wedi'i Gyfuno, Ionawr-Mai 2023 (dyddiau'r wythnos yn unig), o Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023, t. 8.

Ffynhonnell: Ffenestr 7 diwrnod wedi'i gyfuno, Ionawr-Mai 2023, Barb - o Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023, t. 9.

5.77 Mae tystiolaeth o ddata Barb yn dangos bod comisiynau tariff uwch yn ystod oriau brig yn fwyaf llwyddiannus o ran denu mwy o gynulleidfa ar Channel 4 Streaming. Mae rhai comisiynau yn ystod y dydd yn boblogaidd ar y gwasanaeth ffrydio, er eu bod yn dal yn llai poblogaidd ar y cyfan na rhaglenni oriau brig tariff uchel. Mae'r cynyrchiadau gwreiddiol y mae Channel 4 yn eu darlledu yn ystod y dydd yn rhaglenni adloniant ysgafn a rhaglenni ffordd o fyw tariff isel yn bennaf, nad ydynt o reidrwydd yn cyfrannu'n sylweddol at ei gylch gwaith i ddarparu amrywiaeth eang o raglenni amrywiol o safon sy'n dangos arloesedd, arbrofi a chreadigrwydd, er eu bod yn gallu cael effaith gadarnhaol ar gynhyrchu y tu allan i Lundain. Mae C4C eisoes yn canolbwyntio ar ddarparu ei gynnwys mwyaf unigryw ac arloesol yn ystod oriau gwylio brig, lle gall gael yr effaith fwyaf. Fodd bynnag, roedd cyflwyniad C4C yn nodi y byddai'r comisiynau yn ystod y dydd y byddai'n parhau i'w darlledu yn ceisio gwasanaethu'r cynulleidfaoedd sy'n dal i wylio ar deledu llinol, ond y byddent yn fath o raglenni a fyddai hefyd yn addas i Channel 4 Streaming. Roedd yn rhoi enghreifftiau fel [wedi'i hepgor], [wedi'i hepgor] a [wedi'i hepgor].[207]

5.78 Ar hyn o bryd, mae gan Channel 4 gyfran gymharol fach o gynulleidfaoedd yn ystod y dydd sef 4.7%, i lawr 0.6% o gymharu â chyfnod y drwydded ddiwethaf, tra bo prif wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill wedi denu mwy o gynulleidfaoedd.[208] Ar yr un pryd, mae Channel 4 wedi gweld cynnydd bach yng nghyfran y gynulleidfa yn ystod oriau brig. O ystyried bod cynulleidfa Channel 4 yn ystod y dydd yn gymharol fach ac, os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, yn debygol o ostwng ymhellach, credwn fod lleihau nifer y cynyrchiadau gwreiddiol yn ystod y dydd yn annhebygol o gael effaith negyddol sylweddol ar gynulleidfaoedd.

### Mae C4C yn credu y bydd angen iddo newid proffil ei gomisiynu i gyflawni ei drawsnewidiad digidol.

5.79 Canfu ymchwil Jigsaw fod cynulleidfaoedd yn teimlo bod Channel 4 Streaming yn dibynnu'n ormodol ar raglenni hirsefydlog. Roedd y sioeau hyn yn aml yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ond gallai wneud i'r arlwy deimlo'n debyg a golygu bod C4C yn agored i'r feirniadaeth nad oedd digon o gynnwys newydd.[209] Mae'r data sydd gennym ar ddarllediadau Channel 4 yn dangos bod tua 65% o'r oriau gwreiddiol yn 2022 yn gyfresi sy'n dychwelyd.

> **Mae Channel 4 yn gymysgedd o'r da a'r drwg yn fy marn i. Dwi naill ai'n hoffi popeth neu ddim byd. Y rhaglenni sy'n sefyll allan yw Big Breakfast, 24 Hours in Police Custody ac mae yna raglenni dwi wedi'u gwylio a'u mwynhau'n fawr yn y gorffennol... pethau fel The Handmaid's Tale, Married at First Sight ond wedyn does dim llawer mwy...**[210]

---


[207] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.
[208] Dros gyfnod y drwydded ddiwethaf, mae Channel 4 wedi gweld colled o 0.6 pwynt canran yn ei gyfran gwylio yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos. Channel 5 oedd yr unig wasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus arall a welodd ostyngiad, o 0.3 pwynt canran. Cynyddodd ITV1 3.1 pwynt canran, BBC One 1.8 pwynt canran a BBC Two 1.2 pwynt canran. Mae hyn yn cymharu â chynnydd yn y gyfran gwylio ar Channel 4 o 6.1% i 6.5% ar gyfer gwylio gyda'r nos, a chynnydd o 7.5% i 7.9% ar gyfer gwylio rhwng 21:00-22:59, sef lle mae C4C yn canolbwyntio llawer o'i gynyrchiadau gwreiddiol effaith uchel. Ffynhonnell: Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig, gan gynnwys sianeli +1. Unigolion 4 oed a hŷn, yn ystod yr wythnos 0900-1759, drwy'r wythnos 1800-2229 a thrwy'r wythnos 2100-2259.
[209] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 27.
[210] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 28.

(Benyw, Leeds, 35-54, C2DE, defnyddiwr canolig C4C)

5.80 Roedd ymchwil Jigsaw hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod cynulleidfaoedd yn dweud i raddau helaeth eu bod yn defnyddio Channel 4 Streaming i ddal i fyny ar deledu darlledu llinol yn hytrach na fel cyrchfan i ddod o hyd i gynnwys newydd, fel y maent yn ei wneud gyda SVoDs.[211] Ategir y canfyddiad hwn gan wybodaeth gan Ampere Analysis am y farchnad BVoD yn ei chyfanrwydd.[212]

5.81 Er bod modd cymharu cyrhaeddiad llwyfannau BVoD a SVoD yn gyffredinol, mae'r data'n dangos bod cynulleidfaoedd yn treulio tua hanner cymaint o amser gyda gwasanaethau BVoD. Gallai hyn, yn rhannol, fod oherwydd nad yw'r gwasanaethau BVoD wedi'u gwahaniaethu'n ddigonol oddi wrth arlwy llinol darlledwyr gan nad oes ganddynt lawer o gynnwys newydd ac unigryw. Heb hyn, efallai na fydd cynulleidfaoedd nad ydynt eisoes yn defnyddio sianeli llinol darlledwr yn cael eu cymell i ddefnyddio'r gwasanaeth BVoD.

**Ffigur 19: Cyfran o wylio digidol yn y DU yn ôl math o wasanaeth: 2017-2023 (% wedi'u hunangofnodi)**





Ffynhonnell: Ampere Analysis (wedi'i atgynhyrchu gan Ofcom). Mae 'fideo ar-lein am ddim' yn cyfeirio at YouTube a fideos cymdeithasol arall.

5.82 Mae gwasanaethau BVoD hefyd yn wahanol i SVoDs o ran y math o gynnwys sy'n cael ei gynnig. Mae catalogau BVoD yn gwyro tuag at raglenni heb eu sgriptio. Mae hyn yn cyflwyno dau fater allweddol i C4C: yn gyntaf, nid oes gan raglenni heb eu sgriptio 'gynffon hir' fel arfer o gymharu â chynnwys wedi'i sgriptio, felly mae cynulleidfaoedd yn llai tebygol o chwilio amdanynt ymhell ar ôl iddynt gael eu darlledu neu eu lanlwytho gyntaf. Yn ail, mae cynulleidfaoedd iau yn gwylio mwy o raglenni wedi'u sgriptio na rhaglenni heb eu sgriptio, felly maen nhw'n tueddu i gael eu denu at SVoDs sydd â chatalogau mawr o gynnwys wedi'i sgriptio.[213] Mae Ffigur 20 yn dangos bod 79% o gatalog Netflix a 75% o gatalog Amazon Prime Video wedi'i sgriptio; o gymharu â dim ond 31% o gatalog Channel 4 Streaming.

[211] Jigsaw, ymchwil Aildrwyddedu Corfforaeth Channel 4, Tachwedd 2023, t. 19.
[212] Ampere Analysis, Datblygiadau ym marchnad cyfryngau'r DU - teledu darlledu, ffrydio a gemau, Medi 2023.
[213] Ampere Analysis, Datblygiadau ym marchnad cyfryngau'r DU - teledu darlledu, ffrydio a gemau, Medi 2023.

**Ffigur 20: Cyfanswm oriau cynnwys y catalog (000oedd) a'r gyfran sydd wedi'i sgriptio (%): Medi 2023**




Ffynhonnell: Ampere Analysis (wedi'i atgynhyrchu gan Ofcom).

5.83 Yn ein Hadroddiadau SMCP diweddar, rydym wedi bod yn glir ein bod yn cefnogi strategaeth Future4 C4C, ac y dylai barhau i ganolbwyntio ar hyn er mwyn bod yn berthnasol ymysg ei gynulleidfaoedd craidd a chefnogi ei gynaliadwyedd yn y dyfodol.[214] Dros gyfnod y drwydded nesaf, mae'n debygol y bydd y tueddiadau sy'n sail i Future4 yn parhau i ddatblygu. Mae C4C yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'i refeniw, erbyn diwedd cyfnod y drwydded nesaf, yn dod o hysbysebu digidol a ffynonellau nad ydynt yn ymwneud â hysbysebu, ac y bydd disgwyl i hysbysebion digidol gynnwys y rhan fwyaf o'i refeniw.[215] Rydym yn credu, er mwyn cyflawni ei gylch gwaith a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau yn llwyddiannus yn y dyfodol, y bydd angen i C4C ddarparu cynnwys gwreiddiol o safon ar draws amrywiaeth o genres sy'n gweithio'n dda mewn cyd-destun ar-alw.

5.84 Er mwyn denu cynulleidfaoedd iau i'w lwyfan ffrydio, i ffwrdd o SVoDs, efallai y bydd angen i C4C gysoni ei ddarpariaeth ffrydio'n agosach â disgwyliadau'r gynulleidfa hon drwy ddarparu mwy o raglenni newydd effaith uchel wedi'u sgriptio sy'n unigryw i Channel 4 Streaming. Dywedodd C4C yn ei gyflwyniad pe bai'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol yn lleihau yn ôl ei gais, y byddai'r gyllideb wedi'i hailddyrannu o gynyrchiadau yn ystod y dydd yn cael ei rhannu rhwng genres effaith uchel gan gynnwys genres wedi'u sgriptio fel comedi a drama.[216] Dywedodd efallai na fydd yn gallu buddsoddi'n llawn yn y math o gynnwys effaith uchel sydd wedi'i ddylunio i ddenu cynulleidfaoedd ar ei lwyfan BVoD heb ailddyrannu gwariant o fannau eraill yn y ffordd hon.[217] Rydym o'r farn ei bod yn briodol i C4C flaenoriaethu buddsoddiad mewn cynnwys effaith uchel o'r fath cyn cynnal yr un lefel o gynyrchiadau gwreiddiol o fewn ei amserlen yn ystod y dydd, lle mae cynyrchiadau gwreiddiol â gwerth is yn cael llai o effaith. Gwnaethom fodelu effaith strategaeth gomisiynu bosibl C4C a chytuno ag amcangyfrifon bras C4C o'r cronfeydd y gallai eu buddsoddi mewn cynnwys effaith uchel, pe bai'n gwneud y newidiadau hyn. Felly, credwn fod cyfle i gefnogi

[214] Ofcom, Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ar ei Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2022, t. 3.
[215] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[216] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.
[217] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.

strategaeth ddigidol C4C drwy leihau cwota cynyrchiadau gwreiddiol cyffredinol Channel 4 yn ystod cyfnod y drwydded nesaf.

### Byddai gallu addasu mwy rhwng ailddarllediadau a rhaglenni sy'n cael eu prynu yn ystod y dydd yn galluogi C4C i sicrhau'r cydbwysedd sy'n gweithio orau i'w gynulleidfaoedd yn ystod y dydd

5.85 Fel y nodir ym mharagraff 5.66, gallai C4C ddarparu ei gwota o gynyrchiadau gwreiddiol gan ddefnyddio ailddarllediadau o'i gynnwys gwreiddiol. Mae hyn yn golygu pe byddem yn cadw'r cwota yn 56%, efallai y byddai C4C yn dal yn gallu ailgyfeirio cyfran o'r gwariant ar gynnwys i ffwrdd o gynyrchiadau yn ystod y dydd. Fodd bynnag, yn y senario hwn, er mwyn parhau i fodloni'r cwota presennol o 56%, dywed C4C y byddai angen iddo gynyddu nifer yr ailddarllediadau yn ystod y dydd yn sylweddol.

5.86 Awgrymodd C4C y gall ailddarlledu cynyrchiadau gwreiddiol arwain at flinder cynulleidfaoedd yn gynt na rhaglenni sy'n cael eu prynu ac felly gall danseilio apêl cyfresi newydd sy'n dychwelyd sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf. Fe wnaethom edrych ar gyfran y gwylwyr ar gyfer y rhannau o'r dydd a restrir yn Ffigur 18 uchod i ddeall a oedd rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu yn perfformio'n waeth na rhaglenni sy'n cael eu prynu o fewn amserlen Channel 4 yn ystod y dydd. Gwelsom mai'r rhan o'r dydd rhwng 10:00 ac 11:59, lle mae Channel 4 yn dangos ailddarllediadau i raddau helaeth, yw'r perfformiad gwaethaf o'r holl rannau o'r dydd. O 2014-2022, collodd y rhan honno o'r dydd gyfran o'r gwylio, o 3.4% i 2.7%. Fe wnaethom hefyd edrych ar 09:00–09:59, pan mae C4C yn dangos rhaglenni wedi'u prynu o'r Unol Daleithiau ar Channel 4, ac roedd y rhan hon o'r dydd wedi cadw ei chyfran o 4% rhwng 2014 a 2022. Er nad oes modd cymharu gwahanol rannau o'r dydd yn uniongyrchol, mae'r data hwn yn cefnogi damcaniaeth C4C bod gan gynulleidfaoedd lai o ddiddordeb mewn ailddarllediadau.[218]

### Rydym wedi ystyried pa mor briodol yw gwahanol lefelau cwota

5.87 Mae'n amlwg y bydd angen i C4C fuddsoddi'n sylweddol mewn cynnwys effaith uchel newydd sy'n gweithio ar ei wasanaeth ffrydio er mwyn cyflawni ei strategaeth ddigidol yn llwyddiannus. O ganlyniad i hyn, mae'n debygol y bydd angen iddo leihau gwariant ar gynnwys mewn mannau eraill, yn benodol ar gynnwys gwreiddiol yn ystod y dydd. O ystyried y gynulleidfa gymharol fach yn ystod y dydd a'r perfformiad o ran ailddarllediadau, nid ydym yn credu y bydd hyn yn cael effaith negyddol sylweddol ar gynulleidfaoedd.

5.88 Oherwydd hyn, rydym yn cytuno â dadl C4C ei bod yn briodol lleihau'r cwota. Wrth gynnig newid i'r amod hwn, rydym yn ceisio dod o hyd i gydbwysedd priodol rhwng cefnogi strategaeth ddigidol C4C a sicrhau bod yr amserlen yn ystod y dydd yn dal i gadw cyfran o gynnwys gwreiddiol o'r DU ac yn darparu gwerth i'r cynulleidfaoedd sy'n ei wylio.

5.89 Roedd cyflwyniad C4C yn gofyn am ostyngiad o rhwng 40% a 45%. Byddai gosod lefel uwch na'r lefel y gofynnwyd amdani gan C4C, ond yn is na lefel bresennol y cwota; er enghraifft 50%, yn golygu bod perygl na fyddai modd cyflawni'r manteision hyblygrwydd i ailgydbwyso gwariant ar gynnwys effaith uwch ac i sicrhau'r cydbwysedd rhwng ailddarllediadau a rhaglenni sy'n cael eu prynu sy'n gweithio orau i gynulleidfa Channel 4 yn ystod y dydd. Ar yr un pryd, credwn y gallai'r gostyngiad mwyaf i'r cwota a gynigir gan C4C, sef 40%, roi ansawdd y gwasanaeth yn y fantol a dechrau effeithio ar gymeriad a hynodrwydd y sianel. Er nad oes modd mesur cymeriad y sianel, rydym yn gwybod bod cynnwys gwreiddiol o Brydain

[218] Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, drwy setiau teledu yn unig. Yn cynnwys sianeli +1 ac unigolion 4 oed a hŷn.

yn helpu i wneud Channel 4 yn unigryw i gynulleidfaoedd.[219] At ei gilydd, rydym o'r farn y byddai lleihau'r cwota i derfyn uchaf C4C o 45% yn briodol. Byddai cwota o 45% yn galluogi C4C i ganolbwyntio buddsoddiad ar gynnwys brig gwerth uwch, ac i bennu dosbarthiad ailddarllediadau a rhaglenni sy'n cael eu prynu, i sicrhau bod Channel 4 yn parhau i fod yn unigryw ac o safon sy'n gyson uchel.

5.90 Wrth gynnig 45%, rydym yn cydnabod bod hyn, dros amser, yn debygol o arwain at lefel uwch o raglenni'n cael eu prynu ar yr amserlen yn ystod y dydd. Nid ydym yn rhagweld unrhyw newidiadau sylweddol dros nos ond yn hytrach newid graddol yn ystod ail hanner cyfnod y drwydded wrth i C4C wneud newidiadau i'r math o gynnwys y mae'n buddsoddi ynddo. Drwy gynnig lleihau'r cwota nawr, rydym yn bwriadu rhoi'r gallu i C4C wneud y newid hwn ar adeg sy'n briodol iddo ef.

5.91 Mae Ofcom yn casglu data gwariant ac oriau blynyddol o ran sut mae C4C yn cyflawni cynyrchiadau gwreiddiol ar Channel 4 a'i bortffolio ehangach o sianeli darlledu. Byddwn yn defnyddio ein Hadroddiad SMCP i adolygu buddsoddiad C4C mewn cynnwys gwreiddiol a monitro a yw C4C, pan fydd yn dechrau symud gwariant oddi wrth yr amserlen yn ystod y dydd, yn cyflawni'r strategaeth y mae wedi'i nodi; sef ailfuddsoddi'r gwariant hwnnw mewn cynnwys effaith uchel. Byddwn hefyd yn ystyried a yw C4C yn darparu amrywiaeth o genres yn effeithiol, yn unol â'i gylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yng nghyd-destun cynhyrchu nifer lai o raglenni effaith uwch.

## Cadw 70% o gynyrchiadau gwreiddiol yn ystod oriau brig

### Credwn y dylai amserlen oriau brig C4C barhau i ganolbwyntio ar gynyrchiadau gwreiddiol

5.92 Mae ein gostyngiad arfaethedig yn y cwota cynyrchiadau gwreiddiol cyffredinol yn cydnabod bod angen i C4C ganolbwyntio ei wariant ar gynnwys ar y genres a'r mathau o gynnwys sy'n cael yr effaith fwyaf ar draws oriau brig a'i wasanaeth ffrydio.

5.93 Oriau brig ar Channel 4 (6pm – 10.30pm) yw'r amser mwyaf poblogaidd i gynulleidfaoedd wylio'r sianel, felly mae rhaglenni sy'n cael eu darlledu yn y ffenestr hon yn debygol o gael yr effaith a'r cyrhaeddiad mwyaf. Yn 2022, roedd nifer gyfartalog y bobl a oedd yn gwylio Channel 4 ar gyfer pob hanner awr cyn 6pm yn llai na 0.6 miliwn. O 6pm, cynyddodd lefelau gwylio'n raddol tan ei lefel uchaf rhwng 9pm a 9:30pm, gydag 1.7 miliwn yn gwylio ar gyfartaledd. Yna, disgynnodd yn raddol i lai na 0.7 miliwn ar ôl 10:30pm.[220]

5.94 Mae C4C wedi sicrhau bod cyfran yr oriau sy'n cael eu llenwi gan gynyrchiadau gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn ystod oriau brig wedi aros yn sefydlog ar tua 70% dros y cyfnod. Ni ofynnodd C4C i'r cwota oriau brig, sef 70%, gael ei newid. Rydym yn dal i gredu, yn y cyd-destun llinol, mai yn ystod oriau brig y bydd cynyrchiadau gwreiddiol Channel 4 yn cael yr effaith fwyaf ac yn denu'r cynulleidfaoedd mwyaf drwy gydol cyfnod y drwydded nesaf. Credwn fod y cwota presennol o 70% ar gyfer oriau brig yn dal yn briodol i sicrhau bod Channel 4 yn cadw ei hunaniaeth a'i gymeriad unigryw.

**Cwestiwn 8 yr Ymgynghoriad:**

A ydych yn cytuno â'n cynnig i fynnu:

[219] Gweler paragraff 5.71.
[220] Data 28 diwrnod wedi'i gyfuno Barb, setiau teledu yn unig.

a) bod o leiaf 45% o'r oriau o raglenni sydd wedi'u cynnwys yn Channel 4 ym mhob blwyddyn galendr yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer y gwasanaeth; a

b) bod o leiaf 70% o'r oriau o raglenni sy'n cael eu gwylio yn ystod oriau brig yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer Channel 4?

Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich barn.

# Cynyrchiadau'r gwledydd a'r rhanbarthau

### Cynigion ar gyfer ymgynghori

**Rydym yn cynnig cadw'r cwotâu cynhyrchu rhanbarthol ar 35% o'r oriau a'r gwariant.** Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i o leiaf 35% o'r oriau o raglenni ym mhob blwyddyn galendr sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar Channel 4 gael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25, a bod yn rhaid i o leiaf 35% o'r gwariant ar raglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar y gwasanaeth gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25 a defnyddio amrywiaeth o ganolfannau cynhyrchu.

**Rydym hefyd yn cynnig cadw'r cwota 'gwnaed y tu allan i Loegr' ar 9% o oriau a gwariant,** sy'n golygu bod yn rhaid i C4C sicrhau bod o leiaf 9% o'r oriau o raglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar Channel 4 yn cael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr mewn unrhyw flwyddyn galendr, a bod o leiaf 9% o wariant C4C ar raglenni sy'n cael eu creu yn y DU i'w gwylio ar y gwasanaeth yn cael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni y tu allan i Loegr, mewn canolfannau cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Y cefndir statudol

5.95 Mae Adran 264 y Ddeddf yn dweud y dylai gwasanaethau darlledu cyhoeddus, gyda'i gilydd, cyn belled â'u bod yn cynnwys rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig, gynnwys yr hyn sy'n ymddangos i OFCOM i fod yn amrywiaeth ac yn gyfran briodol o raglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i ardal yr M25.[221] Mae hefyd yn dweud eu bod yn cynnwys yr hyn sy'n ymddangos i OFCOM fel nifer ddigonol o raglenni sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon cymunedau a buddiannau a thraddodiadau diwylliannol gwahanol yn y Deyrnas Unedig, ac yn lleol mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig.[222] Rydym o'r farn bod cynhyrchu rhaglenni ar draws y DU yn cyfrannu at gyflawni'r amcan hwn.

5.96 Mae Adran 288 y Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn gosod yr amodau sy'n briodol yn ein barn ni ar gyfer sicrhau bod C4C yn gwneud cyfran addas o raglenni ar gyfer gwasanaeth Channel 4 y tu allan i'r M25, bod y rhain yn cynnwys ystod addas o raglenni a bod cyfran addas o'r gwariant yn cael ei wario ar gynhyrchu'r rhaglenni hyn mewn amrywiaeth addas o ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.

5.97 Yn 2019 cyhoeddom ganllawiau wedi'u diweddaru ar y meini prawf ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol. Roedd yn nodi, er mwyn cyfrannu at y cwota cynhyrchu rhanbarthol fesul awr, bod rhaid i gynyrchiadau perthnasol fodloni dau o'r tri maen prawf canlynol:

i) Canolfan sylweddol y tu allan i'r M25.

ii) O leiaf 70% o gyfanswm y gwariant cynhyrchu y tu allan i'r M25.

[221] Adran 264 (6)(j)

[222] Adran 264 (6)(i)

iii) Man cyflogaeth arferol o leiaf 50% o'r talentau cynhyrchu, yn ôl y gost, y tu allan i'r M25.

5.98 Mae'r cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn berthnasol i raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y DU yn unig, ac nid ydynt yn berthnasol i raglenni newyddion. Nid yw'r cwotâu hefyd yn berthnasol i gynnwys sy'n cael ei hunan-hyrwyddo na rhaglenni sy'n cael eu prynu.

## Rhwymedigaeth gyfredol

5.99 Mae trwydded Channel 4 yn nodi:

*Rhaid i'r Gorfforaeth sicrhau bod o leiaf 35 y cant o oriau'r Rhaglenni a wneir yn y DU i'w gwylio ar Wasanaeth Channel 4 yn cael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25 ym mhob blwyddyn galendr.*

*Rhaid i'r Gorfforaeth sicrhau bod o leiaf 35 y cant o'i gwariant ar Raglenni a wneir yn y DU i'w gwylio ar Wasanaeth Channel 4 mewn unrhyw flwyddyn galendr yn cael ei ddyrannu i gynhyrchu Rhaglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25 a rhaid ei briodoli i gynhyrchu Rhaglenni mewn amrywiaeth o ganolfannau cynhyrchu.*

*O 1 Ionawr 2020 ymlaen, bydd y Gorfforaeth yn sicrhau bod o leiaf 9 y cant o oriau'r Rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar Wasanaeth Channel 4 yn cael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr mewn unrhyw flwyddyn galendr.*

*O 1 Ionawr 2020 ymlaen, bydd y Gorfforaeth yn sicrhau bod o leiaf 9 y cant o'i gwariant ar Raglenni a wneir yn y DU i'w gwylio ar Wasanaeth Channel 4 yn cael ei ddyrannu i gynhyrchu Rhaglenni y tu allan i Loegr a'u bod yn gyfeiriol at gynhyrchu Rhaglenni mewn canolfannau cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.*

5.100 Pan roddodd Ofcom y drwydded Channel 4 gyntaf yn 2004, roedd y cwota cynyrchiadau rhanbarthol, a elwir hefyd yn gwota Gwnaed y tu allan i Lundain ('MoL'), wedi'i osod ar 30% o'r oriau a'r gwariant. Ar ôl adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2009, cynyddodd Ofcom y cwota i 35%. Yn 2014 gwelsom fod 35% yn dal yn briodol.[223]

5.101 Cafodd cwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr ('MoE') eu cyflwyno am y tro cyntaf yn 2009 ar ôl Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2009. Pan gafodd ei gyflwyno, roedd y cwotâu gwariant ac oriau wedi cael eu gosod ar 3%. Yn nhrwydded 2014, gosodwyd y cwotâu ar 3% i ddechrau, gan gynyddu i 9% yn 2020.

## Cyflawni dros gyfnod y drwydded

5.102 Mae C4C wedi cyflawni dros ei gwotâu gwariant ac oriau MoL a MoE yn gyson, gyda'r lefel yn cynyddu dros gyfnod y drwydded.

**Ffigur 21: Darpariaeth Channel 4 o'r cwotâu Gwnaed y tu allan i Lundain dros gyfnod y drwydded**

| Cwota | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oriau 35%** | 51.3% | 53.2% | 54.5% | 56.9% | 59.3% | 54.1% | 57% | 66.3% | 65.8% |

[223] Ofcom, Consultation: Renewal of the Channel 4 licence, Gorffennaf 2013, t. 20-21.

| Cwota | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant 35%** | 42.3% | 38.5% | 40.1% | 44.7% | 45.2% | 45.4% | 46.6% | 54.8% | 52.5% |

**Ffigur 22: Darpariaeth Channel 4 o'r cwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr dros gyfnod y drwydded**

| Cwota | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | Cwota | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oriau 3%** | 6.1% | 9.1% | 9.2% | 12.1% | 10.1% | 11.2% | **Oriau 9%** | 11.7 % | 9.8% | 9.1% |
| **Gwariant 3%** | 6% | 7.4% | 8.4% | 9.5% | 7.8% | 7.9% | **Gwariant 9%** | 9.4% | 9.4% | 9.7% |

5.103 Yn 2018, fel rhan o strategaeth '4 All the UK' C4C, gosododd darged gwirfoddol iddo'i hun i sicrhau y byddai 50% o'r gwariant ar gynnwys gwreiddiol sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ar Channel 4 erbyn 2023 yn cael ei gomisiynu gan gyflenwyr y tu allan i Lundain.[224] Roedd wedi cyflawni'r ymrwymiad gwirfoddol hwn ddwy flynedd yn gynnar yn 2021, pan gyrhaeddodd y gwariant 55%, gan ostwng ychydig yn 2022 i 52%.

5.104 Ar 8 Tachwedd 2023, mewn ymateb i'r ffaith bod y Llywodraeth wedi cyflwyno'r Bil Cyfryngau a'r cyhoeddiad am becyn o fesurau lliniaru yn ymwneud â dileu cyfyngiad darlledwr gyhoeddwr Channel 4, ailddatganodd C4C ei ymrwymiad i wario 50% o gyllideb comisiynu Channel 4 y tu allan i Lundain.[225]

## Cais C4C am y drwydded newydd

Mae C4C wedi gofyn i ni gadw'r ddau gwota ar eu lefelau presennol. O ran y cwota MoL, dywedodd:

*Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i gadw'r lefel hon o fuddsoddiad [50%] ac rydym wedi rhoi cyfrif amdano yn ein cynllun strategol tymor hir. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd economaidd a'r angen am yr hyblygrwydd masnachol mwyaf yn unol â'n dyletswydd i sicrhau bod C4C yn parhau i fod yn gynaliadwy yn y tymor canolig i'r tymor hir, credwn fod angen cadw'r cwota ffurfiol ar 35%, tra'n derbyn ein hymrwymiad gwirfoddol i barhau i fuddsoddi dros 50% o'n cyllideb yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau. Byddai cadw'r ymrwymiad fel un gwirfoddol yn sicrhau bod gennym yr hyblygrwydd i gyflawni rhwymedigaethau ein trwydded a sicrhau ein bod yn cael ein diogelu rhag effaith tarfu ar gomisiwn tariff uchel, neu golli comisiwn o'r fath, sy'n gwneud cyfraniad anghymesur i wariant ein Gwledydd a'n Rhanbarthau.*[226]

O ran y cwota MoE, dywedodd:

*Er ein bod wedi bodloni'r cwota hwn yn gyson, ers y cynnydd i 9%, mae'r cwota hwn wedi bod yn heriol iawn. Felly, byddem yn gwrthwynebu'n gryf cynyddu'r cwota mor fuan heb roi*

[224] Tudalen we: 4 All the UK: Working Across the UK
[225] Tudalen we: Support for TV production firms to accompany Channel 4 reforms.
[226] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.

*amser iddo sefydlu, ac yn benodol, o ystyried ein maint, gallai ein gwneud yn agored i golli cwota oherwydd tarfu ar un neu ddwy o raglenni allweddol .*[227]

Yn ogystal ag ansicrwydd o ran yr economi a chomisiynu, soniodd C4C hefyd am heriau posibl o ran twf y sectorau cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau fel ffactor risg wrth gyflawni'r cwotâu hyn. Dywedodd:

*Er gwaethaf y twf yn y blynyddoedd diwethaf, mae sector cynhyrchu'r DU yn parhau i fod yn sylweddol llai y tu allan i Lundain. Mae hynny'n golygu bod llai o gwmnïau cynhyrchu, ac yn aml iawn rhai llai eu maint, ac felly'n llai abl i ddatblygu syniadau creadigol a'u cynhyrchu, o'u cymharu â Llundain.*[228]

Mae C4C yn credu mai'r ffordd orau o sicrhau twf cynaliadwy yn y sectorau cynhyrchu ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau yw drwy 'strategaeth fwy cyfannol'.[229] Mae'n tynnu sylw at ei waith yn meithrin partneriaethau gydag asiantaethau sgrin, buddsoddi mewn rhaglenni i ddatblygu sgiliau yn y sector cynhyrchu, ariannu a datblygu rhaglenni ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol, a chryfhau mynediad at gomisiynwyr ledled y DU.

## Ein rhesymeg

### Cadw'r cwota cynhyrchu rhanbarthol ar 35% o'r oriau a'r gwariant

#### Mae'r cwota presennol wedi hwyluso buddsoddiad sylweddol gan C4C yn y sector cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau

5.105 Mae buddsoddi mewn cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn rhan bwysig o gyfraniad Channel 4 i'r economi greadigol. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cyfrannu at dwf sector cynhyrchu'r DU ac at bortreadu cymunedau gwahanol ledled y DU yn ddilys.

5.106 Yn ystod cyfnod presennol y drwydded, mae canran y gwariant ar gynyrchiadau rhwydwaith cymwys gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus[230] ('gwariant cymwys') sy'n cael ei briodoli i'r gwledydd a'r rhanbarthau wedi cynyddu o 48.3% yn 2014 i 53.6% yn 2022.[231] Fodd bynnag, nid yw'r gwariant hwn i gyd yn cael ei fuddsoddi yn y sector cynhyrchu allanol y tu allan i Lundain;[232] yn 2022 roedd tua 40% o'r holl wariant gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynyrchiadau MoL yn rhai mewnol. O dan y fframwaith statudol presennol, ni all C4C gynhyrchu cynnwys yn fewnol ar gyfer Channel 4, ac felly mae'n cyflawni ei gwota'n llwyr gan ddefnyddio cwmnïau cynhyrchu allanol, sy'n golygu bod cyfraniad C4C yn arbennig o bwysig i gynhyrchwyr annibynnol ac allanol eraill yn y sector.

5.107 Mae'r cwota wedi bod yn effeithiol fel isafswm wrth gefn dros gyfnod y drwydded, ac mae C4C wedi cyflawni'n sylweddol uwch na'r cwota yn gyson, fel y gwelir yn Ffigur 21 uchod. Nid buddsoddi drwy Channel 4 yw'r unig ffordd y mae C4C yn cyfrannu at yr economi greadigol y

[227] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[228] C4C yn meddwl mwy am y cwota y tu allan i Lundain, Medi 2023.
[229] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[230] Mae gwariant cymwys yn cyfeirio at wariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni rhwydwaith gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, heb gynnwys costau talent ar y sgrin, deunydd o'r archif, deunydd hyrwyddo, hawliau chwaraeon, arian a roddir fel gwobrau mewn cystadlaethau na newyddion.
[231] Ofcom/darlledwyr.
[232] Mae cynhyrchwyr allanol yn cynnwys cynhyrchwyr annibynnol fel y'u diffinnir yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991 (gweler paragraff 5.161) a chynhyrchwyr eraill nad ydynt yn dod o fewn y diffiniad hwn. Mae cynhyrchwyr annibynnol yn cynnwys cynhyrchwyr bach a 'chwmnïau annibynnol mawr' fel Banijay Group. Mae cynhyrchwyr allanol eraill yn cynnwys cwmnïau fel Boom, sy'n eiddo i ITV Studios.

tu allan i Lundain; mae hefyd yn buddsoddi yn y sector ar draws ei wasanaethau eraill. Yn ôl data a ddarparwyd gan Pact, yn 2021 comisiynau C4C, yn gyffredinol, oedd yr ail ffynhonnell fwyaf o wariant comisiynu ar gyfer cynhyrchwyr y tu allan i Lundain.[233] Yn 2022, gwariodd C4C ei swm uchaf erioed, sef £228m, ar gynnwys gwreiddiol ar draws ei bortffolio teledu a wnaed yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gan gynnwys y gwariant uchaf erioed ar gynnwys gwreiddiol a wnaed yng ngwledydd y DU, a gododd 19%, o £38m yn 2021 i £45m yn 2022.[234] Yng nghyd-destun y ffaith bod Channel 4 wedi bod yn rhagori ar ei gwotâu presennol yn gyson yn ystod cyfnod y drwydded bresennol, ac yn ailddatgan ei ymrwymiad gwirfoddol, mae ein hasesiad wedi ystyried a yw'n briodol cynyddu'r gofyniad sylfaenol ar gyfer y drwydded sydd i ddod.

## Mae ymrwymiad C4C i'r gwledydd a'r rhanbarthau yn mynd y tu hwnt i'w fuddsoddiad mewn cynyrchiadau rhanbarthol

5.108 Yn '4 All the UK', soniodd C4C am strategaeth eang a oedd yn ceisio trawsnewid strwythur C4C, rhoi hwb sylweddol i swyddi yn y gwledydd a'r rhanbarthau drwy'r canolfannau rhanbarthol newydd, a thrwy hynny gynrychioli'r DU yn well. Roedd hyn yn cynnwys trawsnewid C4C o ddarlledwr yn Llundain yn unig i ddarlledwr gyda chanolfannau sylweddol yn Leeds, Bryste a Glasgow. Mae C4C wedi bod yn datblygu'r canolfannau hyn dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn diwedd 2022 roedd gan C4C 485 o rolau y tu allan i Lundain (i fyny o 400 yn 2021) ac mae wedi dweud y bydd yn parhau i gynyddu hyn dros y blynyddoedd nesaf.[235] Roedd gan 4Studio, yr uned cynnwys digidol yn Leeds, 150 o weithwyr erbyn diwedd 2022,[236] ac mae *Channel 4 News* bellach yn cael ei gyflwyno bedair noson yr wythnos o Lundain a'r stiwdio bwrpasol newydd sbon yn Leeds.[237] Wrth i'r canolfannau hyn ddatblygu, rydym yn rhagweld y bydd y sector cynhyrchu lleol yn datblygu o'u cwmpas, yn enwedig yn Leeds, lle'r oedd y diwydiant yn arfer bod yn llai nag yn y dinasoedd fel Manceinion neu Glasgow.

5.109 Mae gan C4C hefyd nifer o gynlluniau ar waith sydd â'r nod o ddatblygu talent a sgiliau ledled y DU a hyrwyddo twf cynyrchiadau annibynnol, gan gynnwys:

- **4Skills**: Cynllun hyfforddi, a lansiwyd ym mis Hydref 2020, sy'n dwyn ynghyd holl gynlluniau hyfforddi a datblygu C4C, yn ogystal â chyflwyno cynlluniau newydd, sy'n canolbwyntio ar bobl yn y gwledydd a'r rhanbarthau, a phobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae 4Skills yn canolbwyntio ar bartneriaethau â chynhyrchwyr allanol, dinasoedd, darparwyr sgiliau a darlledwyr eraill i ddarparu ymyriadau wedi'u targedu i gefnogi talent mewn grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Mae C4C wedi cyhoeddi y bydd cyllideb y cynllun yn dyblu i £10m y flwyddyn erbyn 2025. Mae'n cynnwys prentisiaethau i bobl o gefndiroedd amrywiol. Yn ein Hadroddiad Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau diweddaraf, gwnaethom ganmol gwaith C4C ar sgiliau a hyfforddiant, gan gynnwys drwy 4Skills, sy'n parhau i fod yn rhan bwysig o ddatblygu doniau creadigol ledled y DU.[238]

---

[233] Pact Census 2022 – Nations & Regions Annex, tudalen 7. Mae'r data hwn yn wahanol i ddata MoL Ofcom, sydd hefyd yn cynnwys cynyrchiadau mewnol. Dim ond ar gyfer comisiynau a gynhyrchwyd yn allanol y mae data Pact yn berthnasol.
[234] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 84.
[235] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 17.
[236] Ofcom, Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ar ei Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2022, t. 13.
[237] Ofcom, Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ar ei Ddatganiad Polisi cynnwys Cyfryngau 2022, t. 21-22.
[238] Ofcom, Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ar ei Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2022, t. 23.

- **Cynllun Hyfforddiant Cynhyrchu:** Rhaglen hyfforddi â thâl am 12 mis lle mae hyfforddeion yn cael eu lleoli mewn cwmnïau cynhyrchu allanol ledled y DU. Yn 2022, roedd 75% o'i 33 o hyfforddeion wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau.
- **Cronfa Cwmnïau Annibynnol Newydd:** Yn darparu cymorth i gwmnïau cynhyrchu allanol yn y gwledydd a'r rhanbarthau drwy ddarparu cymorth ariannol ar gyfer datblygu rhaglenni.
- **Cronfa Twf Annibynnol:** Sefydlwyd y cynllun hwn yn 2014, ac mae'n fenter fasnachol a sefydlwyd gan C4C sy'n buddsoddi mewn cwmnïau cynhyrchu allanol cam cynnar ac yn cefnogi eu datblygiad. Fel rhan o strategaeth 4 All the UK, mae'r Gronfa Twf Annibynnol wedi cael ei haildrefnu i flaenoriaethu buddsoddiad mewn cwmnïau yn y gwledydd a'r rhanbarthau, cwmnïau sy'n cael eu harwain gan bobl o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig, a chwmnïau digidol.
- **Partneriaethau ag Asiantaethau Sgrin:** Mae C4C wedi ffurfio nifer o bartneriaethau ag asiantaethau sgrin, gan gynnwys cynllun 'More4 Northern Ireland' gyda NI Screen, sydd wedi sicrhau comisiynau ar gyfer dau gwmni annibynnol o Ogledd Iwerddon.

5.110 Fodd bynnag, er bod gan y cwotâu MoL ran hollbwysig i'w chwarae o ran sicrhau buddsoddiad yn y gwledydd a'r rhanbarthau, mae effaith C4C yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn mynd ymhell y tu hwnt i hyn. Gyda'i gilydd, mae'r cynlluniau hyn yn dangos ymrwymiad C4C i gyfrannu at yr economi greadigol y tu allan i Lundain.

## Gallai cwota uwch effeithio ar allu C4C i ddelio â heriau yn y dyfodol

5.111 Mae cyflwyniad C4C yn dadlau y byddai cwota uwch yn lleihau ei hyblygrwydd gweithredol a'i allu i ddelio â phwysau neu risgiau masnachol yn y dyfodol.

5.112 Un o'r risgiau y mae C4C yn tynnu sylw ato yw gostyngiad yn y capasiti cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae C4C wedi dweud, pe bai hyn yn cael ei weld, y byddai effaith fasnachol cynnal lefelau presennol cynyrchiadau y tu allan i Lundain ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynyddu, gan y byddai llai o gapasiti cynhyrchu ar gael i ddatblygu a chynhyrchu'r syniadau cryfaf sy'n debygol o apelio fwyaf at gynulleidfaoedd.[239] Tynnir sylw at y risg hon mewn ymchwil ddiweddar a gynhaliwyd ar ein rhan gan Oliver & Ohlbaum Associates (O&O), sy'n rhagweld twf sector cynhyrchu'r DU yn arafu.


5.113 Mae gan sector cynhyrchu'r DU lawer o newydd-ddyfodiaid ac achosion o uno a phrynu cwmnïau newydd bob blwyddyn. Canfu ymchwil O&O ei bod yn gymharol hawdd cael mynediad i'r farchnad ond efallai nad yw goroesi mor hawdd, gan nad yw cyfanswm twf y farchnad wedi adlewyrchu twf newydd-ddyfodiaid bob blwyddyn, sy'n golygu bod nifer o gynhyrchwyr yn gadael y farchnad bob blwyddyn.[240] Er bod y ddeinameg hon yn gallu helpu i greu sector cadarn ac arloesol, mae hefyd yn creu lefel o ansicrwydd i gomisiynwyr o ran cyflenwad cyson o gynhyrchwyr. Mae C4C o'r farn bod y ddeinameg hon yn risg bosibl o ran cyflawni gofyniad cwota uwch.

5.114 Llundain yw'r unig ganolfan gynhyrchu fwyaf o hyd yn ôl nifer y cwmnïau, ac mae ei chyfran o gynhyrchwyr yn y farchnad wedi aros yn gyson ar 69% ers 2017. Er bod cyfran y cynhyrchwyr y tu allan i Lundain hefyd wedi aros yn gyson, bu twf yng nghyfran y gwledydd

[239] C4C yn meddwl mwy am y cwota y tu allan i Lundain, Medi 2023.
[240] O&O, Understanding the UK's TV productions sector: slide deck, sleid 46.

o gyfanswm y cynhyrchwyr ers 2011. Fel y gwelir yn Ffigur 23 isod, mae'r nifer hwn wedi amrywio o un flwyddyn i'r llall.

**Ffigur 23: Nifer y cynhyrchwyr gweithredol, yn ôl lleoliad cwmni: 2011-2021**




Ffynhonnell: O&O, Understanding the UK's TV productions sector: slide deck, sleid 41 (atgynhyrchwyd gan Ofcom).

5.115 Mae rhanddeiliaid yn y diwydiant yn credu bod 2023 wedi bod yn flwyddyn llawer anoddach i sector cynhyrchu'r DU, ac yn disgwyl y bydd buddsoddiadau wedi crebachu ar draws y farchnad erbyn diwedd 2023.[241] Cefnogir hyn gan ymchwil O&O, a fu'n cyfweld â chynhyrchwyr ar draws y farchnad, gan ganfod bod heriau gyda chyllid a chostau wedi dwysáu dros y blynyddoedd diwethaf, a bod pwysau economaidd parhaus wedi creu marchnad heriol i gynhyrchwyr.[242] Roedd 97% o'r cynhyrchwyr a holwyd yn cytuno'n gryf y bydd cyllidebau comisiynu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu gwasgu yn y dyfodol, gyda mwy o ffocws ar 'wneud mwy gyda llai'.[243]

> **"Ers pandemig Covid-19, a digwyddiadau macro-economaidd cysylltiedig eraill, bu'n anodd iawn ceisio dod o hyd i'r staff a'r criw cywir. Mae popeth yn teimlo'n dynn iawn ac yn ddrutach."**
>
> *(Cynhyrchydd, cwmni bach annibynnol)*[244]

5.116 Tynnodd O&O sylw at dri bygythiad allweddol i dwf y sector yn y blynyddoedd i ddod. Sef: y posibilrwydd o ostyngiad cyflymach yng nghyllidebau comisiynu'r DU oherwydd pwysau ar gyllid drwy hysbysebu, ffi'r drwydded neu danysgrifiadau; newid cyflymach tuag at gynhyrchu mewnol; a chwyddiant costau mwy ffyrnig a phrinder sgiliau, sy'n cael ei archwilio isod.[245]

---

[241] Tudalen we: Pact Census 2023: Post-Covid boom sees exceptional TV revenue growth. [wedi'i hepgor] (cyfarfod ar 21 08 23), [wedi'i hepgor] (cyfarfod ar 19 07 23), [wedi'i hepgor] (cyfarfod ar 21 09 23).
[242] O&O, Understanding the UK's TV productions sector: slide deck, sleid 27.
[243] O&O, Understanding the UK's TV production sector: written report, t. 16-17.
[244] O&O, Understanding the UK's TV productions sector: slide deck, sleid 27.
[245] O&O, Understanding the UK's TV productions sector: slide deck, sleid 58.

5.117 Mae O&O yn rhagweld y bydd twf ar draws sector cynhyrchu'r DU yn debygol o arafu dros y degawd nesaf, o gyfartaledd o 2.9% rhwng 2011 a 2021 i 1.7% rhwng 2021 a 2030.[246] Mae C4C wedi dweud ei fod yn dibynnu i raddau helaeth ar gryfderau a chapasiti cymharol y sector annibynnol,[247] sy'n golygu y gallai lleihau neu newid y cyflenwyr sydd ar gael yn y gwledydd a'r rhanbarthau effeithio ar ba mor hawdd y gall fodloni ei gwota. Gallai'r arafu a ragwelir o ran twf ar draws sector cynhyrchu'r DU greu ansicrwydd i C4C mewn marchnad gynhyrchu sydd eisoes yn gymhleth y tu allan i Lundain. Er bod yr heriau yn y farchnad gynhyrchu yn cynyddu pwysigrwydd pob buddsoddiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y gwledydd a'r rhanbarthau, rydym hefyd wedi ystyried y risgiau masnachol i C4C.

5.118 Fel y nodir yn yr adran ar gynyrchiadau gwreiddiol, mae C4C yn bwriadu buddsoddi mwy mewn cynnwys tariff uchel sy'n cael effaith fawr ac sy'n denu cynulleidfaoedd i Channel 4 Streaming. Mae C4C yn tynnu sylw at genres fel drama, comedi a rhaglenni ffeithiol premiwm.[248] Gallai hyn olygu bod C4C yn buddsoddi mewn llai o gomisiynau drutach, a allai gyfyngu ar y gronfa o gynhyrchwyr y byddai'n briodol eu comisiynu, gan fod y rhan fwyaf o gynhyrchwyr yn y DU yn canolbwyntio ar gynnwys heb ei sgriptio. Mae dros 62% o gynhyrchwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar raglenni ffeithiol cyffredinol, ffeithiol arbenigol, adloniant ffeithiol ac adloniant.[249] Ar y cyd â'r risgiau a'r ansicrwydd yn y farchnad gynhyrchu y tu allan i Lundain, a ddisgrifir uchod, gallai'r newidiadau hyn i strategaeth gomisiynu C4C olygu y gallai cwota uwch gyfyngu ar hyblygrwydd C4C i gyflawni'r newidiadau hyn.

5.119 Rydym o'r farn y gallai cwota uwch leihau hyblygrwydd gweithredol C4C i ymateb i newidiadau yn y farchnad gynhyrchu neu ansicrwydd economaidd. Gallai felly gael effaith negyddol ar ei gynaliadwyedd drwy leihau ei allu i addasu i heriau ariannol a strategol.

### Nid yw cadw lefel bresennol cwota MoL Channel 4 yn debygol o gael effaith sylweddol ar y sector cynhyrchu

5.120 Mae sector cynhyrchu'r DU yn dal yn ddibynnol iawn ar wariant comisiynu darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn ôl ymchwil O&O, roedd comisiynau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrif am fwyafrif sylweddol drwy gydol 2011-2021, gan gyfrannu at 86% o'r farchnad gomisiynu yn 2021.[250] Mae'r duedd hon hefyd yn wir am gomisiynu y tu allan i Lundain; canfu Pact fod 65% o wariant comisiynu y tu allan i Lundain yn dod gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn 2021.[251] Er bod gwariant gan SVoDs yn y DU yn parhau i gynyddu, gan gynnwys yn y gwledydd a'r rhanbarthau gyda chomisiynau fel *Sex Education* (Netflix, Cymru) a *The Rig* (Amazon Prime Video, yr Alban), mae hyn ond yn cyfrif am gyfran fach o'i gymharu â gwariant cyffredinol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

5.121 Yng nghyd-destun y ddibyniaeth hon ar fuddsoddiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus, mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym eu bod yn poeni y gallai unrhyw ostyngiad mewn buddsoddiad gan C4C o'i lefelau darparu presennol gael effaith negyddol ar y sector.[252]

---

[246] O&O, Understanding the UK's TV productions sector: slide deck, sleid 56.
[247] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[248] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.
[249] O&O, Understanding the UK's TV productions sector: slide deck, sleid 42.
[250] O&O, Understanding the UK's TV production sector: written report, t. 11.
[251] Pact Census 2022 – Nations & Regions Annex, t. 7.
[252] [wedi'i hepgor] (cyfarfod ar 19 07 23), [wedi'i hepgor] (cyfarfod ar 20 09 23) a [wedi'i hepgor] (cyfarfod ar 21 08 23).

Rydym yn cydnabod, gan fod C4C yn cyflawni llawer uwch na'r cwota ar hyn o bryd, na fyddai cadw'r cwotâu MoL ar 35% yn atal C4C rhag lleihau ei lefelau cyflawni presennol.

5.122 O ystyried cryfder ymrwymiadau C4C y tu allan i Lundain, a phroffil uchel strategaeth 4 All the UK, fel y nodir ym mharagraffau 5.108 i 5.109 uchod, credwn na fyddai gostyngiad yn gyson â chynlluniau ac ymrwymiadau C4C, fel y maent wedi'u cyhoeddi. Fodd bynnag, rydym wedi modelu sut gallai gostyngiad yng ngwariant C4C o'r lefelau presennol effeithio ar wariant cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i Lundain, i amcangyfrif yr effaith bosibl ar y sector cynhyrchu. Ar sail ffigurau 2022, rydym wedi amcangyfrif, pe bai C4C yn gwneud y gostyngiad mwyaf a ganiateir yn y gwariant ar raglenni y tu allan i Lundain ar Channel 4, yn ôl i lefel ei gwota o 35%, y byddai hyn wedi arwain at ostyngiad o 6.5% yng ngwariant cymwys cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i Lundain o'i gymharu â lefelau gwariant gwirioneddol yn 2022. Mae hyn yn awgrymu bod unrhyw amrywiad llai yng nghyfran gwariant cymwys Channel 4 o dan ei lefelau presennol yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar wariant cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i Lundain. Felly, er bod buddsoddiad C4C yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn bwysig, mae unrhyw amrywiadau bach yn y buddsoddiad hwn yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar y farchnad ehangach.

## Rydym o'r farn bod lefelau presennol cwotâu MoL yn sicrhau lefel sylfaenol briodol o fuddsoddiad yn y gwledydd a'r rhanbarthau

5.123 Wrth asesu lefel yr amod trwydded hwn, rydym wedi ystyried a fyddai'n briodol ei gynyddu o'r 35% presennol o wariant ac oriau. Ar ôl ystyried y ffactorau perthnasol a nodir uchod, yn benodol y budd posibl o fwy o sicrwydd o fuddsoddiad y gallai cwota uwch ei roi i randdeiliaid yn y gwledydd a'r rhanbarthau, a'r risgiau i hyblygrwydd sefydliadol ac ariannol C4C sy'n gysylltiedig â chwota uwch, credwn y dylem, ar y cyfan, gadw'r cwotâu Gwnaed y tu allan i Lundain fel y maent ar hyn o bryd, sef 35%.

5.124 Rydym o'r farn bod y cwotâu presennol wedi bod yn effeithiol o ran cyflawni'r amcan polisi o fuddsoddi yn yr economi greadigol ledled y DU. Rydym yn croesawu'r ffaith bod C4C yn rhagori ar y cwota a'i fuddsoddiad ehangach yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ond rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn bwysig bod gan C4C yr hyblygrwydd o hyd i addasu i bwysau masnachol ac amrywiadau o ran cyflenwad yn y sector cynhyrchu. Felly, rydym o'r farn bod 35% yn dal yn ddewis wrth gefn priodol ar gyfer cyfnod y drwydded nesaf, a bydd yn gwarantu lefel sylfaenol briodol o wariant ac oriau.

5.125 Byddwn yn parhau i fonitro sut mae C4C yn cyflawni ei ymrwymiadau ehangach i fuddsoddi yn y gwledydd a'r rhanbarthau drwy ein Hadroddiadau Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau.

**Cwestiwn 9 yr Ymgynghoriad:**

A ydych yn cytuno â'n cynigion i gadw'r gofynion bod yn rhaid, ym mhob blwyddyn galendr, i o leiaf 35% o'r oriau o raglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar Channel 4 gael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25, a bod yn rhaid i o leiaf 35% o'r gwariant ar raglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar Channel 4 gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25, a rhaid iddynt fod yn gyfeiriol at gynhyrchu rhaglenni mewn ystod o ganolfannau cynhyrchu?

Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

## Cadw 9% o oriau a gwariant ar gyfer MoE

### Mae'r cynnydd diweddar yn y cwotâu MoE wedi arwain at fwy o fuddsoddiad gan Channel 4 yn y gwledydd, ond nid ydynt yn cynrychioli holl fuddsoddiad y gwledydd gan C4C

5.126 Mae cwotâu MoE yn adnodd pwysig ar gyfer sbarduno buddsoddiad yn y gwledydd (yn yr adran hon, mae 'gwledydd' yn golygu Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon). Mae ein cofrestr flynyddol[253] o raglenni cymwys yn dangos mai dim ond lleiafrif bach o deitlau ITV a Channel 5 a gafodd eu gwneud y tu allan i Loegr ar gyfartaledd, er bod buddsoddiad gan ITV a Channel 5 yn cynyddu, fel y dangosir yn Ffigur 24. I'r gwrthwyneb, mae'r BBC a Channel 4, sydd â chwotâu sy'n mynnu eu bod yn cael eu cynhyrchu yn y gwledydd,[254] yn darparu lefel sylfaenol gyson o fuddsoddiad.

**Ffigur 24: Cyfran yr oriau a'r gwariant cymwys ar draws y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i Loegr**

| Oriau | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC | 22.5% | 23.7% | 23.2% | 22.1% | 22.3% | 23.1% |
| ITV | 0.3% | 0.1% | 0.4% | 1.9% | 3.9% | 1.4% |
| Channel 4 | 12.1% | 10.1% | 11.2% | 11.7% | 9.8% | 9.1% |
| Channel 5 | 1.2% | 0.8% | 1.6% | 1.9% | 3.3% | 2.7% |
| **Gwariant** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| BBC | 18.3% | 19.8% | 20.8% | 16.4% | 19.7% | 17.8% |
| ITV | 0.9% | 0.3% | 0.6% | 8.8% | 14.1% | 4.8% |
| Channel 4 | 9.5% | 7.8% | 7.9% | 9.4% | 9.4% | 9.7% |
| Channel 5 | 1.1% | 1.3% | 3.9% | 4.1% | 6.4% | 5.2% |

Ffynhonnell: Ofcom/Darlledwyr Gwasanaethau Cyhoeddus.

5.127 Mae'r gyfran gymharol isel o oriau a gwariant gan ITV a Channel 5 y tu allan i Loegr yn awgrymu bod cwotâu MoE Channel 4 wedi bod yn bwysig er mwyn sicrhau cyfran uwch o gomisiynu cynnwys yn y gwledydd, yn hytrach na dim ond y tu allan i Lundain.

5.128 Fodd bynnag, nid yw'r oriau a'r gwariant a ddarperir ar Channel 4 yn cynrychioli holl fuddsoddiad C4C yn y gwledydd. Yn ogystal â'r cynlluniau a restrir ym mharagraffau 5.108 i 5.109, mae C4C wedi dweud bod llawer o'r genres a'r mathau o raglenni a gynhyrchir fel arfer yn y gwledydd yn fwy addas ar gyfer ei sianeli portffolio, fel More4 ac E4, gan fod y sianeli hyn yn comisiynu cynnwys ffeithiol yn bennaf, ac mae gan y gwledydd sectorau cynhyrchu ffeithiol mawr.[255] Nid yw rhaglenni sy'n cael eu gwneud ar gyfer y sianeli hyn yn cyfrif tuag at y cwotâu sydd ond yn berthnasol i brif wasanaeth Channel 4. Roedd gwariant C4C ar gynnwys gwreiddiol a gynhyrchwyd yn y gwledydd ar draws ei bortffolio teledu yn £45m yn 2022; roedd hyn yn cynrychioli 20% o gyfanswm y gwariant ar gynnwys gwreiddiol

[253] Bob blwyddyn mae Ofcom yn cyhoeddi rhestr o'r rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i'r M25, a'r meini prawf y mae'n rhaid i bob rhaglen eu bodloni i gyfrif fel rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain.
[254] Mae gofyn i'r BBC gynhyrchu 8% o'i oriau rhwydwaith a gwariant yn yr Alban, 5% yng Nghymru a 3% yng Ngogledd Iwerddon.
[255] E-bost gan C4C, 16 Tachwedd 2023.

y tu allan i Lundain (£228m), ac 8% o'r gwariant cyffredinol ar gynnwys gwreiddiol (£570m).[256]

## Gall cwotâu MoE helpu i wella cynrychiolaeth cynulleidfaoedd yn y gwledydd ar y sgrin

5.129 Yn ogystal â chefnogi'r economi greadigol, mae cwotâu MoL a MoE yn chwarae rhan yn y gwaith o sicrhau amrywiaeth eang o raglenni sy'n adlewyrchu bywydau a diddordebau cymunedau ledled y DU mewn ffordd ddilys. Er gwaethaf cwotâu MoE uwch Channel 4 ers 2020, mae ein Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus[257] yn canfod bod canfyddiadau o gynrychioli yn y gwledydd yn dal yn isel. Dim ond tri gwyliwr o bob deg yng Nghymru (30%) sy'n dweud bod sianeli teledu Channel 4 yn darparu 'rhaglenni sy'n cynnwys fy rhanbarth/gwlad' yn dda, gyda chyfrannau ychydig yn is yn dweud yr un peth yn yr Alban (28%) a Gogledd Iwerddon (26%). Credwn fod angen i C4C wneud mwy i wella cynrychiolaeth, gan gynnwys drwy gomisiynu rhaglenni sydd wedi'u gosod yn y gwledydd, sy'n portreadu bywydau gwahanol gymunedau ynddynt mewn ffordd ddilys.

5.130 Er y gallai cynyddu'r cwotâu fod yn un ffordd o hyrwyddo'r amcan o gael gwell cynrychiolaeth ar draws y DU, nid ydym yn credu mai dyma'r unig ffordd. Er enghraifft, rydym o'r farn y dylai C4C barhau i gryfhau mynediad at gomisiynwyr i gynhyrchwyr yn y gwledydd, a datblygu cynlluniau fel y Gronfa Cwmnïau Annibynnol Newydd sy'n darparu cyllid i gynhyrchwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau i ddatblygu rhaglenni sy'n addas ar gyfer gwasanaethau C4C.

## Mae C4C wedi gweld bod y cynnydd i 9% ar gyfer cwotâu MoE yn heriol

5.131 Dim ond ers 2020 y mae'r cwota 9% presennol wedi bod ar waith, ac yn ôl C4C, mae'n ei chael yn anodd ei gyrraedd. Fel y mae Ffigur 22 uchod yn dangos, er bod C4C yn rhagori'n sylweddol ar ei gwotâu MoL, dim ond bodloni ei gwota MoE uwch y mae; roedd yn rhagori ar ei gwota 9% awr yn 2022 dim ond o 0.1%.

5.132 Mae C4C wedi dweud ei bod yn beth cyffredin i gomisiynau gael eu dal yn ôl, eu canslo neu fethu â chael eu hailgomisiynu oherwydd ffactorau y tu hwnt i'w reolaeth.[258] Er bod hyn yn wir am bob comisiwn, dywedodd C4C y gall colli un comisiwn tariff uchel sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at wariant ei wledydd (e.e. comisiwn wedi'i sgriptio fel *Derry Girls*) wneud y gwahaniaeth rhwng cyrraedd a methu a chyrraedd cwota.

5.133 Rydym wedi defnyddio data ar wariant blaenorol MoE i gynnal asesiad damcaniaethol o'r effaith y gallai colli rhaglenni tariff uchel ei chael ar wariant MoE C4C ar gyfer 2022. Ar sail ein gwaith modelu, gwelsom fod teitlau tariff uchel sengl fel *Screw* neu *Derry Girls* yn bwysig er mwyn i C4C gydymffurfio â'r cwota MoE. Byddai eithrio'r naill neu'r llall o'r teitlau hyn yn 2022 wedi golygu na fyddai C4C yn cydymffurfio â'i gwota o 9%.

5.134 Wrth i'n dadansoddiad o lefel briodol cwota cynyrchiadau gwreiddiol Channel 4 gael ei archwilio, mae strategaeth gomisiynu C4C dros gyfnod nesaf y drwydded yn debygol o esblygu i ganolbwyntio ar lai o gynyrchiadau gwerth uwch fel ffordd o annog rhagor o wylio ar Channel 4 Streaming. Gallai newid graddol tuag at lai o gynyrchiadau drutach mewn rhai genres y mae C4C yn ystyried sy'n perfformio'n dda yn ystod oriau brig ac ar wasanaethau ffrydio gynyddu'r risg o beidio â chydymffurfio â'r cwota 9% pe bai'r cynhyrchiad yn cael ei

[256] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 12.
[257] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2022.
[258] C4C yn meddwl mwy am y cwota y tu allan i Lundain, Medi 2023.

aildrefnu neu ei golli, gan y byddai'n anodd i C4C gomisiynu cynyrchiadau eraill y tu allan i Loegr ar fyr rybudd.

### Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y byddai cwota o 9% yn parhau i hwyluso'r gwaith o ddarparu manteision i'r gwledydd sy'n fwy na gwariant Channel 4 ar gynnwys

5.135 I asesu'r budd y mae'r cwotâu MoE yn ei gynnig i'r sectorau cynhyrchu yn y gwledydd, rydym wedi defnyddio dadansoddiad o'u heffaith ehangach ar economïau lleol fel procsi. Mae'r cwota gwariant yn hyrwyddo buddsoddiad mewn canolfannau cynhyrchu y tu allan i Loegr, sydd yn ei dro yn arwain at fanteision i economïau lleol lle maent wedi'u lleoli.

5.136 Fel y nodir yn Atodiad 1, er mwyn deall y budd economaidd a gynhyrchir drwy waith comisiynu Channel 4 yn y gwledydd, gwnaethom gynnal dadansoddiad o'r Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) yn ôl cwota gwariant MoE Channel 4.[259] Mae gwerth ychwanegol gros yn fesur o gyfraniad economaidd y DU a'i gwledydd a'i rhanbarthau wrth ymwneud â chynhyrchu neu ddarparu gwasanaethau. Roeddem wedi cyfeirio at ddwy ffynhonnell ddata: adroddiad a gynhaliwyd gan EY ar gyfer C4C ar gyfraniad y gorfforaeth i'r DU, ac adroddiad a gynhyrchwyd gan Saffery Champness ar gyfer Screen Scotland.

5.137 Gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd i ni gan C4C am ei wariant arfaethedig ar gynnwys hyd at 2025, a thybio bod y cwota MoE yn aros yr un fath ar 9% o'r gwariant cymwys, roeddem wedi amcangyfrif gwariant Channel 4 (£m nominal) y tu allan i Loegr, gyda'i gilydd ac wedi'i rannu yn ôl gwlad.[260]

5.138 Gan ddefnyddio ein hamcangyfrif o'r gwariant ar gynnwys, fe wnaethom wedyn amcangyfrif gwerth ychwanegol gros (£m nominal, cyfanswm a'u rhannu fesul gwlad yn flynyddol rhwng 2025 a 2034) yn seiliedig ar adroddiadau EY a Saffery Champness (gweler Atodiad 1).

5.139 Gallai ein hamcangyfrif o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros y tu allan i Loegr, mewn ffigurau nominal, dros gyfnod y drwydded, fod oddeutu £867m i £944m petai'r cwota'n cael ei gadw fel y mae ar hyn o bryd, sef 9%. Fel y nodir yn yr atodiad methodoleg, rydym yn amcangyfrif bod y budd oddeutu c110-120% o'r costau, er ein bod yn nodi bod nifer o dybiaethau sydd wedi cael eu gwneud i gael yr amcangyfrifon hyn, gyda phob un yn destun rhywfaint o ansicrwydd a newid. Mae'r dadansoddiad o werth ychwanegol gros yn dangos bod gwariant Channel 4 ar gynnwys y tu allan i Loegr, yn amodol ar dybiaethau amrywiol, yn darparu canlyniad cymharol gadarnhaol i'r DU (ac eithrio Lloegr). Fel yr eglurwyd, mae'r ffigurau hyn yn amcangyfrif o'r manteision i'r economi ehangach yn y gwledydd, ac nid dim ond y manteision i'r sector cynhyrchu.

### Mae ein gwaith modelu yn awgrymu y gallai unrhyw gynnydd pellach yn y cwota MoE arwain at gynnydd net mewn costau ar gyfer C4C, gan leihau ei hyblygrwydd i fynd i'r afael â heriau masnachol

5.140 Gwnaethom ystyried effaith rhwymedigaethau cynyddol ar gynllun busnes C4C. Yn benodol, fe wnaethom fodelu beth fyddai cynnydd yn y cwota cynhyrchu ar gyfer MoE yn ei olygu i gostau rhagamcanol C4C.


---

[259] I gael disgrifiad llawn o'n methodoleg, darllenwch Atodiad 1.

[260] Rhannwyd y gwariant MoE rhwng Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn seiliedig ar wariant diweddar Channel 4.

5.141 Gan ddefnyddio gwybodaeth am gwota cynyrchiadau rhanbarthol C4C, roeddem yn gallu dadansoddi oriau a gwariant cynhyrchu perthnasol[261] ar gyfer Lloegr (gan gynnwys ac eithrio Llundain), a'r tu allan i Loegr, yn ogystal â'r holl wledydd unigol. Gwelsom fod gwariant yr awr ar gyfartaledd ar gynyrchiadau a ddyrennir i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi cynyddu tua 5% y flwyddyn rhwng 2017 a 2022. Ar y llaw arall, gostyngodd y gwariant sy'n gysylltiedig â chynyrchiadau a ystyrir yn rhai Seisnig (gan gynnwys y rhai yn Llundain) ychydig tua 1% y flwyddyn. O ganlyniad, roedd cost yr awr y tu allan i Loegr[262] yn fwy na chost yr awr Lloegr yn 2022. Gellir gweld hyn yn Ffigur 25.

**Ffigur 25: Cost cynhyrchu yr awr ar gyfartaledd ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu yn Lloegr ac mewn sawl gwlad/rhanbarth o'i gymharu â'r holl wledydd y tu allan i Loegr: 2017-2022**




Ffynhonnell: C4C/Ofcom

5.142 Gwnaethom fodelu'r gost bosibl i C4C o gynnydd o 1% i'r cwota MoE. Wrth wneud hyn, roeddem wedi ystyried sut gallai costau cynhyrchu bob awr newid yn y dyfodol drwy gyfeirio at y newidiadau diweddar a nodir yn Ffigur 25.[263] Roeddem yn tybio y byddai pob awr ychwanegol a gynhyrchir yn y gwledydd (Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon) yn cymryd lle awr a gynhyrchwyd yn Lloegr (gan gynnwys Llundain). Roedd ein rhagolwg hefyd yn tybio'r un gymysgedd o genres ar gyfer cynyrchiadau cynnwys pob gwlad ar draws pob blwyddyn. Yna, gwnaethom amcangyfrif effaith bosibl cynnydd yn y cwota ar gynllun busnes C4C.

5.143 Roedd ein gwaith modelu yn dangos, ar gyfer pob cynnydd o 1% yn y cwota MoE, y gellid cael cynnydd cronnus o tua [wedi'i hepgor] mewn costau cynhyrchu cynnwys dros gyfnod y drwydded o 10 mlynedd, fel sy'n cael ei ffafrio; gallai hyn yn ei dro leihau gwarged a chronfa arian parod C4C. Roeddem wedi edrych ar effaith gosod cwota o 16%, i gyfateb i lefel cwota

[261] Nid yw rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn cynnwys newyddion, cynnwys sy'n hunan-hyrwyddo, rhaglenni sy'n cael eu prynu, rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu nac ailddarllediadau.
[262] Roedd y cynnydd anghymesur yn y costau cyfartalog y tu allan i Loegr (yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon) o ganlyniad i nifer fach o gomisiynau drud yng Ngogledd Iwerddon.
[263] Wrth gyfrifo tueddiadau costau cynhyrchu diweddar, rydym wedi eithrio costau o Ogledd Iwerddon. Gwelsom fod y cynnydd diweddar yng nghost cynhyrchu, ar gyfartaledd, yng Ngogledd Iwerddon wedi cael effaith sylweddol ar y costau twf y tu allan i Loegr ac felly efallai na fyddai'n ddangosydd da o gyfraddau yn y dyfodol. Yn benodol, gwnaethom ynysu costau cynhyrchu yng Nghymru a'r Alban a defnyddio'r twf hwn mewn cyfraddau costau cynhyrchu (3.5% y flwyddyn) ar gyfer ein cyfrifiad.

cyfatebol y BBC.[264] Gwelsom y gallai cost ychwanegol cwota 16% herio cynaliadwyedd cyffredinol C4C, ar sail cyfanswm gwarged cyfnod presennol y drwydded o £142m (2015 i 2022).

5.144 Roeddem hefyd wedi edrych ar gynnydd llai yn y cwota, er enghraifft i 10% neu 11%. Er nad yw'r cynnydd hwn yn debygol o gael effaith sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol C4C, mae cynyddu'r rhwymedigaethau ar adeg o ansicrwydd cynulleidfaoedd yn lleihau hyblygrwydd C4C i ddelio ag amrywiadau refeniw posibl.

5.145 Mae ein gwaith modelu yn dangos y byddai cynnydd yn y cwota gwariant yn debygol o gynyddu cyfanswm cost y cynnwys. Ar y cyd â'r heriau y mae C4C yn eu hwynebu ar hyn o bryd o ran bodloni'r cwotâu MoE (gweler paragraffau 5.131 i 5.134), amgylchedd economaidd ansicr, a'r risgiau a'r tueddiadau cynhyrchu a amlygwyd gan ymchwil O&O, byddai codi'r cwota yn lleihau gallu C4C i addasu i heriau ariannol yng nghyfnod nesaf y drwydded.

5.146 O'r herwydd, gan ystyried y ffactorau a drafodir uchod, gan gynnwys effaith gwariant C4C ar gynnwys y tu allan i Loegr, rydym o'r farn na fyddai cynnydd yn y cwota yn briodol ac nid ydym wedi cynnig unrhyw newid i'r cwota.

**Cwestiwn 10 yr Ymgynghoriad:**

A ydych yn cytuno â'n cynigion i gadw'r gofynion bod o leiaf 9% o oriau o raglenni a wneir yn y DU i'w gwylio ar Channel 4 yn cael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr ym mhob blwyddyn galendr, ac ym mhob blwyddyn galendr, bod o leiaf 9% o'r gwariant ar raglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar Channel 4 yn cael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni y tu allan i Loegr, a'u bod yn gyfeiriol at gynhyrchu rhaglenni mewn canolfannau cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon?

Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

# Cwota rhaglenni i ysgolion

**Crynodeb o'r cynigion**

**Rydym yn cynnig cadw'r gofyniad presennol o 30 munud** o raglenni ysgolion, ac eithrio deunydd cyflwyno, ym mhob blwyddyn galendr o'r cyfnod trwyddedu. Nid oes angen darlledu'r rhaglenni hyn yn ystod y tymor nac yn ystod oriau ysgol arferol.

## Gofyniad statudol

5.147 Mae Adran 296 y Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn gosod yr amodau sy'n briodol yn ei farn ef er mwyn sicrhau bod yr hyn sy'n ymddangos yn gyfran addas o'r rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn Channel 4 yn rhaglenni i ysgolion. Nid yw rhaglenni ysgolion yn cael eu diffinio fel genre neu fath penodol o gynnwys, ond fel rhaglenni y bwriedir eu defnyddio mewn ysgolion.

[264] O dan ei Drwydded Weithredu, mae cwotâu'r BBC yn 8% o oriau a gwariant cynyrchiadau rhwydwaith yn yr Alban, 5% yng Nghymru a 3% yng Ngogledd Iwerddon.

5.148 Wrth benderfynu pa gyfran o raglenni ddylai fod yn rhaglenni ysgolion, rhaid i Ofcom ystyried gwasanaethau, cyfleusterau a deunyddiau y mae C4C yn eu darparu i ysgolion, neu'n sicrhau eu bod ar gael i ysgolion, ac eithrio drwy gynnwys rhaglenni yn Channel 4.

5.149 Mae cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus Channel 4 yn ei gwneud yn ofynnol i raglenni addysgol gael eu cynnwys yn ogystal â rhaglenni o werth addysgol. Mae'r cwota rhaglenni ysgolion bellach yn rhan fach o gyflawni ei gylch gwaith addysg.

## Rhwymedigaeth gyfredol

5.150 Mae trwydded gyfredol Channel 4 yn nodi:

*Bydd y Gorfforaeth yn darlledu o leiaf hanner awr o Raglenni Ysgolion, heb gynnwys deunydd cyflwyno, ym mhob blwyddyn galendr o'r Cyfnod Trwyddedu. Nid oes angen darlledu'r Rhaglenni hyn yn ystod y tymor nac yn ystod oriau ysgol arferol.*

5.151 Yn ei ail Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn 2009, roedd Ofcom wedi ystyried darparu rhaglenni a chynnwys addysg ar gyfer plant oed ysgol. Mae ymchwil gwylwyr Ofcom wedi awgrymu bod cynulleidfaoedd o'r farn y gallai rhaglenni ysgol gael eu darparu'n effeithiol ar-lein, lle roedd cyfoeth helaeth o ddeunydd addysgol eisoes ar gael.[265]

5.152 Yn dilyn hynny, amrywiodd Ofcom drwydded Channel 4 yn 2010 i'w gwneud yn ofynnol i C4C ddarlledu o leiaf hanner awr o raglenni ysgol, heb gynnwys deunydd cyflwyno, ym mhob blwyddyn galendr.

5.153 Yn 2014, roedd Ofcom yn credu fod 30 munud y flwyddyn yn dal yn briodol fel amod trwydded sylfaenol.

## Cyflawni dros gyfnod y drwydded

5.154 Mae C4C wedi gor-gyflawni'n gyson o ran y cwota rhaglenni ysgol.

**Ffigur 26: Darpariaeth Channel 4 o'r cwota rhaglenni ysgol dros gyfnod y drwydded**

| Cwota | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **30 munud** | 4 awr | 27.1 awr | 28.6 awr | 19.7 awr | 38.7 awr | 35.2 awr | 24.2 awr | 14.9 awr | 9.4 awr |

## Cais C4C am y drwydded newydd

Dywedodd C4C:

*"Nid yw'r cwota yn ystyrlon ar ei ffurf bresennol, ac felly byddem yn dadlau dros ddileu'r gofyniad hwn o'r ddeddfwriaeth, a'r drwydded, cyn gynted â phosibl. Os yw'n ofynnol i Ofcom osod cwota isaf ar gyfer C4C o dan y fframwaith statudol presennol, dylai'r cwota de minimis presennol aros yr un fath am y tro."*[266]

[265] Ofcom, Ofcom's Second Public Service Broadcasting Review Phase 2: preparing for the digital future, Medi 2009, t. 46.
[266] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.

## Ein rhesymeg

### Cadw cwota rhaglenni ysgol ar 30 munud

5.155 Byddai dileu'r cwota rhaglenni ysgol yn gyfan gwbl yn gofyn am newid deddfwriaethol. Mae Bil y Cyfryngau yn cynnig gwneud y newid hwn, a byddwn yn dileu'r gofyniad pan fydd y ddeddfwriaeth newydd mewn grym. Fodd bynnag, rydym yn adnewyddu'r drwydded o dan y fframwaith statudol presennol.

5.156 Yn ei gyflwyniad, nododd C4C ei ddull o addysgu pobl ifanc sy'n canolbwyntio ar wneud cynnwys sy'n taro tant â chynulleidfaoedd ifanc ac sy'n adlewyrchu'r materion maen nhw'n eu hwynebu, ac sy'n darparu'r cynnwys hwnnw ar lwyfannau cymdeithasol a ffrydio.[267] Nododd C4C rywfaint o'r gweithgarwch hwn, gan gynnwys lansio ei sianel YouTube newydd sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, Channel 4.0, a nododd ei fod wedi buddsoddi tua £7 miliwn mewn cynnwys sydd wedi'i anelu at blant hŷn (10-14 oed) ar draws ei wasanaethau yn 2022. Dywedodd:

*Roedd y buddsoddiad hwn wedi'i wasgaru ar draws amrywiaeth eang o genres, ac fe'i cynlluniwyd yn benodol i adlewyrchu bywydau a diddordebau pobl ifanc ar yr un pryd â chael apêl prif ffrwd e.e.* Junior Bake Off, Celebrity Lego Masters *neu gomisiynau digidol pur fel* Kids Behaving Badly *a* Trainspotting with Francis Bourgeois*. Ein dull golygyddol ar gyfer plant hŷn yw darparu cynnwys diogel a phriodol sydd hefyd yn tynnu sylw at fodelau rôl cadarnhaol ac sydd â gwerth addysgol, gan eu galluogi i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau meddwl yn feirniadol.*

5.157 Dywedodd C4C yn 2022 ei fod hefyd

*wedi buddsoddi £25 miliwn ar gynnwys ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau (14-19 oed), gan gynnwys hen gyfresi poblogaidd sydd wedi dychwelyd, fel* Ackley Bridge*, a oedd yn mynd i'r afael â phynciau difrifol fel bwlio ar-lein, dibyniaeth, ac iechyd meddwl;* Big Boys*; a fersiwn newydd E4 o* Embarrassing Bodies*, a oedd yn annog pobl ifanc i siarad am faterion iechyd ac iechyd rhywiol. Byddwn yn parhau i ddarlledu rhaglenni sy'n berthnasol i fywydau pobl ifanc, fel* Dance School *sydd ar y gweill, a* Queenie*.*

5.158 Nodwn hefyd fod C4C wedi datblygu ei fenter 4Schools, a lansiwyd yn 2022. Mae 4Schools yn cysylltu ag ysgolion ledled y DU i gyflwyno'r byd teledu a'r diwydiannau creadigol i blant 11-14 oed. Er nad yw'n rhaglen, mae'r fenter yn darparu gwerth addysgol i bobl ifanc mewn ysgolion; yn 2022, ymgysylltodd â 23,000 o fyfyrwyr mewn dros 60 o ysgolion, gyda gweithgareddau fel gweithdai a sgyrsiau gan C4C a chwmnïau cynhyrchu annibynnol.[268] Yn ein Hadroddiad SMCP diweddaraf, dywedom fod *y fenter 4Schools yn parhau i ymgysylltu â phobl ifanc, yn enwedig y rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol a difreintiedig, ac yn eu hannog i ddilyn gyrfa yn y diwydiannau creadigol*.[269]

5.159 Rydym yn cytuno â C4C, er mwyn cael effaith ar gynulleidfaoedd ifanc, y dylai cynnwys gael ei deilwra i ddiddordebau ac ymddygiad gwylio pobl ifanc, adlewyrchu eu bywydau, a chael ei ddarparu ar y llwyfannau maent yn fwyaf tebygol o ymgysylltu â nhw. Credwn fod y dull golygyddol o ymdrin â chynnwys ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau, a nodir uchod, yn cyfrannu'n fwy effeithiol at gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus Channel 4 ac yn gwasanaethu'r cynulleidfaoedd hyn yn well na darparu rhaglenni sy'n benodol i'w defnyddio

---

[267] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[268] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 78.
[269] Ofcom, Letter to Channel 4 Corporation on its Statement of Media Content Policy 2022, t.2

mewn ysgolion. Felly, rydym o'r farn ei bod yn briodol cadw'r cwota hwn ar y lefel isaf bosibl o 30 munud mewn blwyddyn galendr.

**Cwestiwn 11 yr Ymgynghoriad:**

A ydych yn cytuno â'n cynnig i gadw'r gofyniad i ddarlledu o leiaf hanner awr o raglenni ysgol, heb gynnwys deunydd cyflwyno, ym mhob blwyddyn galendr o'r cyfnod trwyddedu?

Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

# Cynyrchiadau annibynnol

**Crynodeb o'r cynigion**

**Rydym yn cynnig cadw'r gofyniad bod o leiaf 25%** o gyfanswm yr amser a ddyrennir i ddarlledu rhaglenni cymwys yng ngwasanaeth Channel 4 yn cael ei neilltuo i ddarlledu ystod ac amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol.

## Gofyniad statudol

5.160 Mae Adran 277 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau yn nhrwyddedau'r sianeli gwasanaeth cyhoeddus y mae Ofcom yn credu sy'n briodol ar gyfer sicrhau bod *dim llai na 25 y cant o gyfanswm yr amser a ddyrennir i ddarlledu rhaglenni cymwys sydd wedi'u cynnwys yn y sianel yn cael ei neilltuo i ddarlledu ystod ac amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol*.[270]

5.161 Mae 'cynyrchiadau annibynnol'[271] yn golygu unrhyw raglen gymwys[272] a wneir gan gynhyrchydd annibynnol. Nid yw cynhyrchydd annibynnol ynghlwm wrth ddarlledwr yn y DU drwy gydberchnogaeth arwyddocaol. Mae'n gynhyrchydd:

i) nad yw'n cael ei gyflogi gan ddarlledwr;
ii) nad oes ganddo gyfranddaliadau sy'n fwy na 25% mewn cwmni darlledu yn y DU; a
iii) lle nad oes gan un darlledwr yn y DU gyfranddaliad sy'n fwy na 25% ac nad oes gan unrhyw ddau ddarlledwr yn y DU gyfranddaliad cyfanredol sy'n fwy na 50%.

## Rhwymedigaeth gyfredol

5.162 Mae trwydded Channel 4 yn nodi:

*Ym mhob blwyddyn galendr, bydd dim llai na 25 y cant (neu ganran arall y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ei rhoi drwy orchymyn o bryd i'w gilydd yn unol ag adran 277(3) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau) o gyfanswm yr amser a ddyrennir i ddarlledu Rhaglenni Cymwys yng ngwasanaeth Channel 4 i ddarlledu ystod ac amrywiaeth o Gynhyrchwyr Annibynnol. At y dibenion hyn, bydd y cyfeiriad at ystod o Gynyrchiadau Annibynnol yn cael ei ddehongli yn unol ag adran 277(2)(c) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau a rhaid iddo gynnwys ystod o ran y gost a'r mathau o Raglenni.*

[270] Adran 277 o'r Ddeddf.
[271] Diffinnir hyn yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991.
[272] Mae rhaglenni cymwys yn rhaglenni nad ydynt wedi cael eu dangos yn flaenorol ar yr un ffurf i raddau helaeth ar y gwasanaeth perthnasol, ac maent yn eithrio mathau penodol o raglenni, yn enwedig newyddion.

## Cyflawni dros gyfnod y drwydded

5.163 Dros gyfnod y drwydded, mae C4C wedi gor-gyflawni'n gyson ar y cwota hwn. Mae Ffigur 27 isod yn dangos alldro'r cwota ar gyfer Channel 4. Mae hyn yn cynrychioli cyfran yr oriau cymwys a gynhyrchir gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol; mae'r oriau sy'n weddill yn cael eu gwneud gan gynhyrchwyr allanol nad ydynt yn gymwys i fod yn gynhyrchwyr annibynnol o dan y diffiniad a esbonnir uchod.

**Ffigur 27: Darpariaeth Channel 4 o'r cwota cynyrchiadau annibynnol dros gyfnod y drwydded**

| Cwota | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **25%** | 73% | 64% | 60% | 51% | 48.5% | 44.5% | 50% | 52.8% | 54.9% |

## Cais C4C am y drwydded newydd

Ni wnaeth C4C unrhyw geisiadau ynghylch y cwota cynhyrchu annibynnol.

## Ein rhesymeg

### Cadw'r cwota cynyrchiadau annibynnol ar 25%

5.164 Dim ond drwy ddeddfwriaeth y gellir diwygio'r lefel cwota isaf, fel y nodir yn adran 277 o'r Ddeddf. Pan gyflwynodd y Llywodraeth y Bil Cyfryngau ar 8 Tachwedd 2023, cyhoeddodd y byddai'r lefel yn cynyddu o 25% i 35% fel rhan o becyn o fesurau lliniaru a fwriadwyd i sicrhau y byddai rôl Channel 4 o ran sbarduno buddsoddiad yn y sector cynhyrchu annibynnol yn cael ei diogelu pe bai'n penderfynu datblygu ei gallu cynhyrchu ei hun.[273] Rydym yn adnewyddu'r drwydded o dan y fframwaith statudol presennol a byddwn yn rhoi'r newid hwn ar waith pan ddaw i rym.

5.165 Rydym yn credu bod y ffaith bod C4C wedi gor-gyflawni'r cwota cynhyrchu annibynnol yn sylweddol ym mhob blwyddyn o gyfnod y drwydded bresennol yn dangos ei ymrwymiad parhaus i ddefnyddio cynhyrchwyr annibynnol ar gyfer ei gynnwys.

5.166 Yn ein hadolygiad o berfformiad C4C o ran cyflawni ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau rhwng 2014 a 2018, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod nifer y cwmnïau cynhyrchu annibynnol yr oedd C4C yn gweithio gyda nhw wedi gostwng yn ystod y cyfnod adrodd.[274] Yn 2018, comisiynodd C4C 154 o gwmnïau cynhyrchu annibynnol, gan gynrychioli gostyngiad o 26% o'i gymharu â'r cyfanswm o 194 yn 2014.[275] Dywedom y gellid priodoli hyn yn rhannol i'r don o gyfuno cwmnïau a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod hwn, gyda sawl enghraifft o gwmnïau cyfryngau byd-eang yn caffael rhai o gynhyrchwyr mwyaf y DU.[276] Fe wnaethom

[273] Datganiad gweinidogol ysgrifenedig gan Lucy Frazer, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar 8 Tachwedd 2023. Tudalen we: Datganiad.
[274] Channel 4 Corporation's performance in delivering its media content duties, 2014-2018, t. 18. O dan adran 198C o'r Ddeddf, rhaid i Ofcom adolygu ac adrodd ar i ba raddau y mae C4C wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau o leiaf bob pum mlynedd.
[275] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2014, t. 163.
[276] Channel 4 Corporation's performance in delivering its media content duties, 2014-2018, t. 18.

bwysleisio y dylai C4C barhau i gefnogi'r sector, a hyrwyddo arloesedd a chreadigrwydd drwy gael gafael ar gynnwys gan ystod eang ac amrywiol o gynhyrchwyr.[277]

5.167 Rydym o'r farn bod C4C wedi perfformio'n dda yn y maes hwn ers 2018.[278] Yn ein Hadroddiad SMCP diweddaraf, fe wnaethom ddweud bod C4C wedi parhau i weithio gydag amrywiaeth eang o gyflenwyr, rhai am y tro cyntaf, a'i fod drwy hyn wedi dangos ei ymrwymiad i gefnogi'r sector creadigol annibynnol yn y DU.[279] Yn 2022, ar draws meysydd ffilm, digidol a theledu, bu C4C yn gweithio gyda 319 o gyflenwyr cynnwys, sy'n gynnydd o'i gymharu â 294 yn y flwyddyn flaenorol.[280] O'r cwmnïau hyn, roedd 170 yn gwmnïau cynhyrchu teledu annibynnol cymwys, sy'n gynnydd o'i gymharu â 164 yn y flwyddyn flaenorol.[281] Dywedodd C4C wrthym fod 38 o gwmnïau, ar draws pob math o gynnwys, yn gyflenwyr newydd i C4C yn 2022.

5.168 Roedd ein Hadroddiad SMCP diweddaraf hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y darlledwr wedi dangos ei ymrwymiad i gyflawni ei ddyletswydd cynnwys cyfryngau i gefnogi datblygiad pobl â thalent greadigol, gan gynnwys drwy'r rhaglen 4Skills (a drafodir ym mharagraff 5.109 uchod).[282]

5.169 Rydym o'r farn bod perfformiad C4C yn y maes hwn dros gyfnod y drwydded wedi bod yn gryf a bod amod y drwydded bresennol yn dal yn briodol.

### Cwestiynau ymgynghori 12:

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw'r amod sy'n darparu bod yn rhaid i ddim llai na 25% o gyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer darlledu rhaglenni cymwys ar Channel 4 gael ei ddyrannu ym mhob blwyddyn galendr i ddarlledu ystod ac amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol?

Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

# Hyd y drwydded

### Crynodeb o'r cynigion

**Rydym yn cynnig bod cyfnod y drwydded yn ddeng mlynedd**, gan ddechrau ar 1 Ionawr 2025 a dod i ben ar 31 Rhagfyr 2034.

## Gofyniad statudol

5.170 Mae adran 231 o'r Ddeddf yn nodi ei bod yn rhaid i Ofcom bennu hyd y drwydded newydd, a fydd yn rhedeg *"am ba bynnag gyfnod sy'n briodol ym marn Ofcom"*.

---

[277] Channel 4 Corporation's performance in delivering its media content duties, 2014-2018, t. 19.
[278] Byddwn yn darparu asesiad llawn o berfformiad C4C ardraws ail hanner y drwydded yn ein hadolygiad 5 mlynedd nesaf, ond mae adroddiadau SMCP diweddar wedi canfod ei fod wedi perfformio'n dda yn y maes hwn.
[279] Ofcom, Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ar ei Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2022, t. 20.
[280] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 78.
[281] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 78.
[282] Ofcom, Llythyr i Gorfforaeth Channel 4 ar ei Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2022, t. 19.

## Y drwydded bresennol

5.171 Yn 2014, penderfynodd Ofcom mai deng mlynedd oedd yr hyd priodol ar gyfer trwydded newydd. Dywedom ein bod "*yn cydnabod y byddai sicrwydd busnes yn helpu C4C i wneud buddsoddiadau sylweddol*" ac y "*gallai cyfnod trwydded byr gael effaith niweidiol ar gynlluniau busnes C4C, a thrwy hynny amharu ar gyflawni ei gylch gwaith*." [283]

## Cais C4C am y drwydded newydd

> Unwaith eto, mae C4C wedi mynegi ffafriaeth gref dros drwydded deng mlynedd. Dywedodd y byddai trwydded deng mlynedd:
>
> *Yn rhoi digon o sicrwydd a hyblygrwydd i C4C gyflawni ein cylch gwaith, a'n hamcanion strategol hirdymor i sbarduno twf digidol a refeniw newydd. Byddai cyfnod trwydded byrrach yn creu ansicrwydd sylweddol, a byddai'n amharu i raddau helaeth ar ein gallu i gyflawni'r cylch gwaith. I'r gwrthwyneb, byddai cyfnod trwydded hirach yn golygu y gallai C4C wynebu risg y byddai rhwymedigaethau llinol yn cael eu gosod arno am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol; ac mae'n anodd rhagweld materion ariannol y tu hwnt i'r degawd nesaf gan ystyried bod technoleg ac ymddygiad gwylwyr yn datblygu mor gyflym. Felly, rydym yn cynnig trwydded deng mlynedd newydd, o 1 Ionawr 2025 i 31 Rhagfyr 2034.*[284]

## Ein rhesymeg

### Pennu deng mlynedd fel cyfnod y drwydded

5.172 Wrth bennu hyd priodol trwydded Channel 4, rydym wedi ystyried:

a) Rhagamcanion ariannol a ddarparwyd i ni gan C4C; a
b) Hyd trwydded byrrach neu hirach na deng mlynedd.

5.173 Ein prif bryder wrth bennu hyd y drwydded yw y dylai gefnogi C4C i barhau i ddarparu Channel 4 ac amodau ei drwydded. Rydym hefyd yn ystyried rhwymedigaethau C4C i gyflawni ei ddyletswyddau ehangach o ran cynnwys cyfryngau.

5.174 Yn draddodiadol, mae Channel 4 wedi gweithredu model croes-gymhorthdal lle mae llwyddiant C4C o ran cynhyrchu refeniw hysbysebu ar draws ei holl bortffolio o sianeli yn pennu maint y buddsoddiad y gall ei wneud yn ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a'r amodau trwydded ar gyfer Channel 4. Mae hyn yn golygu bod C4C yn wynebu risgiau ariannol uwch na phe bai'n cynhyrchu rhaglenni gyda'r bwriad o gael y refeniw hysbysebu uchaf posibl yn unig. Bydd y model croes-gymhorthdal hwn yn dal yn berthnasol yn ystod cyfnod nesaf y drwydded.

5.175 Wrth gynnal yr asesiad ariannol hwn, rydym wedi ystyried hyd priodol y drwydded ac a yw newid lefel y rhwymedigaethau yn effeithio'n sylweddol ar gynaliadwyedd cyfnod trwydded deng mlynedd. Ein man cychwyn oedd ystyried a fyddai trwydded newydd gyda rhwymedigaethau tebyg i'r rheini yn y drwydded bresennol yn gynaliadwy dros y cyfnod o ddeng mlynedd.

---

[283] Ofcom, Consultation: Renewal of the Channel 4 licence, Gorffennaf 2013, t. 5.
[284] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.

## Mae C4C wedi cyflwyno cynllun busnes yn nodi ei amcanestyniadau ar gyfer y cyfnod trwydded deng mlynedd arfaethedig

5.176 Fe wnaethom ofyn i C4C gyflwyno cynllun busnes i gefnogi'r hyd trwydded mae'n ei ffafrio, gan ddangos a allai hyn gynnal trwydded Channel 4. Roedd y cynllun busnes a gyflwynwyd yn sail i'n dadansoddiad. Roedd yn cynnwys yr hyd roedd C4C yn ei ffafrio, ac yn gofyn am rai newidiadau i amodau trwydded, er enghraifft i'r gofynion newyddion a materion cyfoes a'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol bob awr.[285]

5.177 Fe wnaethom asesu'r cynllun busnes a'r tybiaethau i sicrhau eu bod yn gredadwy, ar sail ein dealltwriaeth bresennol o'r farchnad hysbysebu a pherfformiad C4C dros gyfnod y drwydded ddiwethaf (gweler adran 4). Roedd hyn yn cynnwys gwneud newidiadau negyddol i dybiaethau allweddol, er enghraifft lleihau cyfran C4C o'r farchnad hysbysebu ar y teledu a lleihau'r pris fesul effaith y mae C4C yn ei ragweld, er mwyn deall yr effaith y gallai'r newidiadau hyn ei chael ar refeniw C4C a'r cynlluniau a ragwelir. Yna, cafodd y cynllun busnes ei ddefnyddio i amcangyfrif effaith ein newidiadau arfaethedig i ofynion cynnwys dros gyfnod arfaethedig y drwydded.

5.178 Mae cynllun busnes C4C yn nodi y byddai ei fodel presennol ar gyfer cyflawni Channel 4 a'i rhwymedigaethau trwydded yn gynaliadwy drwy gydol cyfnod trwydded deng mlynedd. Mae ei strategaeth a'i gynllun busnes yn ystyried:

a) Yr amgylchedd gwylio sy'n newid yn gyflym a'r amgylchedd cynyddol gystadleuol y bydd angen i C4C weithredu ynddo;
b) Yr angen i barhau i ganolbwyntio ar drawsnewid digidol a chynhyrchu cynnwys sy'n cefnogi ac yn galluogi'r newid, gan gynnwys newid cwotâu rhaglenni;
c) Yr angen i gynyddu'r buddsoddiad mewn cynnwys er mwyn sicrhau'r gyfran a'r cyrhaeddiad mwyaf posibl ar gyfer cynulleidfaoedd; a
d) Chynlluniau wrth gefn a hyblygrwydd ariannol.[286]

5.179 Yn benodol, erbyn diwedd cyfnod nesaf y drwydded, mae C4C yn disgwyl cynhyrchu dros [wedi'i hepgor] bob blwyddyn mewn refeniw, gyda dros hanner hyn yn cael ei gynhyrchu o'i sianeli digidol, ac mae'n disgwyl y bydd ei fuddsoddiad mewn cynnwys yn fwy na [wedi'i hepgor] ym mlwyddyn olaf y drwydded. Mae C4C wedi tybio y bydd y twf mewn buddsoddiad mewn cynnwys yn mynd y tu hwnt i'r twf cyfatebol [wedi'i hepgor]. [287]

## Mae C4C yn disgwyl i'w refeniw gynyddu dros gyfnod y rhagolwg hyd at 2034

5.180 Ar hyn o bryd, mae refeniw C4C yn dibynnu'n bennaf ar werthu gofod hysbysebu ar ei sianeli llinol a digidol. Mae'n defnyddio amcanestyniadau o'r farchnad hysbysebion teledu[288] fel sail i'w gynllun busnes ac yna'n gwneud rhagdybiaethau am ei gyfran o'r farchnad i ragweld ei refeniw hysbysebu.

5.181 Dros ddeng mlynedd mae C4C yn rhagweld y bydd cyfanswm gwylio teledu byw a PVR yn parhau i ostwng, gan arwain at ostyngiad cyffredinol mewn refeniw hysbysebu teledu llinol o

[285] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023 a Chynllun Tair Blynedd Corfforaeth Channel 4 ym mis Medi 2022, a gyflwynwyd i Ofcom Mehefin 2023
[286] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[287] Cwestiynau dilynol dyddiedig 9 Awst 2023 i Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[288] Data Thinkbox yn deillio o gyflwyniadau tai gwerthu gan Sky, C4C ac ITV. Rhagamcanwyd ymlaen gan ddefnyddio rhagolygon yr Asiantaeth a thybiaethau C4C a ddarparwyd yng Nghynllun Tair Blynedd C4C 2023-25, Papur y Bwrdd Medi 2022, a gyflwynwyd i Ofcom ar 9 Mehefin 2023, t. 7

tua [wedi'i hepgor] y flwyddyn. Mae'n tybio, oherwydd bod ystod oedran ei gynulleidfa graidd yn is ac yn fwy tebygol o newid i lwyfannau gwylio ar-lein na'r farchnad deledu, y bydd ei gyfran o'r farchnad yn gostwng yn gyflymach na chyfran darlledwyr eraill, gan addasu ymhellach i lawr ei gyfran o effeithiau masnachol (SOCI).[289]

5.182 I'r gwrthwyneb, mae C4C yn rhagweld y bydd cyfanswm gwylio BVoD yn parhau i dyfu, ar sail tueddiadau hanesyddol yn y farchnad, er bod hynny ar gyfradd arafach nag yn ystod cyfnod y drwydded bresennol. Nododd C4C y bydd twf refeniw hysbysebion digidol[290] tua [wedi'i hepgor]% y flwyddyn, yn gyflymach na'r twf a ragwelir yn y gynulleidfa, a amcangyfrifir ar tua [wedi'i hepgor]% y flwyddyn; mae hyn yn golygu bod disgwyl i'r pris fesul gwyliwr godi dros gyfnod nesaf y drwydded. Mae C4C yn disgwyl cynnal ei gyfran bresennol o tua [wedi'i hepgor]% o gyfanswm y refeniw hysbysebu digidol.[291] Yn ystod cyfnod nesaf y drwydded, mae C4C yn disgwyl y bydd ei refeniw'n newid o hysbysebu llinol yn bennaf i hysbysebu digidol, gyda gostyngiad llinol fel cyfran o gyfanswm refeniw, a refeniw digidol yn dod yn fwyafrif. Disgwylir i refeniw nad yw'n hysbysebu gynyddu i bron i 15% o gyfanswm y refeniw, o'i gymharu â [wedi'i hepgor]% yn 2022.[292]

5.183 Fel yr eglurwyd ym mharagraff 5.182, mae'r rhagolygon yn awgrymu y rhagwelir y bydd y farchnad hysbysebu digidol gyffredinol yn tyfu'n gyflymach na gwylio, gan ddangos bod y farchnad gyffredinol yn disgwyl i hysbysebu digidol fod yn fwy gwerthfawr, drwy ddefnyddio technoleg i dargedu demograffeg cynulleidfa benodol.

## Craffu ar gynllun busnes C4C

5.184 Mae cynllun busnes C4C yn dangos y gall gyflawni ei gylch gwaith dros gyfnod y drwydded ddeng mlynedd arfaethedig. Mae hyn yn seiliedig ar brif dybiaeth C4C y bydd yn parhau i fod yn fusnes sy'n cael ei ariannu gan hysbysebion yn bennaf. Mae'n tybio y bydd cyfanswm y munudau gwylio ffurf hir yn aros yn gyson, gyda llai o wylio llinol yn cael ei liniaru wrth i fwy o bobl wylio fideos ar-alw. Credwn fod y dybiaeth hon yn rhesymol, gan ystyried tueddiadau hanesyddol a natur anrhagweladwy'r farchnad ar hyn o bryd.

5.185 Mae cynlluniau C4C i ddatblygu ei strategaeth hysbysebu i adlewyrchu newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd a chefnogi ei strategaeth sy'n canolbwyntio ar ddigidol, gan gynnwys ffurfio partneriaethau i'w gwneud yn gyrchfan fwy deniadol i hysbysebwyr (gweler 4.6), yn cefnogi ei dybiaethau cynulleidfaoedd.

5.186 Gwnaethom brofi sensitifrwydd cynllun refeniw C4C i ddeall lefel y risg sy'n gynhenid i ragamcanion cynulleidfa a refeniw C4C drwy amcangyfrif effaith:

a) lleihau cyfran C4C o refeniw hysbysebu digidol 1% yn ychwanegol;
b) lleihau'r refeniw fesul gwyliwr ar gyfer hysbysebion digidol 1% fesul gwyliwr; a
c) lleihau cyfran C4C o refeniw hysbysebu llinol 1% yn ychwanegol.

5.187 Fel y dangosir yn Ffigur 28, gallai newidiadau cymharol fach gael effaith sylweddol, gyda'i gilydd, ar gyfanswm refeniw dros oes y drwydded, ac felly ar falans gwarged/arian parod C4C.

[289] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023, tudalen 10 a chwestiynau dilynol dyddiedig 9 Awst 2023 i Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, 9 Mai 2023.
[290] Data Thinkbox yn deillio o gyflwyniadau tai gwerthu gan Sky, C4C ac ITV
[291] Cwestiynau dilynol dyddiedig 30 Mehefin 2023 i Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom 9 Mai 2023, Pecyn data
[292] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 206.

5.188 Yng nghyd-destun ei falansau arian hanesyddol o tua £150m - £200m, mae lle i C4C danberfformio yn erbyn ei ragolwg a pharhau i fod yn gynaliadwy, a nodwn fod y cyfarwyddwyr, yn adroddiad blynyddol diweddar C4C,[293] o'r farn bod y balansau arian a ddelir gan y Grŵp, a'r cyfleuster credyd cylchol gwerth £75m yn *"ddigonol i gefnogi gofynion cyllido tymor canolig y Grŵp"*. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod cryn ansicrwydd o hyd, ac nid yw'r rhagolygon hyn, a chynllun busnes C4C, heb risg.

**Ffigur 28: Effaith gronnus newid y tybiaethau yng Nghynllun Busnes C4C, ar sail cyfnod o ddeng mlynedd**

| £m | C4C (achos sylfaenol) | Cyfran ddigidol is | Pris hysbysebion digidol is | Dirywiad SONAR (Llinol) |
|---|---|---|---|---|
| Refeniw | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] |
| **Hysbysebion sbot** | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] |
| **Hysbysebion digidol All 4** | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] |
| Cyfanswm costau gweithredu | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] |
| **Cynnwys** | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] |
| Gwarged / (diffyg) | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] | [wedi'i hepgor] |
| Amrywiant o warged achos sylfaen | | *- 64* | *- 58* | *- 47* |

5.189 Byddai ein cynigion i gynnal cwotâu'r gwledydd a'r rhanbarthau ar eu lefelau presennol a lleihau'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol yn rhoi mwy o hyblygrwydd i C4C ddilyn ei gynulleidfa wrth iddo newid i ddigidol. Byddai hefyd yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i C4C o ran ei gostau. Byddai hyn yn helpu i leihau'r risg na fyddai C4C yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau trwydded.

## Mae C4C yn bwriadu cynyddu ei wariant ar gynnwys yn unol â thwf

5.190 Mae cyflwyniad C4C yn nodi ei fod yn bwriadu cynyddu ei wariant cynnwys yn unol yn fras â'r twf a ragwelir mewn refeniw yn ystod cyfnod nesaf y drwydded.[294] Mae C4C yn egluro bod angen i'r gyllideb cynnwys allu ymateb i amodau'r farchnad a dewisiadau defnyddwyr. Mae C4C yn mynegi bod angen iddo gynhyrchu cynnwys a fydd yn cael yr effaith fwyaf, a allai gynyddu costau mewn rhai achosion.[295]

[293] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2022, t. 220.
[294] Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, Mai 2023.
[295] Ymateb C4C i Gwestiynau Pellach Ofcom ar Adnewyddu Trwydded, Gorffennaf 2023.

5.191 Ar sail ein dadansoddiad, rydym yn fodlon bod gwariant arfaethedig C4C ar gynnwys yn ystyried y gost gynyddol o gynhyrchu cynnwys yn ogystal â chwyddiant cyffredinol. Mae C4C yn egluro ei fod wedi rhagdybio twf blynyddol o [wedi'i hepgor]% (gan gynnwys chwyddiant economaidd) mewn gwariant cynnwys *“oherwydd bod cynnwys yn mynd yn ddrytach”*.[296] Mae’r cynnydd disgwyliedig hwn hefyd yn adlewyrchu’r angen i allu cynhyrchu cynnwys a fydd yn cael yr effaith fwyaf, sydd yn aml yn costio mwy yr awr. Gwnaethom hefyd edrych ar gynnydd hanesyddol yng nghost cynnwys C4C a chanfod bod cyfanswm cost cynnwys C4C mewn termau real wedi aros yn gymharol wastad. Felly, byddai tybio cynnydd mewn costau cynnwys (yn uwch na chwyddiant economaidd) hefyd yn cefnogi angen posibl C4C i gomisiynu rhaglenni drutach.

5.192 Ar gyfer yr holl gostau eraill, mae C4C wedi rhagweld y bydd yn cynnal yr un lefel o gostau’n fras ag yr oedd ar ddiwedd cyfnod y drwydded bresennol, ond yn cynyddu yn ôl targed chwyddiant Banc Lloegr, sef 2%.

5.193 Rydym wedi profi’r rhagdybiaeth hon o ran chwyddiant drwy gymharu rhagolwg CPI diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (Mawrth 2023) â tharged ac amcanestyniadau Banc Lloegr. Gwnaethom ganfod fod rhagolwg CPI y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn is na tharged chwyddiant y Llywodraeth o 2% yn ystod y pum mlynedd nesaf.[297] Mae Banc Lloegr yn disgwyl i’r CPI barhau i ddisgyn tua 2% yn hanner cyntaf 2025, ond ni fydd yn mynd o dan 2%.[298] Felly, rydym o’r farn bod rhagamcanion cost C4C yn gredadwy ac yn dangos ei ymrwymiad parhaus i gynnal ei lefel buddsoddi bresennol mewn cynnwys, gan fod cyfran y buddsoddiad mewn cynnwys yn parhau i fod yn unol â’r lefelau presennol o 60-65%.

## Mae C4C wedi nodi ei fesurau lliniaru ar gyfer heriau annisgwyl

5.194 Yn olaf, roeddem wedi ystyried gallu cynllun busnes C4C i ddelio â digwyddiadau ‘sioc’ y tu hwnt i’w reolaeth, fel chwyddiant uchel parhaus a siociau eraill digynsail yn y farchnad, fel cwymp yn y farchnad hysbysebu. Yn ei gyflwyniad, esboniodd C4C y mesurau lliniaru a roddwyd ar waith ganddo yn ystod pandemig Covid-19, fel [wedi'i hepgor]. Dywedodd C4C y byddai’n dilyn dull tebyg o gadw arian wrth geisio cyflawni ei gylch gwaith llawn.[299] Rydym yn fodlon ei fod wedi rhoi ystyriaeth briodol i’w opsiynau mewn digwyddiad o’r fath.

5.195 Rydym yn fodlon bod gan C4C gynllun busnes credadwy i gefnogi trwydded am gyfnod o ddeng mlynedd, fel y nodir yn y drwydded a gyflwynwyd ganddo.

## Mae trwydded deng mlynedd hefyd yn darparu cysondeb â thrwyddedau eraill

5.196 Mae trwydded deng mlynedd ar gyfer Channel 4 yn cyd-fynd â thelerau’r trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol eraill (h.y. Sianeli 3 a 5) a’r trwyddedau amlblecs teledu daearol digidol,[300] a fydd yn dod i ben yn 2034.

5.197 O ystyried y datblygiadau technolegol sylweddol sydd wedi trawsnewid y diwydiant yn ystod y degawd diwethaf, credwn ei bod yn synhwyrol parhau i gysoni’r broses o ddod â’r

---

[296] 15 Medi 2023 - Ateb i gwestiynau dilynol dyddiedig 9 Awst 2023 i Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, 9 Mai 2023.

[297] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Historical official forecast data base, CPI, Mawrth 2023. [cyrchwyd ddiwethaf 02/11/23]

[298] Tudalen we: Bank of England Explainer: When will we get back to low inflation?

[299] Cwestiynau dilynol dyddiedig 30 Mehefin 2023 i Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cyflwyniad i Ofcom, 9 Mai 2023.

[300] Mae teledu digidol yn caniatáu i ni fwndelu nifer o wasanaethau teledu i’r hyn a elwir yn amlblecs. Mae chwe amlblecs cenedlaethol, sef 1, 2, A, B, C a D. Mae Ofcom yn rheoleiddio’r trwyddedeion ar gyfer yr holl amlblecsau cenedlaethol hyn ac eithrio amlblecs 1, sy’n cael ei reoleiddio o dan Siarter a Chytundeb y BBC.

trwyddedau hyn i ben, gan y byddai hyn yn rhoi cyfle i Ofcom gynnal asesiad cynhwysfawr o'r trwyddedau yn 2034 pe bai angen.

## Fe wnaethom ystyried nifer o gyfnodau gwahanol

5.198 Rydym hefyd wedi ystyried rhinweddau trwydded fyrrach, er enghraifft pum mlynedd. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch cynulleidfaoedd a refeniw, nid ydym yn credu y byddai trwydded pum mlynedd yn rhoi digon o sicrwydd i C4C na'r sector cynhyrchu. Mae amserlen hirach yn caniatáu i C4C lunio partneriaethau tymor hwy gyda noddwyr rhaglenni, a chynlluniau busnes a all roi hyder i hysbysebwyr presennol a darpar hysbysebwyr.

5.199 Rydym yn cydnabod y gall buddsoddi mewn cynnwys tariff uchel gymryd blynyddoedd i ddatblygu, a gall sicrwydd ynghylch rhwymedigaethau cynnwys C4C yn y tymor hir helpu i liniaru'r risg sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn cynnwys arloesol o'r radd flaenaf. Yn yr un modd, gall buddsoddi mewn technoleg i gefnogi trawsnewid digidol C4C gymryd amser i ddwyn ffrwyth, ac mae C4C wedi nodi efallai na fydd pum mlynedd yn rhoi digon o sicrwydd iddo wneud y buddsoddiadau sylweddol hyn.

5.200 Roeddem hefyd wedi ystyried a fyddai trwydded hirach yn briodol. Yn ogystal â'r rhesymeg a nodir ym mharagraffau 5.196 i 5.197, nid ydym yn gallu rhagweld lefelau gwylio yn ddibynadwy, na lle bydd hysbysebwyr yn gwario eu cyllidebau, na sefyllfa ariannol C4C, y tu hwnt i gyfnod o ddeng mlynedd. O'r herwydd, nid ydym yn credu y byddai'n briodol pennu cyfnod trwydded sy'n hwy na deng mlynedd.

5.201 I gloi, rydym yn credu bod trwydded deng mlynedd, gyda'r amodau rydym yn eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn, yn briodol er mwyn rhoi digon o sicrwydd tymor hir i C4C fuddsoddi yn ei strategaethau i drawsnewid y sefydliad yn wasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus digidol yn gyntaf.

**Cwestiwn 13 yr Ymgynghoriad:**

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid adnewyddu trwydded Channel 4 am gyfnod o ddeng mlynedd?

Rhowch resymau dros eich ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

# A1. Effaith Gwerth Ychwanegol Gros gwariant Channel 4 ar gynnwys MoE

## Gallai cwota MoE 9% ddarparu gwerth ychwanegol gros o £867-944m.

A1.1 Rydym yn amcangyfrif y gallai cynnal cwota MoE presennol C4C ar 9% o'r gwariant cymwys ddarparu gwerth ychwanegol gros o £867m i £944m i'r DU (ac eithrio Lloegr) mewn termau nominal dros gyfnod deng mlynedd y drwydded arfaethedig. Rydym yn amcangyfrif bod y lluosydd[301] yn darparu gwerth ychwanegol gros rhanbarthol ar oddeutu 20% yn uwch na gwariant C4C.

A1.2 Rydym yn nodi isod pam rydym wedi ystyried gwerth ychwanegol gros, beth yw gwerth ychwanegol gros, cwmpas a chyfyngiadau ein dadansoddiad, ein methodoleg a'n dadansoddiad, a sut mae ein dadansoddiad wedi cael ei ddefnyddio yn y ddogfen ymgynghori hon.

## Pam yr ydym wedi ystyried gwerth ychwanegol gros?

A1.3 Fel rydym yn egluro ym mharagraffau 5.135 i 5.139, roeddem am ddeall y budd economaidd posibl i'r sectorau cynhyrchu yng ngwledydd C4C sy'n comisiynu rhaglenni yn y gwledydd, er mwyn asesu a oedd lefel bresennol y cwota MoE yn dod â budd i'r gwledydd. Bydd y budd economaidd ehangach y mae'r cwota MoE yn ei ddarparu i'r gwledydd yn fwy na'r buddsoddiad mewn canolfannau cynhyrchu y tu allan i Loegr, ac felly gellir ei ddefnyddio fel procsi. Mae gwerth ychwanegol gros yn fesur o'r budd economaidd ehangach hwn.

A1.4 Gwnaethom gynnal ymchwil desg i weld a oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i chyhoeddi y gallem ei defnyddio wrth ystyried costau a manteision gwneud newidiadau i gwota MoE C4C. Canfu ein hymchwil desg gyhoeddiadau ar werth ychwanegol gros yn ymwneud â gwariant cynhyrchu cyfryngau yn rhanbarthau'r DU.

## Beth yw gwerth ychwanegol gros?

A1.5 Mae gwerth ychwanegol gros yn fesur o gyfraniad economaidd i ranbarth sydd wedi'i ddiffinio'n ddaearyddol o gynnal gweithgarwch cynhyrchiol yn y ddaearyddiaeth honno. Mae'n cael ei fesur ar sail prisiau cyfredol, heb gynnwys trethi (llai o gymorthdaliadau) ar gynnyrch a gwasanaethau. Mae gwerth ychwanegol gros a threthi (llai o gymorthdaliadau) ar gynnyrch a gwasanaethau yn cyfateb i Gynnyrch Domestig Gros (GDP). Mae gwerthoedd ychwanegol gros rhanbarthol yn cael eu cyfrifo gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n cyhoeddi'r amcangyfrifon ar ei gwefan.[302]

[301] Mae'r lluosydd (neu effaith y lluosydd) yn golygu bod unrhyw newid penodol mewn mewnbwn (e.e. gwariant C4C) yn achosi newid mwy mewn allbwn (e.e. £120 o fudd economaidd).
[302] Tudalen we: Gwerth Ychwanegol Gros.

A1.6 Mae gwerth ychwanegol gros yn mesur gwerth allbwn ar gyfer mesur o fewnbwn, h.y. y budd economaidd a gynhyrchir gan unrhyw wariant economaidd; gellir cynhyrchu lluosyddion drwy rannu'r allbwn â mewnbwn yn unig, cyn belled â'u bod yn cael eu diffinio'n gyson.

A1.7 Gellir hefyd cyfrifo gwerth ychwanegol gros a lluosydd ar lefel diwydiant ac ar lefel cwmni. Gellir ei wneud ar gyfer cwmni ar lefel ranbarthol, cyn belled â bod y data ar gael.

A1.8 Nid oeddem wedi ystyried cyfrifo gwerth ychwanegol gros yn 2014 gan nad oedd y data i wneud hyn ar gael yn rhwydd. Er y byddai wedi bod yn bosibl gwneud hyn o ddata ffynhonnell (h.y. data ONS) byddai wedi bod yn ddrud, wedi cymryd llawer o amser ac yn anghymesur i'r effaith y byddai'r dadansoddiad wedi'i chael ar ein penderfyniad ar y pryd.

A1.9 Fodd bynnag, ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, canfu ein hymchwil desg ddau adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar lle'r oedd gwerth ychwanegol gros wedi cael ei gyfrifo, a oedd yn berthnasol i Channel 4 yn ein barn ni. Felly, rydym wedi defnyddio gwybodaeth o'r adroddiadau hyn i gyfrifo amrywiaeth o werth ychwanegol gros ar gyfer gwariant cynnwys MoE.

## Cwmpas a chyfyngiadau ein dadansoddiad

A1.10 Fel y nodwyd uchod, roeddem yn dibynnu ar ddau adroddiad a gyhoeddwyd yn allanol yn ogystal â gwybodaeth gan C4C am ei wariant ar gynnwys MoE. Yn benodol:

a) Cafodd y ddau adroddiad, gan ddefnyddio'r un data ONS sylfaenol, eu paratoi at ddibenion gwahanol ac roeddent yn defnyddio dulliau ychydig yn wahanol. Mae hyn yn golygu nad yw'r canlyniadau a adroddir yn yr adroddiadau yn gwbl gyson.
b) Nid oeddem yn gallu adolygu'r fethodoleg a'r data sylfaenol a ddefnyddiwyd yn y ddau adroddiad, dim ond y canlyniadau.
c) Cyhoeddwyd y ddau adroddiad gan ddau gwmni cyfrifyddu sefydledig. Fel y nodwyd, ni wnaethom feirniadu eu methodoleg.
d) Wrth gyfrifo'r ystodau gwerth ychwanegol gros, roeddem wedi defnyddio amcangyfrifon C4C o gyfanswm gwariant cynnwys cymwys, y rhaniad rhanbarthol presennol (rhwng Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) a chostau chwyddiant cynnwys. Mae'r holl dybiaethau hyn yn debygol o newid dros gyfnod nesaf y drwydded.

A1.11 Felly, dylid ystyried canlyniadau ein dadansoddiad fel amcangyfrifon bras.

## Ein methodoleg a dadansoddiad

### Ffynonellau data

A1.12 Fel y nodwyd uchod, rydym yn ymwybodol o ddau adroddiad, a gyhoeddwyd yn 2021, sy'n berthnasol i amcangyfrif ystod o werth ychwanegol gros MoE C4C. Cafodd un ei chynhyrchu ar gyfer Channel 4 a'i chyhoeddi gan Ernst and Young (EY), a chafodd y llall ei chynhyrchu ar gyfer Screen Scotland a'i chyhoeddi gan Saffery Champness.

## Adroddiad EY

A1.13 Roedd Adroddiad Ernst and Young, *Channel 4's contribution to the UK*, *Adroddiad EY ar gyfer Channel 4*, Ebrill 2021[303] wedi cyfrifo gwerth ychwanegol gros ar gyfer Channel 4 ar gyfer y gwledydd a rhanbarthau Lloegr drwy gyfuno tair elfen allbwn:

a) Uniongyrchol – (yn unol â'r diffiniad o werth ychwanegol gros uchod) costau ac elw cyflogeion Channel 4 (neu golledion),
b) Anuniongyrchol – Channel 4 yn prynu nwyddau a gwasanaethau gan gwmnïau eraill yn ei gadwyn gyflenwi yn y rhanbarth hwnnw. Bydd y cwmnïau hynny yn eu tro yn prynu nwyddau a gwasanaethau gan eu cyflenwyr eu hunain, a
c) Wedi'i gymell – cyflogeion cyflenwyr Channel 4 yn y rhanbarth hwnnw yn gwario rhywfaint o'u cyflogau ar nwyddau a gwasanaethau yn y rhanbarth hwnnw.

A1.14 Cyfrifodd EY yr allbynnau hyn gan ddefnyddio lluosyddion sy'n cyfateb i'r gwahanol gategorïau gwariant (nid yw'r adroddiad yn rhoi esboniad manwl o sut cafodd y rhain, ar wahân i ddweud ei fod yn seiliedig ar ddata gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Yna, ychwanegodd EY yr allbynnau i amcangyfrif ffigur ar gyfer cyfanswm y gwerth ychwanegol gros a gynhyrchwyd o wariant Channel 4.

**Ffigur A1: Gwerth Ychwanegol Gros EY**

| 2021 | Gwariant £m | Gwerth Ychwanegol Gros £m | Lluosydd |
|---|---|---|---|
| Y DU | 862 | 992 | 1.15 |
| | | | |
| Yr Alban | 31 | 36 | 1.16 |
| Gogledd Iwerddon | 11 | 8 | 0.72[304] |
| Cymru | 18 | 30 | 1.14 |
| | | | |
| Y DU (cyfrifiad Ofcom) | 777 | 928 | 1.19 |

Ffynhonnell: Adroddiad EY

A1.15 Nid yw ffigurau EY ar gyfer y gwledydd yn cynnwys costau llafur na gwerth ychwanegol gros uniongyrchol felly nid oes modd eu cymharu'n union â'r ffigur ar gyfer y DU gyfan. Yn y tabl, rydym wedi cyfrifo'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU. Yn y lluosyddion rhanbarthol rydym wedi'u cyfrifo isod, rydym wedi addasu'r lluosyddion yn ôl y gymhareb: Y DU (gan gynnwys llafur a gwerth ychwanegol gros uniongyrchol)/y DU (ac eithrio llafur a gwerth ychwanegol gros uniongyrchol).

[303] EY, Channel 4's contribution to the UK, Ebrill 2021.
[304] Er bod lluosydd o lai nag 1 yn ymddangos yn groes i'r disgwyl, mae'n bosibl. Er enghraifft, os oedd y gwariant ar ddrama a oedd yn dibynnu ar dalent ddrud o'r tu allan i'r rhanbarth, yna er y gellir ystyried bod gwariant yn cael ei wneud yn y rhanbarth hwnnw, gall taliadau am y dalent honno, ynghyd â'r llif uniongyrchol ac anuniongyrchol, ddigwydd y tu allan i'r rhanbarth.

## Adroddiad Saffery Champness

A1.16 Mae adroddiad Saffery Champness *Economic Value of the Screen Sector in Scotland in 2021*[305] yn defnyddio dull gwerth ychwanegol gros tebyg[306] i'r un yn adroddiad EY. Roedd yn edrych ar yr Alban yn unig, yn hytrach na'r DU yn gyfan gwbl, ac yn canolbwyntio ar wariant ehangach ar gynhyrchu a datblygu yn y cyfryngau. Roedd Saffery Champness, fel EY, yn dibynnu ar ddata ONS ac yn cyfrifo gwerth ychwanegol gros ar gyfer effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac wedi'u hysgogi.

A1.17 Mae adroddiad Saffery Champness yn nodi'r gwariant cynhyrchu a datblygu wedi'i rannu i wahanol sectorau. Mae canlyniadau'r sector ar gyfer 2021 wedi'u nodi isod, ynghyd â'n cyfrifiad o'r lluosydd.

**Ffigur A2: Gwerth Ychwanegol Gros Saffery Champness**

| 2021 | Gwariant (gan gynnwys COE) £m | Gwerth Ychwanegol Gros £m | Lluosydd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Datblygiad | - | 26 | amh. |
| Cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus | 223 | 366 | 1.64 |
| Cynhyrchu mewn lleoliadau | 347 | 296 | 0.85 |
| Cynhyrchu ffilmiau annibynnol | 8 | 11 | 1.46 |
| Cynhyrchu rhaglenni teledu eraill | 6 | 7 | 1.22 |
| Animeiddio, effeithiau gweledol ac ôl-gynhyrchu | 27 | 49 | 1.81 |
| Cyfryngau clyweledol eraill | 6 | 5 | 0.77 |
| Cyfanswm | **617** | **760** | **1.23** |

Ffynhonnell: Adroddiad Saffery Champness

A1.18 Er bod Channel 4 yn ddarparwr cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus, mae adroddiad Saffery Champness yn dweud bod ei wariant ar gynnwys yn yr Alban yn £23.5m yn 2021, sy'n cynrychioli 0.5% o gyfanswm 2021 yr Alban.[307] O gyfanswm 2021, roedd 71.6% o'r gwariant gan y BBC. Rydym o'r farn bod ein hamcangyfrif o'r lluosydd 'cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus' mewn gwirionedd yn lluosydd cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC, ac mae'n bosibl na fyddai hynny'n briodol ar gyfer Channel 4. Rydym o'r farn bod lluosydd o 1.23 yn amcangyfrif mwy rhesymol. Mae hefyd yn fwy cyson â'r lluosydd rydym wedi'i gael o adroddiad EY (1.19).

---

[305] Screen Scotland, Economic Value of the Screen Sector in Scotland in 2021, Awst 2023.
[306] Gweler adran 3.1.
[307] Gweler tablau 4 a 5 yr adroddiad.

## Cyfrifo lluosyddion MoE.

A1.19 Fel y nodwyd uchod, roedd lluosyddion rhanbarthol EY yn eithrio costau llafur a gwerth ychwanegol gros uniongyrchol. Er mwyn sicrhau bod amcangyfrifon EY a Saffery Champness yn gyson, maent wedi cael eu haddasu gan ffactor o 0.97 i gynhyrchu'r lluosyddion rhanbarthol canlynol:

**Ffigur A3: Lluosydd EY wedi'i addasu**

| | Lluosydd EY (gan gynnwys llafur a gwerth ychwanegol gros uniongyrchol) |
|---|---|
| Yr Alban | 1.13 |
| Cymru | 1.11 |
| Gogledd Iwerddon | 0.70 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ofcom gan ddefnyddio adroddiadau EY a Saffery Champness

A1.20 Mae ein cyfrifiad o luosydd Saffery Champness yr Alban o 1.23 yn 8.8% yn uwch na'n cyfrifiad o luosydd EY yr Alban (1.13). Mae cynyddu ein cyfrifiadau lluosydd EY Cymru a Gogledd Iwerddon 8.8% yn arwain at ein hamcangyfrifon o'r lluosyddion rhanbarthol Champness Saffery fel a ganlyn:

**Ffigur A4: Lluosyddion EY a Saffery Champness**

| | Lluosydd EY | Lluosydd SC |
|---|---|---|
| Yr Alban | 1.13 | 1.23 |
| Cymru | 1.11 | 1.21 |
| Gogledd Iwerddon | 0.70 | 0.76 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ofcom gan ddefnyddio adroddiadau EY a Saffery Champness

## Amcangyfrif Gwerth Ychwanegol Gros MoE

A1.21 Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i Channel 4 wario 9% o'i wariant ar gynnwys ar raglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU y tu allan i Loegr. Ein cynnig yw bod y cwota hwn yn aros yr un fath. Yn ei gyflwyniad ar yr amodau ar gyfer y drwydded newydd, roedd Channel 4 yn nodi ei gynlluniau gwario ar gynnwys.

5.202 Roeddem yn tybio bod 58% o'r gwariant arfaethedig hwn yn wariant cymwys,[308] ac ar sail cwota 9%, gwnaethom gyfrifo gwariant MoE cymwys. Wedyn, gwnaethom dybio bod y rhaniad presennol yn y gwariant MoE rhwng Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon[309] yn aros yn gyson, ac yn rhagweld gwariant MoE ar gyfer pob gwlad.

A1.1 Yna, gwnaethom gymhwyso'r lluosyddion (Ffigur A4) i'r gwariant hwnnw, i gyfrifo amcangyfrifon o werth ychwanegol gros ar gyfer pob rhanbarth a chyfanswm ar gyfer MoE, a allai mewn ffigurau nominal dros gyfnod y drwydded ddeng mlynedd arfaethedig, fod tua £867-£944m.

[308] Mae gwariant cymwys yn cyfeirio at wariant ar raglenni rhwydwaith gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.
[309] Yn seiliedig ar wariant Channel 4 yn 2021 a 2022.

A1.2 Fel y nodir yn y cyfrifiadau uchod, rydym wedi gwneud nifer o dybiaethau yn yr amcangyfrifon hyn, i gyd yn amodol ar rywfaint o ansicrwydd a newid.

## Sut mae ein dadansoddiad wedi cael ei ddefnyddio yn y ddogfen ymgynghori hon?

A1.3 Mae ein cynigion ar gwotâu MoE wedi'u nodi ym mharagraffau 5.126 i 5.146 yr ymgynghoriad.

# A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A2.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 14 Chwefror 2024.

A2.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/channel-4-licence-renewal. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A2.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol eraill, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost at Channel4LicenceRenewal@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 14 Chwefror 2024.

A2.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:

Channel 4 Licence Renewal team
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A2.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad fod ddim hwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A2.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A2.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A2.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A2.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 5. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A2.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Channel 4 Licence Renewal team, neu gallwch anfon e-bost at Channel4LicenceRenewal@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A2.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A2.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A2.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A2.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A2.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A2.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yng Ngwanwyn 2024.

A2.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A2.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 3.

A2.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A2.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

A2.21 Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A3. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A3.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr er mwyn cael syniad a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A3.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A3.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A3.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A3.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A3.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A3.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion bob hyn a hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac y gellir eich adnabod ohono)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwyf yn deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A5. Cwestiynau'r ymgynghoriad

A5.1 Rydym yn gofyn am sylwadau ar ein cynigion a'r rhesymeg. Rhowch resymau dros eich ymateb ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effaith bosibl ar grwpiau penodol o bobl?

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effaith ar y Gymraeg?

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer gosod trwydded newydd Channel 4?

**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw'r amod sy'n mynnu bod o leiaf 208 awr o raglenni newyddion yn ystod oriau gwylio brig yn cael eu cynnwys yng ngwasanaeth Channel 4 ym mhob blwyddyn galendr o'r cyfnod trwyddedu?

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddileu'r gofyniad amserlennu newyddion amser cinio?

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw'r gofyniad amserlennu newyddion ar benwythnosau?

**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i fynnu bod o leiaf 178 awr ym mhob blwyddyn galendr o'r cyfnod trwyddedu yn rhaglenni materion cyfoes sydd wedi'u cynnwys yng ngwasanaeth Channel 4 a'u bod o ansawdd uchel ac yn delio â materion cenedlaethol a rhyngwladol? Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw'r gofyniad bod rhaid i 80 awr o'r 178 awr fod yn ystod oriau gwylio brig?

**Cwestiwn 8:** A ydych yn cytuno â'n cynnig i fynnu:

a) bod o leiaf 45% o'r oriau o raglenni sydd wedi'u cynnwys yn Channel 4 ym mhob blwyddyn galendr yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer y gwasanaeth; a

b) bod o leiaf 70% o'r oriau o raglenni sy'n cael eu gwylio yn ystod oriau brig yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer Channel 4?

**Cwestiwn 9:** A ydych yn cytuno â'n cynigion i gadw'r gofynion bod yn rhaid, ym mhob blwyddyn galendr, i o leiaf 35% o'r oriau o raglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar Channel 4 gael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25, a bod yn rhaid i o leiaf 35% o'r gwariant ar raglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar Channel 4 gael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25, a rhaid iddynt fod yn gyfeiriol at gynhyrchu rhaglenni mewn ystod o ganolfannau cynhyrchu?

**Cwestiwn 10:** A ydych yn cytuno â'n cynigion i gadw'r gofynion bod o leiaf 9% o oriau o raglenni a wneir yn y DU i'w gwylio ar Channel 4 yn cael eu cynhyrchu y tu allan i Loegr ym mhob blwyddyn galendr, ac ym mhob blwyddyn galendr, bod o leiaf 9% o'r gwariant ar raglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU i'w gwylio ar Channel 4 yn cael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni y tu allan i Loegr, a'u bod yn gyfeiriol at gynhyrchu rhaglenni mewn canolfannau cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon?

**Cwestiwn 11:** A ydych yn cytuno â'n cynnig i gadw'r gofyniad i ddarlledu o leiaf hanner awr o raglenni ysgol, heb gynnwys deunydd cyflwyno, ym mhob blwyddyn galendr o'r cyfnod trwyddedu?

**Cwestiwn 12:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw'r amod sy'n darparu bod yn rhaid i ddim llai na 25% o gyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer darlledu rhaglenni cymwys ar Channel 4 gael ei ddyrannu ym mhob blwyddyn galendr i ddarlledu ystod ac amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol?

**Cwestiwn 13:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid adnewyddu trwydded Channel 4 am gyfnod o ddeng mlynedd?